



**Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)  
Newydd Powys  
2022–2037**

**Y Strategaeth a Ffefrir**

**Ymgynghoriad Drafft**

**Awst 2024**



**Cynnwys**

<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
1.1 Beth yw Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd? .....	5
1.2 Sut i wneud sylwadau ar Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd? .....	5
1.3 Beth sy'n Digwydd Nesaf? .....	6
<b>2. Nodweddion Powys .....</b>	<b>7</b>
2.1 Cyflwyniad .....	7
2.2 Lleoliad a Thopograffeg .....	7
2.3 Aneddiadau a Lleoedd .....	9
2.4 Yr Amgylchedd .....	10
2.5 Mynediad a Thrafnidiaeth .....	10
2.6 Poblogaeth/Demograffeg .....	11
2.7 Anheddau/Cartrefi.....	11
2.8 Y Gymraeg .....	12
2.9 Yr Economi/Swyddi.....	12
2.10 Adwerthu, Adloniant a Hamdden .....	13
<b>3. Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol .....</b>	<b>14</b>
3.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol .....	14
3.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol.....	19
3.3 Y Cyd-destun Lleol .....	23
<b>4. Materion, Heriau a Chyfleoedd Allweddol .....</b>	<b>27</b>
4.1 Cefndir.....	27
4.2 Rhestr o'r Materion Allweddol .....	27
4.3 Materion Allweddol.....	28
<b>5. Gweledigaeth ac Amcanion.....</b>	<b>39</b>
5.1 Gweledigaeth y Cynllun .....	39
5.2 Pennu Amcanion .....	39
5.3 Amcanion a Chanlyniadau CDLI Newydd .....	40
<b>6. Yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy.....</b>	<b>47</b>
<b>7. Dewisiadau Twf a Gofodol.....</b>	<b>52</b>
7.1 Dewisiadau Twf.....	52
7.2 Y Dewisiadau Twf a Ystyriwyd .....	54
7.3 Y Dewis Twf a Ffefrir.....	58
7.4 Dewisiadau Gofodol.....	58
<b>8. Y Strategaeth a Ffefrir .....</b>	<b>60</b>

8.1	Y Diagram Allweddol.....	61
<b>9.</b>	<b>Fframwaith a Pholisiâu Strategol.....</b>	<b>62</b>
9.1	Strategaeth Twf—Faint o ddatblygiad sydd wedi ei gynllunio? .....	62
9.2	Strategaeth Ofodol—Ble mae datblygiad wedi ei gynllunio? .....	63
9.3	Twf Tai .....	68
9.4	Tai Fforddiadwy ac Arbenigol .....	71
9.5	Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.....	72
9.6	Cyflogaeth a'r Economi.....	72
9.7	Adwerthu a Chanol Trefi .....	74
9.8	Twristiaeth Gynaliadwy .....	76
<b>10.</b>	<b>Y Fframwaith Strategol Ehangach.....</b>	<b>77</b>
10.1	Seilwaith i Wasanaethu Datblygiad Newydd.....	77
10.2	Newid Hinsawdd .....	78
10.3	Trafnidiaeth Gynaliadwy .....	79
10.4	Perygl o Lifogydd .....	82
10.5	Creu Lleoedd a Dylunio Da .....	84
10.6	Seilwaith Gwyrdd, Adfer Natur a'r Amgylchedd Naturiol .....	85
10.7	Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol .....	89
10.8	Diogelu Adnoddau Strategol.....	91
10.9	Y Gymraeg a Diwylliant Cymru.....	92
10.10	Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol.....	94
10.11	Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel .....	95
10.12	Cynllunio Mwynau a Gwastraff.....	97
<b>11.</b>	<b>Adolygiad o Bolisiâu Rheoli Datblygu.....</b>	<b>99</b>
11.1	Polisiâu Rheoli Datblygu.....	99
11.2	Polisiâu yn Seiliedig ar Bwnc.....	102
11.3	Meysydd Polisi Newydd i'w Hystyried .....	108
<b>Atodiadau</b>	<b>.....</b>	<b>109</b>
	Atodiad 1—Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol Posibl.....	109
	Atodiad 2—Rhestr o Ddogfennau Ategol.....	110
	Atodiad 3—Geirfa.....	112
	Atodiad 4—Croesgyfeirio Amcanion â Materion Allweddol.....	116
	Atodiad 5—Cymharu Polisiâu Strategol ag Amcanion y CDLI Newydd.....	118
	Atodiad 6—Ymrwymadau Tai y CDLI Newydd .....	127
	Atodiad 7—Seilwaith a Chyfleoedd Gwyrdd .....	136

Atodiad 8—Matrics Asesu .....	141
Atodiad 9—Asesu Amcanion y CDLI Newydd o’u Cymharu â Gofynion Polisi .....	143
<b>Ffigurau:</b>	
Ffigur 1—Map o Bowys a’r Awdurdodau Lleol Cyfagos .....	7
Ffigur 2—Map sy’n Dangos Topograffeg Powys.....	8
Ffigur 3—Prif Aneddiadau a Pherygl o Lifogydd Afon a Môr.....	9
Ffigur 4—Diagram Strategol Rhanbarthol, Canolbarth Cymru (Cymru’r Dyfodol) .....	22
Ffigur 5—Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy y CDLI Newydd.....	47
Ffigur 6—Clystyrau Aneddiadau yn y CDLI Newydd .....	48
Ffigur 7—Ardaloedd Gwledig ac Aneddiadau nad ydynt yn rhan o Glwstwr .....	49
Ffigur 8—Ardaloedd Marchnad Tai.....	52
Ffigur 9—Ardaloedd Marchnad Masnachol a ddangosir gyda’r Aneddiadau yn yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy .....	53
Ffigur 10—Diagram Allweddol.....	61
Ffigur 11—Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllunio .....	81
Ffigur 12—Cadarnleoedd y Gymraeg .....	93
Ffigur 13—Yr Hierarchaeth Wastraff .....	98
Cyfleoedd – Rhwydwaith Cyfunol – Canolbarth Powys .....	138
<b>Tablau:</b>	
Tabl 1. Hierarchaeth Aneddiadau Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol .....	50
Tabl 2. Hierarchaeth Aneddiadau Clwstwr Lleol .....	50
Tabl 3. Hierarchaeth Aneddiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr .....	51
Tabl 4. CDLI Newydd Powys (2022–2037) Dewisiadau a Senarios Twf.....	54
Tabl 5. Senarios Dewis Twf Uwch .....	56
Tabl 6. Canran y Twf Tai a Ddosberthir rhwng Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, Clystyrau Lleol ac Ardaloedd Gwledig. ....	64
Tabl 7. Crynodeb o Ddarpariaeth Tai y CDLI a Dosbarthiad Gofodol Tai Ebrill 2024 .....	70
Tabl 8. Crynodeb o Ddarpariaeth Cyflogaeth y CDLI Newydd a’r Dosbarthiad Gofodol ledled yr Ardaloedd Marchnad Masnachol .....	73
Tabl 9. Dynodiadau Amgylchedd Naturiol yn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol Newydd .....	87
Tabl 10. Ynni adnewyddadwy a charbon isel ychwanegol y mae posibilrwydd o’i gynhyrchu yn 2022–2037.....	96

Cydnabyddiaeth



Cynhyrchwyd y mapiau gan Gyngor Sir Powys

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024

Trwydded Arolwg Ordnans rhif 100025371

Ffynonellau Data: © Intermap Technology, Cyfoeth Naturiol Cymru, MapDataCymru, Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd Powys ar gyfer cyfnod cynllun 2022–2037. Dyma'r cam statudol cyntaf wrth baratoi'r CDLI Newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys sy'n cynnwys Powys gyfan y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLI Newydd a'i bolisiau a'i gynigion yn dod yn lle CDLI Powys a fabwysiadwyd yn gynharach (2011–2026) a bydd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru i gyflawni datblygu cynaliadwy ac i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

### 1.1 Beth yw Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd?

Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cam statudol cyntaf wrth baratoi CDLI Newydd ac yn unol â Rheoliadau y CDLI mae'n ddarostyngedig i gyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol o chwe wythnos o leiaf.

Mae'n nodi Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion ar gyfer cyfnod cynllun y CDLI Newydd hyd at 2037.

Mae'n ystyried Dewisiadau Twf Strategol ar gyfer lefel a swm y twf—tai, tir cyflogaeth ac adwerthu— a Dewisiadau Gofodol Strategol ar gyfer lle y dylid dosbarthu'r twf hwn ar draws ardal y cynllun.

Gan ddefnyddio'r dewisiadau Twf a Gofodol sy'n cael eu llywio gan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynol, cynigir Strategaeth a Ffefrir. Cefnogir hyn gan Ddiagram Allweddol a set o Bolisiau Strategol arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Strategaeth.

### 1.2 Sut i wneud sylwadau ar Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd?

Ar ôl cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ymgynghori, mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau (cynrychioliaethau) am y Strategaeth a Ffefrir.

Mae papurau cefndir a thystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir wedi eu cyhoeddi ar [wefan y Cyngor](https://cy.powys.gov.uk/CDLI) (<https://cy.powys.gov.uk/CDLI>) a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir.

Mae Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol hefyd wedi ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad a bydd sylwadau ar y safleoedd yn cael eu defnyddio i lywio dyraniad safleoedd yn y Cynllun Adnau (y cam statudol nesaf). Ceir cyflwyno ceisiadau safle ymgeisiol newydd yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd.

#### Sut i wneud sylwadau:

Dylid cyflwyno sylwadau ar y dogfennau cyhoeddus yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r porth ymgynghori [Cyngor Sir Powys - Ymgynghoriadau](https://ldp.powys.gov.uk/) (<https://ldp.powys.gov.uk/>) yn ddelfrydol.

Fel arall, mae ffurflenni cynrychiolaeth safonol ar gael gan:

1. Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys. LD1 5LG. 9am i 5pm (dydd Llun i ddydd Iau), 9am i 4.30pm (dydd Gwener)
2. Y Llyfrgelloedd canlynol yn ystod [oriau agor arferol](https://cy.powys.gov.uk/cysylltu-a-ni) (<https://cy.powys.gov.uk/cysylltu-a-ni>) Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Llanfyllin, Llanidloes, Llanwrtyd, Machynlleth, Y Drenewydd, Llanandras, Rhaeadr, Y Trallwng ac Ystradgynlais,

neu drwy gais gan [ldp@powys.gov.uk](mailto:ldp@powys.gov.uk).

Rhaid derbyn ffurflenni sylwadau erbyn y dyddiad cau a gellir eu hanfon drwy e-bost at [ldp@powys.gov.uk](mailto:ldp@powys.gov.uk) neu eu cyflwyno (copi papur) at: **Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG.**

**Cyfnod Ymgynghori: 19 Awst – 7 Hydref 2024 (5pm).**

**Sylwadau Hwyr** - Ni dderbynnir sylwadau a ddaw i law ar ôl cau'r Cyfnod Ymgynghori.

### **1.3 Beth sy'n Digwydd Nesaf?**

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd y Cyngor yn dadansoddi ac yn ystyried y sylwadau a wnaed am y Strategaeth a Ffefrir. Pan ystyrir hynny'n briodol, bydd y sylwadau'n cael eu defnyddio i fireinio Strategaeth y CDLI ac i baratoi'r Cynllun Adnau.

Bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys Strategaeth a pholisïau cynllunio manylach at ddibenion rheoli datblygu, polisïau a dyraniadau safle, a fframwaith monitro. Fe'i cyhoeddir am gyfnod statudol o chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus o leiaf. Nodir rhagor o wybodaeth am yr amserlen a'r camau ar gyfer paratoi'r CDLI Newydd yn y Cytundeb Cyflawni cymeradwy sydd ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor .

## 2. Nodweddion Powys


### 2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i Bowys a'i nodweddion ac yn gosod cyd-destun ar gyfer y CDLI Newydd.

### 2.2 Lleoliad a Thopograffeg

Lleolir Powys yn ganolog yng nghanolbarth Cymru. Yn ddaearyddol, Powys yw'r awdurdod mwyaf yng Nghymru ac mae'n cwmpasu oddeutu chwarter Cymru. Mae'n ffinio â deg ACLI arall, gan gynnwys wyth yng Nghymru a Swydd Henffordd a Swydd Amwythig yn Lloegr, fel y dangosir yn Ffigur 1.

**Ffigur 1—Map o Bowys a'r Awdurdodau Lleol Cyfagos**




Mae Powys yn helaeth ei natur gan fod yn sir ucheldirol a gwledig iawn i raddau helaeth sy'n cwmpasu dros 5,000 cilometr sgwâr. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ne'r sir sy'n ACLI yn ei rinwedd ei hun, sy'n cwmpasu oddeutu 16% o ardal Powys. Bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Eryri (i'r gogledd-orllewin) fel dynodiadau tirwedd cenedlaethol.

Mae Ffigur 2 yn dangos topograffeg Powys a sut y croestorrir Powys gydag ardaloedd ucheldirol rhwng y cymoedd. Mae'r ardaloedd ucheldirol yn cynnwys y Berwyn yn y gogledd, Mynyddoedd Cambria yn y gorllewin, Bryniau Maesyfed yn y dwyrain a'r Epynt yn y de. Mae'r afonydd sy'n



dyrannu lloiau'r dyffryn yn cynnwys afonydd Hafren, Efyrrwy, Tanat, Gwy, Wysg, Irfon, Ieithon, Dyfi, Tefeidiad, Tawe a Llugwy.

**Ffigur 2—Map sy'n Dangos Topograffeg Powys**






## 2.3 Aneddiadau a Lleoedd

Mae topograffeg Powys wedi golygu, yn hanesyddol, fod nifer mawr o aneddiadau a phrif lwybrau trafniadaeth s leolir mewn dyffrynnoedd ar groesfannau afonydd pwysig ac, o ganlyniad i hyn, mae perygl o lifogydd yn cyfyngu ar nifer yr aneddiadau, fel y dangosir yn Ffigur 3.

**Ffigur 3—Prif Aneddiadau a Pherygl o Lifogydd Afon a Môr**



Mae cyfanswm o 14 tref yn ardal ACLI Powys, a dim ond un ohonynt, y Drenewydd, sydd â phoblogaeth o dros 10,000 o bobl. Mae ganddi nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig hefyd ynghyd ag anheddau mwy anghysbell a leolir mewn cefn gwlad agored. Mae lefelau amrywiol o ryngweithio cymdeithasol ac economaidd sy'n digwydd rhwng yr aneddiadau ac ag aneddiadau y tu allan i ffiniau ardal ACLI Powys.

## 2.4 Yr Amgylchedd

Mae pensaernïaeth Powys mor amrywiol â'i thirwedd, ac mae gan y mwyafrif o'i threfi a'i haneddiadau nodweddion amlwg o ran ffurfiau adeiladau neu aneddiadau sy'n eu gwneud yn rhwydd eu hadnabod. Mae'r cyfoeth o hanes pensaernïol yn ymestyn drwy bob cyfnod a phob math o adeilad.

Adlewyrchir ansawdd yr amgylchedd hanesyddol yn y nifer mawr o ddynodiadau amgylchedd hanesyddol sydd yn ardal ACLI Powys. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o 55 o ardaloedd cadwraeth, 10 tirwedd hanesyddol cofrestredig, 37 o barciau a gerddi cofrestredig, 3,938 o adeiladau rhestredig a 723 o henebion cofrestredig.<sup>1</sup>

Gan ei fod yn ACLI gwledig yn bennaf, mae cyfoeth o fioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac adnoddau cadwraeth. Cydnabyddir nifer o'r rhain yn rhyngwladol ac yn genedlaethol gan gynnwys 225 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 13 Ardal Cadwraeth Arbennig, tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig, un safle RAMSAR a naw Gwarchodfa Natur Genedlaethol. Ar lefel mwy lleol, mae gan Bowys 105 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol a 119 o safleoedd bywyd gwyllt lleol.

## 2.5 Mynediad a Thrafnidiaeth

Mae gan Bowys dros 9,250 km o hawliau tramwy cyhoeddus. Adloniant, gan gynnwys cerdded, beicio a marchogaeth, yw prif ddefnydd yr hawliau tramwy hyn. Yn ogystal â hyn, mae gan Bowys 150,000 hectar (579 milltir sgwâr) o dir mynediad agored sy'n 29% o'r holl dir ym Mhowys. Mae gan Bowys ddau lwybr cenedlaethol, Llwybr Clawdd Offa a Llwybr Glyndŵr. Mae llwybr Clawdd Offa yn 285 km (177 milltir) o hyd, ac mae 72 km (45 milltir) ohono yn sir Powys. Yn ogystal â'r ddau lwybr cenedlaethol, mae gan Bowys sawl llwybr o bwys rhanbarthol a hyrwyddir, gan gynnwys Llwybr Dyffryn Gwy, Ffordd Hafren, Llwybr Ann Griffiths, Cefnffordd Ceri, Pererindod Melangell a Llwybr Epynt.

Mae Powys yn cwmpasu arwynebedd o oddeutu 5,195 km<sup>2</sup> ac mae ganddi gyfanswm o 5,511km mewn hyd ffyrdd (sy'n 15.7% o'r holl ffyrdd yng Nghymru).<sup>2</sup> Gan mai sir wledig yw hi yn bennaf, mae canran uchel sy'n berchen ar gar, er bod cyfran is sy'n berchen ar gar mewn aneddiadau mwy, er enghraifft y Trallwng.

Powys sydd â'r gyfran uchaf o gefnffyrdd yng Nghymru, ac maent yn cyfrif am 27.3% o gefnffyrdd Cymru.<sup>3</sup> Oherwydd lleoliad Powys yng nghanol Cymru, mae angen i'r rhan fwyaf o draffig sy'n teithio i'r arfordir neu oddi yno yrru drwy Bowys. Mae rhai o'r ffyrdd hyn yn rhedeg drwy brif aneddiadau megis y Trallwng, Rhaeadr Gwy a Llanfair-ym-Muallt, sy'n achosi aflonyddwch traffig, yn enwedig yn ystod cyfnodau gwyliau.

Mae prif reilffordd y Cambria a rheilffordd Calon Cymru yn rhedeg drwy Bowys, gan deithio rhwng Aberystwyth a Birmingham Rhyngwladol (Prif linell y Cambria) a'r Amwythig i Abertawe (Calon Cymru). Mae'r rheilffyrdd hyn yn darparu cysylltiadau â dinasoedd mawr yn ogystal â'r arfordir.

<sup>1</sup> [Adroddiad Monitro Blynnyddol - Cyngor Sir Powys](#)

<sup>2</sup> [Hyd a chyflwr ffyrdd: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW. CYMRU](#)

<sup>3</sup> [Hyd a chyflwr ffyrdd: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW. CYMRU](#)

Ar gyfer y mwyafrif o Bowys, mae gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus naill ai'n absennol neu mae eu hamledd yn gyfyngedig, gyda gwasanaethau bysiau yn cysylltu'r prif drefi a'r pentrefi sydd yn y sir a thu allan iddi. Mae Asesiad Llesiant Powys yn dangos bod oddeutu hanner ardaloedd Powys ymhlith yr 20% gwaethaf yng Nghymru o ran y gallu i gael gafael ar wasanaethau.<sup>4</sup> Yn 2013, Powys oedd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth (28%) yng Nghymru a Lloegr a oedd yn byw mewn pentrefannau gwledig ac anheddau anghysbell.

## 2.6 Poblogaeth/Demograffeg

Yn ôl y Cyfrifiad, bu cynnydd o 0.1% ym mhoblogaeth Powys, o oddeutu 133,000 yn 2011 i oddeutu 133,200 yn 2021. Ar sail y dybiaeth bod 18% o boblogaeth Powys yn byw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, amcangyfrifir mai 109,224 yw poblogaeth ardal ACLI Powys (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

Powys sydd â'r dwysedd poblogaeth isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, sef 26 o bobl fesul cilometr sgwâr.<sup>5</sup> Mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn byw mewn Trefi (43%), fel y'u diffinnir gan y CDLI mabwysiedig, mae 19% yn byw mewn Pentrefi Mawr, ac mae 10% yn byw mewn Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig. Mae 28% o'r boblogaeth yn byw mewn Cefn Gwlad Agored.

Mae elfennau newid ym mhoblogaeth y Sir dros y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'r ffaith bod marwolaethau wedi bod yn fwy na genedigaethau yn gyson, gan ychydig o gannoedd fesul blwyddyn. Mudo i mewn ac allan, yw penderfynydd allweddol newid ym maint a strwythur y boblogaeth. Mae tueddiadau diweddar ym mhoblogaeth y Sir dros y deng mlynedd ddiwethaf wedi nodi enillion i'r boblogaeth net cyfartalog. Er gwaethaf hyn, mae Powys yn colli oedolion ifanc sydd yn eu harddegau hwyr hyd at eu hugeiniau cynnar. Mae'r rhesymau dros golli'r elfen hon o'r boblogaeth yn gyffredinol yn cynnwys ymadawyr ysgol yn chwilio am addysg bellach, a phobl ifanc yn chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a thai fforddiadwy.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 15.5% o boblogaeth Powys yn blant 0 i 15 oed, roedd 56.6% rhwng 15 a 64 oed ac roedd 27.8% yn 65 oed neu'n hŷn. Rhagwelir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio yn parhau i ostwng. Yn y cyfamser, bydd nifer y bobl sydd dros oedran ymddeol yn cynyddu. Mae hyn yn golygu y bydd y gweithlu yn gyfran lai o gyfanswm y boblogaeth ac y bydd y gymhareb dibyniaeth henaint (pobl nad ydynt yn weithwyr o'u cymharu â gweithwyr) yn cynyddu.

## 2.7 Anheddau/Cartrefi

Yn ôl cyfrifiad 2021, 60,182 oedd cyfanswm yr aelwydydd ym Mhowys, a 2.19 oedd maint yr aelwyd gyfartalog. Amcangyfrifir bod 49,349 o'r aelwydydd hyn yn ardal ACLI Powys, a bod oddeutu 10,833 ohonynt yn byw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae amcanestyniadau aelwydydd amrywiolyn uwch Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd cynnydd o 3.9% yn nifer yr aelwydydd ym Mhowys (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn ystod cyfnod 2022–2037. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1,931 o aelwydydd yn ystod cyfnod y CDLI Newydd.

Amcangyfrifwyd ym mis Mawrth 2022 fod 67,100 o anheddau ym Mhowys. Roedd 47,200 ohonynt yn eiddo i berchen-feddiannwr, roedd 11,300 yn cael eu gosod ar rent yn breifat, roedd 5,200 yn eiddo i Gyngor Sir Powys ac roedd 3,400 yn eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<sup>6</sup>

<sup>4</sup> <https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles>

<sup>5</sup> [Cronfa Wybodaeth Llesiant: Gweld gwybodaeth am ddwysedd poblogaeth Powys— Cyngor Sir Powys](#)

<sup>6</sup> [Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth \(llyw.cymru\)](#)

Yn ystod y cyfnod monitro 1 Ebrill 2022–31 Mawrth 2023, cwblhawyd cyfanswm o 339 o anheddau, sy'n welliant parhaus ar flynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun mabwysiedig.<sup>7</sup>

Yn ystod cyfnod monitro 1 Ebrill 2022–31 Mawrth 2023, cwblhawyd cyfanswm o 124 o anheddau fforddiadwy, sy'n golygu bod CDLI mabwysiedig Powys (2011–2026) ar y trywydd iawn i gyflawni targed tai fforddiadwy y Cynllun.<sup>8</sup>

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2024 yn nodi lefel yr angen am dai ar gyfer anheddau y farchnad agored ac anheddau fforddiadwy ar gyfer Powys yn ogystal â 13 Ardal Marchnad Tai ar lefel leol. Yn seiliedig ar yr asesiad, mae angen 1,646 o anheddau marchnad a 1,036 o anheddau fforddiadwy, sef cyfanswm o 2,682 o anheddau dros gyfnod y cynllun ar gyfer ardal ACLI Powys. Yn Ardal Marchnad Tai y Trallwng a Threfaldwyn y mae'r angen cyffredinol mwyaf am dai. O ran tai cymdeithasol sy'n cael eu rhentu, am eiddo un a dwy ystafell wely y mae'r angen mwyaf, sy'n adlewyrchu'r duedd tuag at aelwydydd llai o ran maint.

## 2.8 Y Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 21,359 o siaradwyr Cymraeg ym Mhowys, sy'n 16.4% o'r boblogaeth gyfan. Ar adeg Cyfrifiad 2011, 18.6% oedd canran y siaradwyr Cymraeg. Felly, bu gostyngiad yn y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ym Mhowys. Mae Powys yn parhau i fod yn yr wythfed safle ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru o ran canran y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd. Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae gan 25% o drigolion Powys ryw gyfuniad o sgiliau Cymraeg. Yn nodedig, ceir y dwyseddau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd a de-orllewin y Sir.

## 2.9 Yr Economi/Swyddi

Gyda'i thirwedd ucheldirol prin ei phoblogaeth a chysylltedd gwael, ychydig iawn o gyflogwyr mawr sydd gan Bowys (h.y. busnesau â 250+ o gyflogeion) y tu allan i'r sector cyhoeddus. 31.3% o'r rhai cyflogedig ym Mhowys sy'n hunangyflogedig, ond 12.2% yw canran gyfartalog y cyflogeion hunangyflogedig yng Nghymru. Yn yr un modd, 32.2% yw'r ganran sydd mewn cyflogaeth ran-amser ym Mhowys, sy'n uwch na'r 26.4% sydd mewn cyflogaeth ran-amser yng Nghymru.<sup>9</sup>

Mae twristiaeth yn gweithredu fel conglaen wrth gefnogi'r economi leol, gan ddenu ymwelwyr â harddwch, pellenigrwydd a thawelwch y dirwedd ynghyd â chyfleoedd hamdden diwylliannol, amaethyddol, treftadaeth ac awyr agored.

Heblaw twristiaeth, mae amaethyddiaeth, drwy ffermydd defaid ucheldirol bach teuluol yn bennaf, hefyd yn biler allweddol i'r economi leol. Mae ffermio a choedwigaeth wedi llunio tirwedd, diwylliant a phobl Powys ers cenedlaethau lawer. Yn 2020, roedd 4,935 o ddaliadau amaethyddol ym Mhowys, sef un rhan o bump o'r daliadau yng Nghymru. Roedd 6,900 o weithwyr yn gweithio yn y diwydiant amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn 2022.<sup>10</sup>

Y tri sector cyflogaeth mwyaf ym Mhowys yn ôl canran y swyddi oedd gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (31%), dosbarthu, gwesty a bwyty (17%), a bancio, cyllid ac yswiriant (13%).<sup>11</sup>

<sup>7</sup> <https://cy.powys.gov.uk/article/5543/Adroddiadau-monitro-blynyddol>

<sup>8</sup> <https://cy.powys.gov.uk/article/5543/Adroddiadau-monitro-blynyddol>

<sup>9</sup> [Statws unigolion cyflogedig yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur \(llyw.cymru\)](#),

<sup>10</sup> [Cronfa Wybodaeth Llesiant: Gweld gwybodaeth ynghlŷn â Chyflogaeth yn ôl diwydiant—Cynqor Sir Powys, 22-47-farming-sector-in-wales.pdf \(senedd.wales\)](#) (Saesneg yn unig)

<sup>11</sup> [Cronfa Wybodaeth Llesiant: Gweld gwybodaeth ynghlŷn â Chyflogaeth yn ôl diwydiant—Cynqor Sir Powys](#)

Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan y SYG, 2.3% o bobl 16–64 oed ym Mhowys oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Mawrth 2024. Roedd 22.1% o'r boblogaeth 16–64 oed yn economaidd weithgar ym Mhowys o'i chymharu â 23% ledled Cymru.<sup>12</sup>

## 2.10 Adwerthu, Adloniant a Hamdden

Ar gyfer gweithgareddau adloniant a hamdden ym Mhowys, mae lefel a math y ddarpariaeth yn amrywio ledled y sir. Lleolir gweithgareddau ffurfiol sydd wedi eu trefnu yn y prif drefi ac mewn aneddiadau mwy yn bennaf. Mae 16 canolfan hamdden ledled Powys ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r ddarpariaeth adwerthu ym Mhowys yn canolbwyntio ar ei threfi hanesyddol. Y Drenewydd, fel canolfan isranbarthol, sydd â'r cyfleusterau siopa mwyaf a mwyaf amrywiol yn ardal ACLI Powys. Mae gan yr ardal bum prif dref: y Trallwng, Llanidloes, Llandrindod, Machynlleth a Llanfair-ym-Muallt, sy'n gwasanaethu ardaloedd gofodol mawr ac yn diwallu'r anghenion am siopau a gwasanaethau lleol nas diwellir mewn trefi eilaidd a lleol. Mae trefi eilaidd Rhaeadr Gwy, Trefyclo, Ystradgynlais a Llanandras o raddfa lai ac, yn nodweddiadol, anghenion lleol gyda rhywfaint o ddarpariaeth arbenigol y mae dalgylchoedd lleol llai yn eu diwallu. Ategir yr hierarchaeth hon gan drefi lleol a allai ddarparu eitemau hanfodol y mae eu hangen i ddiwallu anghenion dydd i ddydd, gan gynnwys Llanfyllin, Trefaldwyn, Llanfair Caereinion a Llanwrtyd.

I'r trigolion sy'n byw yn ardaloedd gwledig y Sir, mae eu bywyd bob dydd yn dibynnu ar gyfleusterau adwerthu lleol megis siopau pentref, is-swyddfeydd post, tafarndai a siopau fferm i raddau helaeth, sy'n bwysig o ran cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd pentrefi gwledig, gan ddarparu mynediad rhwydd at ddarpariaethau sylfaenol (yn enwedig i'r rhai y mae eu symudedd yn gyfyngedig).

<sup>12</sup> [Employment, unemployment and economic inactivity in Powys—Y SYG](#)



## 3. Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

### 3.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

#### Deddfwriaeth

##### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn galluogi datblygiad. Un o amcanion allweddol y Ddeddf oedd cryfhau'r dull a arweinir gan gynllun drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer y broses o baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol—a gyhoeddwyd fel Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021) a Chynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol. Cadarnhaodd ddiben statudol y system gynllunio yng Nghymru wrth ddatgan bod yn rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio ymarfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn ofynnol i'r CDLI Newydd ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon.

##### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Ddeddf wedi sefydlu saith nod llesiant: Cymru Lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Fwy Cyfartal; Cymru o Gymunedau Cydlynus; Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Mae hefyd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio sydd yn y Ddeddf, sef ffactorau cynnwys, cydweithio, integreiddio, atal, a hirdymor.

##### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cyflwynodd y Ddeddf hon ddeddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac mae'n darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys gwell dyletswydd bioamrywiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau.

##### Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) yw hybu cerdded a beicio fel dull deniadol o deithio ar gyfer teithiau pwrpasol, h.y. i fynd i'r gwaith neu'r ysgol, neu i gael mynediad at siopau a gwasanaethau. Mae'n ceisio meithrin trawsnewidiad parhaol o ran sut y cynllunnir i ddatblygiadau ymgorffori seilwaith cerdded a beicio o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal ag annog newid ymddygiad hirdymor.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, i gynhyrchu mapiau teithio llesol, i ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ac i gyflawni gwelliannau mewn llwybrau a chyfleusterau teithio llesol.

##### Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Mawrth 2021)

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 a'i nod yw annog gwell penderfyniadau a lleihau anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol pan maent yn gwneud penderfyniadau strategol, er enghraifft penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu polisiâu strategol a datblygu, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Dylai gyrff cyhoeddus perthnasol ddangos tystiolaeth o lwybr archwilio

clir ar gyfer yr holl benderfyniadau a wneir o dan y ddyletswydd, gan ddefnyddio prosesau sydd eisoes yn bodoli, megis prosesau asesu effaith a systemau ymgysylltu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac adnoddau statudol er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i fodloni gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

### **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (2017)**

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru, er mwyn gwella iechyd ac atal niwed i iechyd y gellir ei osgoi. Mae'n pennu darpariaethau ar gyfer gwneud gwelliannau i iechyd gan gynnwys i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â gordewdra a gwneud rheoliadau ynghylch cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gan gyrff cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn diffinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn yr hirdymor, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu rai o bobl Cymru. Mae rheoliadau i fod i gael eu cyhoeddi i bennu pryd y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a sut y dylid ei wneud. Bydd yr ACLI yn rhoi sylw i unrhyw reoliadau a chanllawiau mewn cysylltiad ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhan o'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd Effaith sy'n gysylltiedig â'r CDLI Newydd.

### **Bil Seilwaith (Cymru) 2023**

Mae'r Bil Seilwaith (Cymru), sydd wedi pasio drwy'r Senedd, yn cyflwyno proses symlach ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru a bydd yn disodli'r drefn Datblygu o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r Bil yn sefydlu trefn newydd sy'n mabwysiadu 'dull siop un stop' lle gellir gofyn am gydsyniad a chaniatâd arall mewn un broses ymgeisio a gwneud penderfyniadau. Bydd y math newydd o gydsyniad yn cael ei alw'n 'Gydsyniad Isadeiledd' a bydd ei angen ar gyfer Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol, gan gynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr.

### **Bil Addysg Gymraeg 2024**

Disgwylir i Fil Addysg Gymraeg gael ei basio yn 2024. Mae'r Bil wedi codi o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 sy'n dangos bod angen mynd i'r afael â her ddeublyg: yn gyntaf, cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Cymru, ac yn ail, diogelu'r cymunedau Cymraeg sydd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg sydd wedi dangos gostyngiad. Bwriad y Bil yw cyflwyno 'newidiadau trawsnewidiol i'r ffordd yr ydym yn meddwl am y Gymraeg a rôl addysg oddi fewn i hynny', a byddai'n cynnwys y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## **Polisi**

### **Polisi Cynllunio Cymru**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol. Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â gofynion Deddf Gynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau canlyniadol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu PCC ac mae diweddariadau diweddar wedi hybu'r cysyniad o Greu Lleoedd, gan sicrhau cysondeb â Cymru'r Dyfodol—Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddwyd Argraffiad 12 PCC ac ymgorfforwyd newidiadau i Bennod 6 ar Lleoedd Unigryw a Naturiol, a Phennod 4 ynghylch ail gartrefi a gosodiadau tymor byr, a chefnogaeth ar gyfer tai dan arweiniad y gymuned fel math o dai fforddiadwy.



## **Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi**

Bydd y CDLI Newydd yn ystyried y gofynion fel y nodir yn y gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi, sy'n ehangu ar amrywiaeth o faterion polisi cynllunio.

### **Cymru'r Dyfodol—Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol 2040**

Y fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040 yw Cymru'r Dyfodol—Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Cynllun datblygu gofodol ac iddo strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a chydnerthedd yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant cymunedau Cymru yw ef.

Fel y fframwaith datblygu cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol yw'r haen cynllun datblygu uchaf ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae'n fframwaith y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn adeiladu arno ar lefel ranbarthol ac y bydd CDLIau yn adeiladu arno ar lefel awdurdod lleol. Mae'n ofynnol bod Cynlluniau Datblygu Strategol a CDLIau yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol ac mae'n rhaid eu cadw'n gyfredol er mwyn sicrhau eu bod nhw a Cymru'r Dyfodol yn cydweithio'n effeithiol. Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru yn unol â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd.

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 18 o bolisïau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru gyfan a thri pholisi sy'n berthnasol i Ranbarth Canolbarth Cymru. Er y bydd angen i'r CDLI Newydd fynd i'r afael â'r holl bolisïau, mae'r polisïau canlynol o bwysigrwydd penodol.

Cefnogir **Polisi 1—Ble bydd Cymru yn tyfu** gan ddiagram strategaeth ofodol sy'n nodi bod lleoliad ardal ACLI Powys yn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae'r polisi yn cyflwyno Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac mae dau o'r pump sydd yn Rhanbarth Canolbarth Cymru yn gyfan gwbl y tu mewn i ardal ACLI Powys. Mae Polisi 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol dyfu, datblygu a chynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod o raddfa briodol a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol.

Mae **Polisi 2—Llywio Twf ac Adfywio Trefol—Creu Lleoedd Strategol** yn nodi'r egwyddorion allweddol y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar leoliad datblygiad newydd. Mae hyn yn cynnwys creu cymysgedd o ddefnyddiau ac amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau, gan adeiladu lleoedd ar raddfa gerdded gyda chartrefi, cyfleusterau lleol, a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded a sicrhau bod datblygiad yn cael ei adeiladu ar ddwysedd priodol gan gorffori seilwaith gwyrdd.

Mae **Polisi 4—Cefnogi Cymunedau Gwledig** yn ei gwneud yn ofynnol i CDLIau nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a nodi polisïau i'w cefnogi nhw. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau ystyried sut y gellir cyflawni cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran, lle y dylid gwrthdroi diboblogaeth ac ystyried rôl tai fforddiadwy a marchnad newydd, cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau lleol a mwy o symudedd wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae **Polisi 5—Cefnogi'r Economi Wledig** yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig sy'n cael ei gynllunio a'i reoli drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig.

Mae **Polisi 6—Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf** ei gwneud yn ofynnol i leoli cyfleusterau masnachol, adwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd arwyddocaol mewn canol trefi.

Mae **Polisi 7—Darparu Cartrefi Fforddiadwy** yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cymru o gynyddu'r tai fforddiadwy a gyflawnir. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio archwilio pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac i nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy.

Mae **Polisi 8—Llifogydd** yn cydnabod bod perygl o lifogydd yn ffactor sy'n cyfyngu ar ddatblygiad a bod rhannau o'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol sy'n agored i lifogydd. Dylid blaenoriaethu lleoedd nad ydynt mewn perygl o lifogydd mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol.

**Polisi 9—Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd.** Mae'n ofynnol nodi a chynnwys meysydd a chyfleoedd mewn strategaethau a pholisïau cynllun datblygu, er mwyn hybu a gwarchod y swyddogaethau a'r cyfleoedd y maent yn eu darparu.

Mae **Polisi 12—Cysylltedd Rhanbarthol** yn nodi bod yn rhaid i ACLlau fanteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd sy'n deillio o'r buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus wrth gynllunio ar gyfer twf ac adfywio. Rhaid i awdurdodau cynllunio integreiddio dyraniadau safleoedd, datblygiadau newydd, a seilwaith â rhwydweithiau teithio llesol a, phan fo hynny'n briodol, sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at eu hehangu a'u gwella.

Mae **Polisi 25—Ardaloedd Twf Rhanbarthol—y Canolbarth** yn nodi Ardaloedd Twf Rhanbarthol yng Nghanolbarth Cymru ac mae'n gwneud datblygu yn y meysydd hyn yn ofynnol er mwyn diwallu anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol rhanbarthol Canolbarth Cymru. Mae'n nodi dwy Ardal Twf Rhanbarthol sy'n gyfan gwbl y tu mewn i ardal y CDLI Newydd, sef Bro Hafren a Chalon Cymru, ac mae Aberhonddu a'r Gororau yn darparu gwasanaethau pwysig i rai aneddiadau yn y de o ardal y cynllun.

Mae **Polisi 26—Tyfu Economi'r Canolbarth** yn cefnogi twf a datblygiad cyfleoedd economaidd presennol a newydd ledled y rhanbarth yn seiliedig ar fentrau gwledig traddodiadol ac ar dechnolegau a sectorau modern, arloesol yn ogystal â rhai sy'n datblygu.

Mae **Polisi 27—Symudiadau yn y Canolbarth** yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau gefnogi gwell cysylltiadau trafnidiaeth yn y rhanbarth a chyda rhanbarthau eraill a Lloegr. Dylai ACLlau gynllunio twf ac adfywio er mwyn manteisio gymaint â phosibl ar y cyfleoedd posibl sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol.

## Canllawiau

### Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Mawrth 2020)

Cyhoeddwyd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diweddaredig ym mis Mawrth 2020 i ystyried newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaethau cynllunio a pholisïau cenedlaethol.

Nid yw'r Llawlyfr yn bolisi cenedlaethol; ond mae'n darparu canllawiau ar y broses o baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â PCC a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, ac mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi, monitro a diwygio cynllun datblygu, ac mae wedi ei danategu gan dystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol ac yn gyflawnadwy a'u bod yn cyfrannu at greu lleoedd.

### Dogfennau cysylltiedig eraill

#### Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

Mae'r Cynllun hwn yn nodi dull Llywodraeth Cymru o leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd ynni mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion ehangach gorau bosibl i Gymru, gan sicrhau cymdeithas

tecach ac iachach. Mae'n nodi polisiau a chynigion â'r bwriad o leihau allyriadau a chefnogi twf yr economi carbon isel.

Mae'r targedau a'r polisiau a gyflwynir ar gyfer y sectorau canlynol yn benodol o berthnasol i gynllunio: Pŵer; Adeiladau; Cludiant; Diwydiant; Defnydd tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth; Amaethyddiaeth; a Rheoli Gwastraff.

### **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)**

Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2019 i gefnogi datblygiad cynaliadwy y moroedd o amgylch Cymru, gan gwmpasu ardaloedd wrth y lan ac ar y môr am yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol morol yn y dyfodol a sut y dylai gwahanol ddefnyddwyr y moroedd ryngweithio ac ystyried gweithgareddau a chynlluniau ei gilydd ar gyfer y dyfodol.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi perthnasol yn unol â Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag arfer unrhyw swyddogaeth a all effeithio ar unrhyw ran o ardal forol y DU, neu ardal forol gyfan y DU.

### **Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Rhagfyr 2020)**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau roi sylw i'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac mae hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ACLlau wrth adolygu CDLlau. Mae'r ail adroddiad yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf 2016 ac mae'n dangos rhai o'r cyfleoedd, y blaenoriaethau a'r heriau allweddol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae wedi ei fframio o amgylch dwy her, sef argyfyngau natur a'r newid yn yr hinsawdd, y mae Cymru yn eu hwynebu. Mae hefyd yn nodi tri maes ar gyfer newid trawsnewidiol—y systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth, ac mae'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd i weithredu i symud tuag at ddyfodol cynaliadwy.

### **Llwybr Newydd—Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)**

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran sut y gall y system drafnidiaeth helpu i gyflawni blaenoriaethau i Gymru. Mae'n nodi'r blaenoriaethau tymor byr am bum mlynedd a'r uchelgeisiau hirdymor am 20 mlynedd, ynghyd â naw cynllun bach sy'n esbonio sut y byddant yn cael eu cyflawni ar gyfer gwahanol sectorau a dulliau cludiant. Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau, awdurdodau lleol, darparwyr cludiant (yn y sector masnachol a'r trydydd sector) a chydweithwyr mewn meysydd polisi eraill gydweithio i sicrhau bod cludiant yn cyfrannu at lesiant Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r strategaeth genedlaethol hon yn gosod y fframwaith ar gyfer dwy haen y cynlluniau cludiant yng Nghymru—y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cydgynlluniau Cludiant Lleol. Bydd angen i strategaeth a pholisiau'r CDLI Newydd fod yn gyson â'r cynlluniau a'r strategaethau hyn.

### **Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Cyflawni Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair—Creu Lleoedd ac Adferiad COVID-19 (Gorffennaf 2020)**

Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn nodi blaenoriaethau ar gyfer polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnodau adfer yn sgil COVID-19. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r angen am ddatblygiadau da, o ansawdd uchel, a arweinir gan egwyddorion creu lleoedd. Mae'n cydnabod bod darparu lleoedd da ar hyn o bryd yn gofyn i Gynllunwyr fod yn greadigol ac yn ddeinamig.

Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn nodi wyth mater allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol at ei gilydd er mwyn sicrhau bod y gweithredu mor effeithiol â phosibl:

- Aros yn lleol: creu cymdogaethau
- Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau trafndiaeth sydd wedi eu hailddarganfod
- Adfywio canol ein trefi
- Lleoedd digidol—achubiaeth y cyfyngiadau symud
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
- Ailddihuno sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a chydnerthedd ecolegol
- Gwella ansawdd yr aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a lles

Mae pob mater yn tynnu sylw at bwyntiau pwysig yn PCC ac yn cynnwys sylwebaeth ar agweddau penodol ar sefyllfa posibl yn sgil pandemig COVID-19.

## 3.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol

### Bargen Twf Canolbarth Cymru

Gwahoddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ranbarth Canolbarth Cymru i ddatblygu Bargen Twf yn 2017. Nod y Fargen yw dod â ffyniant i gymunedau a busnesau y rhanbarth ochr yn ochr ag amrywiaeth o strategaethau a buddsoddiadau eraill o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Cyflwynir y Fargen Twf ar ffurf Portffolio. Ym mis Medi 2021, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru Achos Busnes y Portffolio. Adolygodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fframwaith y portffolio ar gyfer y Cynllun Twf a'r set gychwynnol o Raglenni a Phrosiectau. Mae'r Portffolio hwn yn darparu fframwaith ar gyfer y Fargen Twf ac mae wedi ei chwmpasu o'r wyth maes blaenoriaeth twf strategol eang a nodir gan 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru' a gyhoeddwyd gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ym mis Mai 2020. Mae'n nodi tri phrosiect ym Mhowys—eco-hyfforddiant yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, prosiect Llynnoedd Cwm Elan ac adfer Camlas Trefaldwyn. Nod rhaglenni a phrosiectau rhanbarthol eraill yw rhoi hwb i'r meysydd Blaenoriaeth Twf Strategol a ganlyn:

- Ymchwil Gymhwysol ac Arloesedd
- Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod
- Cynnig Twristiaeth Gryfach
- Digidol
- Cefnogi Menter

Ym mis Ionawr 2022, llofnodwyd Cytundeb Bargen Derfynol Twf Canolbarth Cymru gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'n nodi ymrwymiad yr holl bartneriaid i gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru, sef partneriaeth arloesol sy'n dod â buddsoddiad cyfunol o £110 miliwn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y disgwylir iddo ddenu buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill gan sicrhau'r effaith fwyaf bosibl yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Mae'r cynigion a gyflwynwyd i'r Llywodraeth yn dangos y canlyniadau posibl y gellir eu cyflawni yng Nghanolbarth Cymru drwy fuddsoddiad y Fargen Twf:

1. Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yn y Canolbarth drwy'r Fargen Twf erbyn 2032.
2. Cefnogi codiad Gwerth Ychwanegol Gros o rhwng £570 miliwn a £700 miliwn i Economi Canolbarth Cymru drwy'r Fargen Twf erbyn 2032.

3. Cyflawni buddsoddiad o hyd at £400 miliwn at ei gilydd yn Economi Canolbarth Cymru drwy'r Fargen Twf erbyn 2032.

### **Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**

Partneriaeth ranbarthol a sefydlwyd yn 2015 i ddatblygu swyddi, twf a'r economi ehangach yng Nghanolbarth Cymru yw Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'n cynnwys cyrff cynrychioliadol a rhanddeiliaid allweddol o wasanaethau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ledled y rhanbarth. Mae'r fenter yn ceisio cynrychioli budd a blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer gwella'r economi leol.

Cyhoeddodd Tyfu Canolbarth Cymru "Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru" ym mis Chwefror 2019, sydd â'r nod o gyflawni twf ledled y rhanbarth yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Mae'n amlinellu'r rhaglen flaenoriaeth sydd ei hangen i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, swyddi mwy cynhyrchiol a chefnogi cymunedau llewyrchus yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2033. Fe'i bwriedir i weithredu fel dogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd sy'n arwain buddsoddiad yn y dyfodol.

Cyhoeddodd y Bartneriaeth 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf' ym mis Mai 2020. Rhennir y ddogfen hon yn ddwy adran. Mae'r adran gyntaf yn nodi'r strategaeth economaidd ar gyfer Canolbarth Cymru ac yn amlinellu gweledigaeth o sut mae'r Bartneriaeth yn dymuno gweld economi Canolbarth Cymru yn tyfu fel lle i fyw ac i weithio ynddo, ac fel lle i ymweld ag ef dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'n nodi blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn ranbarthol a fydd yn sefydlu fframwaith ac amodau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, ar sail tystiolaeth fanwl a dealltwriaeth o anghenion busnesau a thrigolion yn y rhanbarth. Cyflawnir y Cynllun drwy amrywiaeth o gyfleoedd cyllido, gan gynnwys Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Mae'r ail adran yn nodi'r map ffordd arfaethedig ar gyfer sicrhau Bargaen Twf ynghynt ar gyfer Canolbarth Cymru gyda Llywodraethau y DU a Chymru. Datblygwyd y map ffordd i sicrhau bod y buddsoddiadau cywir yn dod rhagddynt, a fydd yn cyflawni gweledigaeth y Bartneriaeth ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i economi Canolbarth Cymru.

### **Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru (2020)**

Datblygwyd Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru yn 2020 gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth i Ganolbarth Cymru gyflawni system ynni di-garbon net sy'n cyflawni buddion cymdeithasol ac economaidd, yn dileu tlodi tanwydd, yn cysylltu'r Canolbarth yn well â gweddill y DU, ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio y DU yn ehangach. Mae'r Strategaeth yn nodi chwe blaenoriaeth allweddol:

- Sbarduno'r broses o ddatgarboneiddio stoc tai ac adeiladau y rhanbarth.
- Gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod gridiau trydan a nwy yn y rhanbarth yn addas ar gyfer dyfodol sydd wedi ei ddatgarboneiddio 100%.
- Hybu'r defnydd o ynni adnewyddadwy drwy gynhyrchu a storio newydd.
- Cyflymu'r newid i drafnidiaeth ddi-garbon a gwella cysylltedd.
- Datblygu a rheoli potensial amaethyddiaeth i gyfrannu at nodau di-garbon.
- Rheoli arloesedd, er mwyn cefnogi'r broses o ddatgarboneiddio a thwf glân.

### **Datganiad Ardal Canolbarth Cymru (Mawrth 2020)**

Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi datganiadau rhanbarthol, y cyfeirir atynt fel "Datganiadau Ardal", ar gyfer ardaloedd Cymru y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben hwyluso'r gwaith o weithredu'r Polisi

Adnoddau Naturiol cenedlaethol. Mae Datganiadau Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth priodol, yr hyn y gellir ei wneud ar y cyd i ymateb i'r heriau hynny, a sut i reoli adnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ardal ACLI Powys yn rhanbarth Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd yr ACLI ar gyfer Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n nodi'r pum thema ganlynol ar gyfer ardal Canolbarth Cymru:

- Gwella bioamrywiaeth—ymateb i'r argyfwng natur.
- Tir, dŵr ac aer cynaliadwy.
- Ailgyssylltu pobl a lleoedd—gwella iechyd, llesiant a'r economi.
- Adnoddau coedwigoedd—rheoli adnoddau pren yn effeithiol.
- Argyfwng hinsawdd—addasu a lliniaru.

Mae datganiadau ardal yn ddarn allweddol o dystiolaeth i ACLlau ei ystyried wrth baratoi eu CDLlau. Maent yn darparu tystiolaeth o faterion amgylcheddol ac adnoddau naturiol a dylid eu defnyddio yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd ac wrth gyflawni dyletswydd yr ACLlau i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau cynllunio.

### **Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Canolbarth Cymru**

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Ionawr 2021) bedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig mandadol sy'n cwmpasu pedwar rhanbarth Cymru. Mae gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru yn cwmpasu Ceredigion, Powys, gan gynnwys ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym Mhowys.

Daeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) (SI 2021/360) i rym ar 28 Chwefror 2022 ac mae'n nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol.


### **Cydweithrediad rhanbarthol**

O ganlyniad i'w leoliad, mae 10 ACLI yn ffinio â Phowys. Mae gan y mwyafrif o'r boblogaeth gysylltiadau â threfi a dinasoedd y tu allan i Bowys ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys iechyd, addysg, adwerthu a chyfleoedd gwaith. Mae cysylltiadau o'r fath yn cynnwys y rhai i Gaerdydd, Merthyr Tudful, Abertawe, Wrecsam, Henffordd, Amwythig, Telford a dinasoedd ymhellach i ffwrdd mewn rhai achosion megis Birmingham a Manceinion.

Daw Ffigur 4 o Gymru'r Dyfodol ac mae'n dangos y cysylltiadau allweddol rhwng aneddiadau yn rhanbarth Canolbarth Cymru ac yn tynnu sylw at y cyfeiriad y mae pobl yn teithio ar gyfer gwasanaethau y tu allan i'r ardal. Mae hefyd yn nodi'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol.<sup>13</sup>

<sup>13</sup> [llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf)

**Ffigur 4—Diagram Strategol Rhanbarthol, Canolbarth Cymru (Cymru'r Dyfodol)**



Hyd yma, mae ACLI Powys wedi gweithio gydag awdurdodau eraill yn Rhanbarth Canolbarth Cymru a thu hwnt ar y darnau tystiolaeth a ganlyn:

- Cyfarfodydd rheolaidd â chydweithwyr cynllunio, tai ac ymchwil yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Lleol Ceredigion i drafod materion a gwneud cynnydd â phroses newydd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol.
- Gweithio gydag awdurdodau yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru ar ddatblygu model hyfywedd datblygu ar gyfer asesiadau hyfywedd lefel uchel ac sy'n benodol i safle.
- Cydgomisiynodd ACLI Powys, ACLI Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Llywodraeth Cymru Safleoedd Cyflogaeth Rhanbarth Canolbarth Cymru ac Anghenion Eiddo a Chynllun Gweithredu i lywio Bargaen Twf Canolbarth Cymru.
- Cydgomisiynodd ACLI Powys, ACLI Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol.

Nododd dadansoddiad clwstwr y CDLI Newydd gysylltiadau swyddogaethol rhwng aneddiadau yn ne ardal ACLI Powys ac aneddiadau mwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sef Aberhonddu, Talgarth a'r Gelli Gandryll.



## **Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru—Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Rhagfyr 2020)**

Cyngor Sir Powys yw'r Awdurdod Cynllunio Mwynau ar gyfer Sir Powys, ac eithrio'r ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae wedi cymeradwyo Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Agregau) 2020. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Mwynau baratoi i ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU o ran cyflenwi mwynau. At ddibenion sefydlogrwydd masnachol, mae'r diwydiant agregau yn gofyn am fanc tir sicr a dichonol.

Mae Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cyfrifo bod gan Bowys 139.24 miliwn tunnell o warchodfeydd craig mathredig sy'n cyfateb i fanc tir 39.6 mlynedd, sy'n bodloni ac yn rhagori ar yr angen a nodwyd ar gyfer banc tir 25 mlynedd fel y nodir gan PCC a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1. Dangosodd y data warged o gyflenwad craig mathredig, felly nid oes gofyniad am ddyraniadau newydd yn y dyfodol. Nodwyd bod dosraniad Powys ar gyfer tywod a graean a enillwyd o'r tir yn Ddim yn Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol, felly unwaith eto, nid oes gofyniad cyfredol am ddyraniadau agregau tywod a graean yn y dyfodol.

### **3.3 Y Cyd-destun Lleol**

#### **Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Powys (Chwefror 2023)**

Cymeradwyodd y Cyngor Llawn Gynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol 2023–2027 ym mis Chwefror 2023. Mae'n nodi'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Cryfach—Byddwn yn dod yn sir sy'n llwyddo gyda'n gilydd, gyda chymunedau a phobl sydd wedi eu cysylltu'n dda yn gymdeithasol, sy'n wydn yn bersonol ac yn gryf yn economaidd.
- Tecach—Byddwn yn Gyngor agored, sy'n cael ei redeg yn dda lle mae lleisiau pobl yn cael eu clywed ac yn helpu i lunio ein gwaith a'n blaenoriaethau, gyda mynediad tecach, mwy cyfartal, at wasanaethau a chyfleoedd. Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb er mwyn cefnogi llesiant pobl Powys.
- Gwyrddach—Rydym yn dymuno sicrhau dyfodol gwyrddach i Bowys, lle bo ein llesiant yn gysylltiedig â llesiant y byd naturiol, a'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae'r amcanion y manylir arnynt yn y cynllun yn canolbwyntio ar feysydd i'w gwella neu eu datblygu, er mwyn gwella bywydau pobl, fel unigolion ac fel cymunedau. Amcanion craidd y Cynllun yw:

1. Gwella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau, a sut i gael gafael arnynt, fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus.
2. Cefnogi cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd da, darparu cyfleoedd hyfforddi, a dilyn achrediad cyflogwr cyflog byw gwirioneddol.
3. Gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb er mwyn cefnogi llesiant pobl Powys.

#### **Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Mehefin 2023)**

Cymeradwyodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys Gynllun Llesiant Lleol—2040: Powys Teg, Cynaliadwy ac Iach ym mis Mehefin 2023. Mae'n cynnwys tri amcan lleol a thri cham llesiant i gyflawni'r amcanion.

Dyma'r tri amcan llesiant:

- Bydd pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach, a diogel.
- Mae Powys yn sir o fannau a chymunedau cynaliadwy.

- Gwasanaeth Cyhoeddus Gynyddol Effeithiol i Bobl Powys.

Y tri cham llesiant yw:

- Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd.
- Cymryd ymagwedd systemau cyfan at bwysau iach.
- Llunio'r dyfodol drwy wella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl Powys drwy dystiolaeth a mewnwelediad.

### **Yr Argyfwng Hinsawdd (Medi 2020)**

Datganodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd ar 24 Medi 2020. Roedd hyn yn cynnwys uchelgais i leihau ei allyriadau carbon i sero net erbyn 2030, yn unol â tharged sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Cyngor yn gweithio i leihau allyriadau carbon fel a ganlyn.

- Gan ei fod yn bartner ar Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Powys, mae'r Cyngor yn cyfrannu at baratoi Strategaeth Carbon Bositif ledled y sir.
- Cyllido gwaith yn y gymuned sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r economi leol drwy Raglen LEADER Arwain.
- Cydgysylltu'r gwaith o baratoi Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
- Gwella gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.
- Gosod pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn cymunedau.
- Gosod paneli solar ar ysgolion ac adeiladau.
- Adeiladu cartrefi ac ysgolion sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.
- Darparu seilwaith newydd i annog beicio a cherdded a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

### **Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd—Powys Positif-net 2021–2030**

Mae'r Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd yn nodi fframwaith o gamau gweithredu er mwyn galluogi Cyngor Sir Powys i ymateb i heriau newid hinsawdd. Mae'n cynnwys y weledigaeth ar gyfer lle mae Cyngor Sir Powys yn dymuno bod yn 2030 a sut mae'n bwriadu cyflawni'r nod o fod yn garbon sero net erbyn 2030. Trwy gyflawni'r nod, bydd Cyngor Sir Powys yn cyfrannu at:

- Y dasg o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- Lleihad o 95%, o leiaf, mewn allyriadau yng Nghymru erbyn 2050.
- Gwneud y sector cyhoeddus yng Nghymru yn garbon sero net erbyn 2030 fel yr amlinellir yng nghynllun cyflawni Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel Llywodraethau Cymru.

### **Yr Argyfwng Natur (Hydref 2022)**

Datganodd Cyngor Sir Powys Argyfwng Natur ar 13 Hydref 2022. Penderfynodd wneud yr hyn a ganlyn:

1. Datgan Argyfwng Natur fel arwydd o ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu ac adnewyddu amgylchedd naturiol Powys am ei werth cynhenid, am y rôl y mae natur yn ei chwarae wrth gyflawni economi bywiog a dichonol ac am y buddion y mae natur yn eu cynnig i lesiant trigolion ein sir.
2. Sefydlu strwythurau cefnogol ystyrlon sy'n ymgorffori natur wrth wneud penderfyniadau gan gynnwys:
  - a) Sefydlu Gweithgor Argyfwng Natur trawsbleidiol yn y Cyngor er mwyn helpu i wreiddio bioamrywiaeth ym mhroses gwneud penderfyniadau y Cyngor, ei ymgysylltiad mewn partneriaethau a'i uchelgeisiau o ran adfer natur ledled y sir.
  - b) Penodi Aelod o'r Cyngor yn hyrwyddwr dros natur fel y caniateir gan gyfansoddiad y Cyngor hwn.
  - c) Ceisio sicrhau cyllid o adnoddau newydd allanol ar gyfer Swyddog Adfer Natur pwrpasol a pharhaol y Cyngor Sir, rhyngddynt er mwyn helpu i sbarduno adferiad natur yn y Cyngor ac

ysgogi gweithrediad ymhlith rhanddeiliaid, gan geisio cyllid allanol newydd er mwyn helpu i alluogi'r broses o gyflawni adferiad natur.

- d) Ailddatgan cefnogaeth y Cyngor i'r Bartneriaeth Natur Lleol ac annog yn weithredol a galluogi ei datblygiad fel grŵp rhanddeiliaid annibynnol i gynrychioli'r rhai sy'n rheoli natur ochr yn ochr â'r rhai sy'n defnyddio a/neu'n elwa ar fyd natur.

3. Cymryd camau ystyrion er mwyn helpu i gyflawni cynnydd net mewn natur ledled y sir, gan gynnwys:

- a) Llunio ymateb—amlinellu rôl y Cyngor—i Gynllun Adfer Natur Powys a gyhoeddwyd yn ddiweddar a luniwyd gan Bartneriaeth Natur Lleol Powys ac sy'n nodi camau sydd eu hangen i ddiogelu a gwarchod systemau presennol ac i adfer natur ar raddfa a chyflymder sy'n gymesur â'r bygythiadau y mae'n eu hwynebu.
- b) Dangos arweinyddiaeth ystyrion drwy adolygu sut y gellir rheoli asedau a gwasanaethau y Cyngor yn llawnach er mwyn gwrthdroi colled natur ein sir. Dylai Ystadau Fferm y Sir fod yn flaenoriaeth uniongyrchol. Estyn hyn wedyn fel y bo adnoddau yn caniatáu er mwyn adolygu'r holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu megis Cynllunio (archwilio cyfleoedd a roddir gan yr adolygiad o'r CDLI mabwysiedig i weithredu'r cynnig er enghraifft), Caffael (gellir cynorthwyo llawer o adferiad natur gan yr hyn yr ydym yn ei ddefnyddio a sut yr ydym yn ei ddefnyddio er enghraifft), Priffyrdd (mabwysiadu rhagor o ymylon ffordd fel gwarchodfeydd natur), Gwasanaethau Addysg (datblygu sgiliau, tiroedd ysgolion), Cefn Gwlad (rheoli parciau er enghraifft), ac ati.

### **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys (Mawrth 2022)**

Cynllun ysbrydoledig 10 mlynedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022 a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys. Mae'n adeiladu ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Powys, gan ddiweddarau camau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Ei fwriad pennaf yw arwain gwaith Partneriaeth Natur Powys, sef grŵp o sefydliadau ac unigolion gan gynnwys Cyngor Sir Powys sydd wedi ymrwmo i wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ledled Powys. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei Bartneriaeth Natur Lleol a'i Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ei hun.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys yn canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn—a elwir hefyd yn rhwydweithiau adfer natur—ac yn cymryd ymagwedd ecosystem, sy'n golygu ei fod wedi ei gynllunio i gyflawni camau bioamrywiaeth ar raddfa fwy nag un rhywogaeth neu gynefin yn unig a'i fod yn ystyried anghenion pobl ar yr un pryd. Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio adroddiad lefel uchel blynyddol i fonitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun.

### **Ansawdd Dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol**

Ar 17 Rhagfyr 2020, cynghorodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cyrff dŵr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol dynodedig yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy yn methu â chyrraedd terfynau ffosfforws a dynhawyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn 2016. Dilynwyd hyn gan lythyr arall oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar 20 Ionawr 2021, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad statws cyflwr ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol eraill yng Nghymru, gan gynnwys Afon Wysg, Afon Dyfrdwy ac Afon Tywi, y mae crynadau y rhain yn ardal CDLI Powys yn rhannol. Mae dalgylchoedd Wysg a Gwy yn cwmpasu bron i hanner deheuol Powys yn gyfan gwbl.

Hefyd, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru Gyngor Cynllunio Interim ym mis Rhagfyr 2020 sydd wedi ei ddiweddarau ers hynny. Rhaid i ddatblygiad newydd mewn dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig gyflawni niwtraliaeth maetholion (ffosffad) sy'n gweithredu fel cyfyngiad ar ddatblygu. Mae datblygiad yn gallu cysylltu â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff sydd â thechnoleg lleihau ffosfforws wedi ei

gosod, a phan fo capasiti yn bodoli o fewn terfynau Trwydded Amgylcheddol ar gyfer Gwaith Trin Dŵr Gwastraff.

Mae'r cyfyngiad hwn yn ystyriaeth sylweddol wrth baratoi'r CDLI Newydd a'i strategaeth.

### **Cynlluniau Buddsoddi mewn Canol Trefi/Cynlluniau Creu Lleoedd**

Yn 2022, comisiynodd Cyngor Sir Powys ymgynghorwyr i baratoi Cynlluniau Buddsoddi mewn Canol Trefi ar gyfer deg tref farchnad ym Mhowys yn rhan o raglen adfywio ar gyfer y sir. Paratowyd Cynlluniau Buddsoddi mewn Canol Trefi ar y cyd â'r Cynghorau Tref Lleol ac maent yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer dyfodol pob Tref. Defnyddir y Cynlluniau Buddsoddi i helpu i ddenu a llunio buddsoddiad ac i gefnogi bywiogrwydd y dref a'i hadferiad yn sgil pandemig COVID-19. Mae gan bob Cynllun bwyslais canol y dref wrth ystyried pwysigrwydd a dylanwad y cyfleoedd a geir yn yr ardal ehangach. Mae'r Cynlluniau wedi nodi ac maent yn cynnwys blaenoriaethau, camau gweithredu a phrosiectau y bydd angen eu hystyried yn y CDLI Newydd.

Y deg tref y mae ganddynt Gynlluniau Buddsoddi mewn Canol Trefi yw: Llanfair-ym-Muallt, Trefyclo, Llandrindod, Llanidloes, Llanwrtyd, Machynlleth, Llanandras, Rhaeadr, Y Trallwng, Ystradgynlais.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a fydd yn cyflawni diben tebyg yn cael eu cynnal hefyd ar gyfer: Trefaldwyn, Llanfyllin.

Mae gan y Drenewydd Gynllun Bro ar waith eisoes, a fabwysiadwyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol ym mis Gorffennaf 2021, ac mae gan Lanfair Caereinion ei Chynllun Tref ei hun.

### **Cynllun Ynni Ardal Leol**

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Powys yn datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid o bob rhan o Ganolbarth Cymru. Dull sy'n cael ei sbarduno gan ddata yw hwn sy'n ceisio gwella'r ddealltwriaeth o sut mae ardal leol yn debygol o ddatgarboneiddio ei sector ynni. Mae modelu Cynllun Ynni Ardal Leol yn cynnwys popeth o gyflenwad ynni a'r galw ar gyfer trafndiaeth, adeiladau a diwydiant.

Cynllun gofodol fydd allbwn y Cynllun Ynni Ardal Leol a fydd yn nodi: *beth* yw'r atebion, *ble* y dylid eu defnyddio, *faint* y byddant yn costio, *pryd* y dylid eu dilyn a *phwy* y dylai wneud hynny. Mae'r atebion yn debygol o fod yn gyfuniad o'r hyn a ganlyn:

- Buddsoddiad mewn seilwaith grid.
- Technolegau carbon isel e.e. cynhyrchu trydan adnewyddadwy, pŷmpiau gwres, cerbydau trydan.
- Atebion sy'n lleihau'r galw am ynni e.e. mesurau effeithlonrwydd ynni, teithio llesol.

### **Gweledigaeth ar gyfer Datblygu Dysgwyr sy'n Gwbl Ddwyeithog ym Mhowys (Rhagfyr 2020)**

Cyhoeddodd Cyngor Sir Powys ei weledigaeth ar gyfer datblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog ym Mhowys ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r ddogfen hon yn sail i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys 2022–2032. Cynllun statudol i sicrhau bod darpariaeth sydd wedi ei chynllunio'n dda er mwyn cynyddu'r cyfleoedd fel y gall nifer cynyddol o blant a phobl ifanc ym Mhowys ddod yn gwbl ddwyieithog yw Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

## 4. Materion, Heriau a Chyfleoedd Allweddol

### 4.1 Cefndir

Rhaid i CDLI Newydd Powys (2022–2037) ddarparu ar gyfer twf cynaliadwy ardal y cynllun yn y dyfodol drwy ystyried y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n wynebu'r ardal.

Mae materion allweddol ar gyfer y CDLI Newydd wedi deillio o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:

- Ymarferion ymgysylltu mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2022/2023 yn cynnwys Cynghorwyr Sir a Gwasanaethau.
- Adolygiad o Faterion/Ystyriaethau ac Amcanion CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026).
- Adroddiad Adolygu (Chwefror 2022) ac Adroddiadau Monitro Blynyddol (2021, 2022 a 2023) ar gyfer CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026).
- Deddfwriaeth gyfredol a pholisi cenedlaethol, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol—Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i, "datgarboneiddio cymdeithas, bod yn fwy ffyniannus, tyfu'r Gymraeg a gwella iechyd".
- Cynlluniau a strategaethau ar gyfer Powys a'r Canolbarth gan gynnwys Cynllun Llesiant Powys, y Cynllun Strategol a Chydraddoldeb Corfforaethol, a Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.
- Sylwadau gan Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2022 ynghylch Archwiliad Anheddiad ar 58 o aneddiadau mwyaf y CDLI Mabwysiedig.
- Sylwadau o gyfnod ymgynghori cyhoeddus anstatudol tair wythnos ym mis Ionawr 2024 ar y Materion, y weledigaeth a'r Amcanion Allweddol Drafft ar gyfer y CDLI Newydd.

### 4.2 Rhestr o'r Materion Allweddol

Rhestrir y Materion Allweddol a nodwyd ar gyfer y CDLI Newydd isod ac fe'u hystyrir yn brif faterion defnydd tir a chynllunio gofodol sy'n wynebu ardal y cynllun ar gyfer y cyfnod hyd at 2037.

1. **Ymateb i Newid Hinsawdd**—Lliniaru ac Addasu.
2. **Cefnogi Adferiad Natur**—Diogelu, Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth.
3. **Gofalu am Adnoddau**—Yn yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig.
4. **Hybu Trafnidiaeth Gynaliadwy**—Symud Yn a Rhwng Lleoedd.
5. **Poblogaeth**—Ymateb i Anghenion a Heriau Demograffig.
6. **Cynllunio ar gyfer Llesiant**—Bywydau Hapus, Iach a Diogel mewn Cymunedau Cynaliadwy
7. **Iechyd**—Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw a Hybu Lleoedd Iachach.
8. **Cynllunio'r Datblygu Iawn yn y Lle Iawn**—Sicrhau Datblygu Cynaliadwy.
9. **Y Gymraeg**—Hybu a Diogelu.
10. **Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd**—Nifer, Ansawdd a Fforddiadwyedd.
11. **Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog**—Llesiant Economaidd Hirdymor.
12. **Cynllunio ar gyfer Ffermio Cryf ac Economi Wledig**—Gan gynnwys Datblygu Rhwydweithiau Bwyd Lleol.
13. **Cefnogi Bargaen Twf Canolbarth Cymru**—Cefnogi'r Economi Ranbarthol.
14. **Cefnogi Twristiaeth Gynaliadwy.**

15. **Creu Lleoedd Lleol**—Dylunio Da sy'n Creu Lleoedd Gwell.
16. **Cynllunio ar gyfer Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth**—Gan gynnwys Gofynion Dyfodol Digidol.
17. **Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol.**
18. **Cefnogi Stryd Fawr Powys**—Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf.
19. **Cefnogi Ynni Cynaliadwy**—Rheoli Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni.
20. **Rheoli a Lleihau Gwastraff.**

### 4.3 Materion Allweddol

Mae'r adran hon yn disgrifio pob un o'r Materion Allweddol yn fanylach. Noder bod llawer o'r Materion Allweddol yn cydberthyn.

#### **Mater Allweddol 1: Ymateb i Newid Hinsawdd—Lliniaru ac Addasu**

**Cyd-destun:** Mae newid yn yr hinsawdd yn her arwyddocaol iawn i gymdeithas ac mae angen lliniaru newid hinsawdd ac addasu newid yn yr hinsawdd i fynd i'r afael â hyn. Deellir gwyddoniaeth newid hinsawdd yn dda gyda'r angen i gyfyngu ar y cynnydd yn nhymeredd y byd i 1.5 gradd uwchben y lefelau cyn-ddiwydiannol os ydym am osgoi effeithiau trychinebus ar yr hinsawdd (The Climate Crisis—A Guide for Local Authorities on Planning for Climate Change, TCPA, RTPI, Ionawr 2023).

Mae effeithiau andwyol yn cynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, rhagor o lifogydd, lefelau'r môr yn codi, a phrinder dŵr. Mae Cynllun Llesiant Powys (2023) yn nodi bod gweithredu ar yr hinsawdd yn hanfodol gan ddweud, "Mae'r cyfle i gynnal planed y gellir byw ynddi ar gyfer bodau dynol a natur fel rydym ni'n ei adnabod yn cau'n gyflym iawn".

Mae newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth strategol ar gyfer polisi cenedlaethol ledled pob rhan o'r DU. Datganodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 yn dilyn datganiad 2019 Llywodraeth Cymru (gyda'i hymrwymiad i gyflawni sero net erbyn 2050). Cydnabyddir bod newid yn yr hinsawdd yn fater hanfodol yng Nghynllun Strategol a Chydraddoldeb Corfforaethol 2023 y Cyngor ac yng Nghynllun Llesiant Powys.

Mae gan y Cyngor Strategaeth Newid Hinsawdd (2021–2030) a chan ei fod yn bartner ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, mae'n ymwneud â Strategaeth Garbon Bositif ledled y sir.

Mae derbyn yr argyfwng hinsawdd fel blaenoriaeth yn integreiddio â'r dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn PCC a Chymru'r Dyfodol a chan Gyfoeth Naturiol Cymru yn Natganiad Ardal Canolbarth Cymru. Mae'r Mater Allweddol hwn yn drawsbynciol ac mae'n perthyn i lawer o'r Materion Allweddol eraill.

Bydd y CDLI Newydd yn cefnogi camau gweithredu, ymyriadau a chynigion datblygu sy'n galluogi'r newid yn yr hinsawdd i gael ei liniaru (osgoi a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a galluogi carbon i gael ei ddal a'i stori) ac addasu. Mae hyn yn cynnwys mesurau cydnerthedd llifogydd, rheoli draenio dŵr storm, ac ymdopi â chanlyniadau eithafion tywydd. Anogir atebion ar sail natur.

## **Mater Allweddol 2: Cefnogi Adferiad Natur—Diogelu, Cynnal a Gwella**

### **Bioamrywiaeth**

**Cyd-destun:** Mae gan y system gynllunio rôl sefydledig o ran gwarchod a diogelu safleoedd dynodedig o werth cadwraeth natur ac wrth geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth bwysau amgylcheddol cynyddol a bod llawer o ecosystemau ledled y DU yn dirywio.

Datganodd y Cyngor argyfwng natur ym mis Hydref 2022. Yn rhan o Bartneriaeth Natur Powys, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys (2022–2032), sy'n tynnu sylw at sut mae bioamrywiaeth yn dirywio ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen oherwydd nifer o bwysau allweddol.

Mae'r Mater Allweddol hwn yn gysylltiedig â Mater Allweddol 3, Gofalu am Adnoddau. Ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru; mae'n nodi'r gofyniad i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru. Cydnabyddir bod gan bawb ran i'w chwarae wrth sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae gwella cydnerthed ecosystemau, gan gynnwys gwella ansawdd aer a dŵr, yn un o'r prif heriau.

Mae awdurdodau cyhoeddus yn ddarostyngedig i Adran 6 y 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau' o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygiadau weithio ochr yn ochr â natur, darparu mantais net i fioamrywiaeth, a gwella cydnerthed ecosystemau.

Mae Cymru'r Dyfodol (Polisi 9) yn amlygu sut mae rhwydweithiau ecolegol cadarn yn hanfodol ar gyfer adfer natur. Diffinnir rhwydweithiau o'r fath fel, "rhwydweithiau o gynefin mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd a ddiogelir a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth a llesiant".

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi naw ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol eang lle mae rhwydweithiau ecolegol/seilwaith gwyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol yn bodoli, gan gynnwys Mynyddoedd Cambria, y Mynyddoedd Duon a Bannau Brycheiniog. Ystyrir yr ardaloedd yn "sail ar gyfer hybu camau gweithredu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwella cadernid ecosystemau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwyrdd o bwys strategol".

Bydd angen i'r CDLI Newydd gefnogi camau gweithredu, ymyriadau a chynigion datblygu sy'n diogelu, yn adfer, yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys hwyluso'r broses o warchod a gwella seilwaith gwyrdd o bwys strategol.

## **Mater Allweddol 3: Gofalu am Adnoddau—Yn yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig**

**Cyd-destun:** Mae Powys yn cynnwys cyfoeth o adnoddau o bwys rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ei hamgylchedd ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae Powys yn adnabyddus am ei thirweddau amrywiol a hardd, a werthfawrogrir gan drigolion, sy'n denu twristiaid, ac yn darparu lleoedd lle gall pobl a natur ffynnu. Cysylltir ardal y cynllun â Gwarchodfa Biosffer UNESCO (Dyfi) ac mae ganddi Barc Awyr Dywyll (Cwm Elan) a Chymuned Awyr Dywyll (Llanandras a Norton). Mae nifer o safleoedd natur a geoamrywiaeth sydd wedi eu dynodi'n genedlaethol ac yn lleol yn ardal y cynllun ac mae amgylchedd hanesyddol nodedig.

Mae PCC yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn ogystal ag elfennau eraill o'r byd naturiol, megis adnoddau dŵr ac ansawdd yr aer. Felly, mae'n rhaid i'r system gynllunio edrych ar ddiogelu a gwella nodweddion arbennig a rhinweddau cynhenid



amgylcheddau naturiol, hanesyddol ac adeiledig yn yr hirdymor. O ystyried ehangder y materion perthnasol, rhennir yr adnoddau yn ddau gategori:

### i) Adnoddau Amgylchedd Naturiol

Gan gynnwys:

- Tir, aer, dŵr a phridd.
- Anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill.
- Safleoedd cadwraeth natur dynodedig (statudol ac anstatudol).
- Tirweddau a chymeriad tirwedd, nodweddion daearegol, ac awyr dywyll.
- Cefn gwlad fel dalfa garbon ac adnodd sy'n darparu ar gyfer dal carbon.
- Mawndir.
- Cynefinoedd, llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwyrdd.
- Coed, coetiroedd, gwrychoedd (gan gynnwys coetiroedd hynafol a lled-naturiol).
- Tir a ddynodwyd ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru.
- Y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.
- Dyddodion mwynau.
- Gorlifdiroedd afonydd, systemau afonydd a'r amgylchedd torlannol.
- Tir comin.
- Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol cyfagos (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol).

Mae materion a phryderon presennol sy'n ymwneud ag adnoddau'r amgylchedd naturiol yn cynnwys: bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n dirywio, mawndir a ddifrodir ac a gollir, plannu coed yn amhriodol, a diogelwch cyflenwadau bwyd a dŵr yn y dyfodol. Mae Newid Hinsawdd hefyd yn effeithio'n andwyol ar rai o'r adnoddau hyn.

### ii) Adnoddau yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

Gan gynnwys:

- Cymeriad unigryw ac arbennig trefi a phentrefi a'u lleoliadau gwledig.
- Yr amgylchedd hanesyddol a'i lleoliadau, gan gynnwys: adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, parciau a gerddi hanesyddol, trefluniau, tirweddau hanesyddol, a gweddillion archeolegol.
- Seilwaith trafndiaeth gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi, dyfrffyrdd, llwybrau/rhwydweithiau teithio llesol, llwybrau adloniant a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.
- Seilwaith rheilffyrdd segur, cyfnewidfeydd trafndiaeth cyhoeddus presennol a seilwaith trafndiaeth y dyfodol a nodwyd a gwasanaethau cysylltiedig.
- Ardal(oedd) Hyfforddiant y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Mater Allweddol 4: Hybu Trafndiaeth Gynaliadwy—Symud Yn a Rhwng Lleoedd

**Cyd-destun:** Mae seilwaith trafndiaeth gynaliadwy yn cysylltu pobl â swyddi, tai a chyfleusterau hamdden. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chynllun Trafndiaeth Rhanbarthol newydd Canolbarth Cymru sy'n dod i'r amlwg yn ystyriaethau

pwysig ar gyfer y CDLI Newydd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys lleihau'r angen i deithio a gweithredu'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy. Rhaid cynllunio pob datblygiad newydd yn unol â'r hierarchaeth sy'n blaenoriaethu teithio llesol (cerdded a beicio), yna Cerbydau Allyriadau Isel lawn sy'n cael eu hybu dros gerbydau modur preifat eraill. Mae'r dull hwn yn cefnogi datgarboneiddio, yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Nod y system gynllunio yw cefnogi datblygiad sy'n blaenoriaethu mynediad a symudiadau drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Cydnabyddir bod trafndiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol yn fwy cyfyngedig mewn llawer o gymunedau gwledig. Ar gyfer ardaloedd gwledig, mae Cymru'r Dyfodol yn blaenoriaethu'r nifer sy'n manteisio ar Gerbydau Allyriadau Isel lawn ynghyd ag amrywio a chynnal gwasanaethau bysiau lleol.

Mae gwasanaeth bysiau dibynadwy ac â chysylltiadau da yn bwysig mewn sir wledig fel Powys, fel y mae gwasanaethau rheilffordd. Ar gyfer teithwyr a chludo nwyddau, mae gwelliannau i'r coridor rheilffordd strategol yn rhan o Fargen Twf Canolbarth Cymru a disgwylir iddynt helpu i gyflawni targedau datgarboneiddio (mae mesurau i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio trafndiaeth gyhoeddus) gan gefnogi'r newid moddol i drafnidiaeth gyhoeddus.

Gallai hybu teithio cynaliadwy a chysylltedd gynnwys creu mynediad a gwelliannau i lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus a theithio llesol lleol, llwybrau tynnu camlesi, coridorau gwyrdd/glas, ac ati sy'n cysylltu ag iechyd a llesiant da.

## **Mater Allweddol 5: Poblogaeth—Ymateb i Anghenion a Heriau Demograffig**

**Cyd-destun:** Mae gan Bowys boblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy ac mae'n wynebu problem poblogaeth anghytwys rhwng demograffeg hŷn ac iau. Mae cynnydd y boblogaeth sydd wedi ymddeol nad yw'n gweithio o'i chymharu â'r boblogaeth oedran gweithio yn her sy'n wynebu Powys fel y cydnabyddir yng Nghynllun Llesiant Powys a'r Cynllun Corfforaethol.

Mae gan rai preswylwyr hŷn ofynion tai a gofal arbenigol ac mae angen iddynt allu cael gafael ar lety a gwasanaethau priodol, fel y nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol ac astudiaethau perthnasol eraill.

Er mwyn cefnogi cymunedau sy'n fwy cytbwys o ran oedran, bydd angen i'r CDLI Newydd gefnogi a chreu swyddi, cartrefi a chyfleoedd sy'n cadw ac yn denu mwy o bobl o oedran gweithio. Yn 2021, roedd 56.6% o boblogaeth Powys yn 16–64 oed, o'i chymharu â 61.1% yng Nghymru a 62.4% yn y DU (Asesiad Anghenion Cyflogaeth, 2023).

Oherwydd bod gan Bowys newid naturiol net negyddol (mae marwolaethau yn uwch na genedigaethau), mae effaith mudo yn ddylanwadol iawn ar newid yn y boblogaeth. Ystyrir bod cryfhau'r gweithlu sy'n dod i mewn yn hanfodol er mwyn caniatáu ffyniant economaidd a'r proffil oedran i gael ei ailgydbwysio ledled Powys.

O ran denu pobl sy'n economaidd weithgar, ystyrir Powys yn le lle gall unig fasnachwyr a busnesau bach ffynnu. Mae llawer eisoes yn gweithredu fel rhan o'r economi sylfaenol ac mae busnesau micro (sy'n cyflogi llai na 10 o bobl) yn flaenllaw ac yn cyfrif am 93.1% o'r holl fusnesau yn 2022, o gymharu ag 89.5% o gyfartaledd Cymru (Asesiad Anghenion Cyflogaeth, 2023). Gall gweithio gartref gefnogi'r twf mewn hunangyflogaeth a busnesau micro.

Bydd angen i'r CDLI Newydd fod yn hyblyg ac yn addasadwy o ran diwallu anghenion ac ateb heriau demograffig.

## **Mater Allweddol 6: Cynllunio ar gyfer Llesiant—Bywydau Hapus, Iach a Diogel mewn Cymunedau Cynaliadwy**

**Cyd-destun:** Rhaid i'r CDLI Newydd gefnogi'r saith nod llesiant cenedlaethol a bennir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 a chyflawni amcanion Cynllun Llesiant Powys, sydd â'r blaenoriaethau canlynol:

- Bydd pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach, a diogel.
- Mae Powys yn sir o fannau a chymunedau cynaliadwy.
- Gwasanaeth Cyhoeddus Gynyddol Effeithiol i Bobl Powys.

Mae'r CDLI Newydd yn allweddol o ran: cynllunio'r swm a'r math cywir o gartrefi a swyddi newydd yn y lleoedd cywir a sicrhau bod seilwaith lleol i'w cefnogi nhw; rheoli datblygiad amhriodol; annog ffyrdd iach a llesol o fyw; creu, gwella a gwarchod mannau gwyrdd/glas a hybu seilwaith gwyrdd/glas, gan gynnwys mannau chwarae a darpariaeth chwaraeon, hawliau tramwy, llwybrau teithio llesol a thir comin.

Bydd angen i'r CDLI Newydd gefnogi modelau ymyrraeth newydd hefyd megis gwasanaethau integredig yn y cyfleusterau newydd e.e. canolfan Iechyd a Llesiant arfaethedig Gogledd Powys. Mae'r mathau hyn o brosiect datblygu yn darparu ar gyfer y gwaith o integreiddio gofal a llesiant gan ddod â gwasanaethau meddygol, iechyd, cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau eraill ynghyd.

## **Mater Allweddol 7: Iechyd—Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw a Hybu Lleoedd Iachach**

**Cyd-destun:** Egwyddor cynllunio allweddol yw hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach sy'n golygu cynllunio a hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Mae iechyd a llesiant yn cydberthyn yn agos. Gall y ffordd mae ein lleoedd yn gweithio ac yn gweithredu gael effaith ar y dewisiadau mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys eu dewisiadau teithio ac adloniant a pha mor hawdd y gallai fod i gymdeithasu ag eraill.

Mae lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ac annog ffyrdd llesol ac iach o fyw. Gellir cefnogi ffyrdd iachach a mwy llesol o fyw drwy leoli datblygiad yn agos at lwybrau Teithio Llesol, drwy ddarparu mynediad at seilwaith gwyrdd/glas a thrwy warchod a gwella mannau agored cyhoeddus megis mannau chwarae, rhandiroedd a mannau tyfu eraill. Mae rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus da a gwell, a chyfleusterau ar gyfer amwynder, adloniant, chwaraeon wedi eu trefnu a hyfforddiant yn enghreifftiau o adnoddau sy'n hybu ymarfer corff, iechyd a chynhwysiant cymdeithasol.

Dylid hybu iechyd meddwl da ochr yn ochr ag iechyd corfforol, sy'n golygu cynllunio lleoedd sy'n hybu rhyngweithio cymdeithasol yn ogystal â lleoedd ar gyfer ymlacio a phrofiadau tawelach, ym myd natur yn aml. Mae Cynllun Llesiant Powys yn nodi pryder am ordewdra cynyddol, yn enwedig gordewdra ymhlith plant. Mae cynllunio yn hanfodol wrth ddiogelu a sicrhau darpariaeth chwarae awyr agored digonol a mannau gwyrdd hygyrch er budd plant a phobl ifanc.

## **Mater Allweddol 8: Cynllunio'r Datblygu Iawn yn y Lle Iawn—Sicrhau Datblygu Cynaliadwy**

**Cyd-destun:** Mae cyflawni'r datblygiad iawn yn y lle iawn yn egwyddor PCC allweddol.

Mae angen seilio twf a dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd ar ddewisiadau dylunio a lleoliad cydnerth, gan ystyried llawer o ystyriaethau gan gynnwys adnoddau yr amgylchedd naturiol ac iechyd a llesiant.

Mae angen i dwf cynaliadwy a gynllunnir gan y CDLI Newydd fod wedi ei leoli yn unol â strategaeth ofodol sy'n cefnogi'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol a nodir gan Gymru'r Dyfodol—Calon Cymru a Bro Hafren—ac yn unol â Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy. Disgwylir i'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol ddarparu ar gyfer yr anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol rhanbarthol a'r tu allan i'r ardaloedd hyn, bydd angen cynllunio twf ychwanegol mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion lleol.

### **Mater Allweddol 9: Y Gymraeg—Hybu a Diogelu**

**Cyd-destun:** Rhagwelir y bydd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn cynyddu yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru).

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ledled Powys, gyda chadarnleoedd Cymraeg traddodiadol yng nghymunedau y gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan annatod o'r gwedd cymdeithasol. Fodd bynnag, canfu Cyfrifiad 2021 fod nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys wedi gostwng ychydig yn ystod cyfnod deng mlynedd 2011–2021.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i hybu'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i drigolion ei defnyddio. I hwyluso hyn, mae'r Cyngor yn dilyn Safonau'r Gymraeg, mae ganddo Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Bydd y CDLI Newydd yn dosbarthu twf er mwyn galluogi defnydd o'r Gymraeg i ffynnu, a chynnal cryfder yr iaith mewn meysydd o sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol. Disgwylir i gynigion datblygu gyfrannu at fentrau sy'n cefnogi ac yn hybu'r Gymraeg, ac wrth wneud hynny byddant yn ategu rôl y system addysg wrth gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn ddwyieithog.

### **Mater Allweddol 10: Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd—Nifer, Ansawdd a Fforddiadwyedd**

**Cyd-destun:** Rhaid i'r CDLI Newydd gynllunio i ddiwallu anghenion tai ei gymunedau. Mae angen cartrefi newydd i wasanaethu poblogaeth sy'n tyfu a ffurfiad aelwydydd llai. Mae Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru yn rhan allweddol o'r dystiolaeth ar gynllunio'r nifer iawn o gartrefi newydd, yn ogystal â gwybodaeth am Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a rhestr aros y Cyngor.

Bydd y CDLI Newydd yn nodi ffigur gofyniad tai ar gyfer nifer yr aelwydydd newydd sydd eu hangen ar draws cyfnod 15 mlynedd y cynllun.

Pennir targed anheddau fforddiadwy, a fydd yn cael ei lywio gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar hyfywedd datblygu. Economi cyflog isel sydd gan Bowys yn bennaf, sy'n effeithio ar fforddiadwyedd cartrefi newydd i bobl leol, ac mae enillion gweithle ym Mhowys yn 2022 yn yr 16<sup>eg</sup> safle isaf ymhlith y 23 Awdurdod Lleol yng Nghymru (Asesiad Anghenion Cyflogaeth, 2023). Mae prisiau tai cyfartalog ym Mhowys wedi cynyddu ar gyfradd sy'n uwch na'r incwm cyfartalog, sy'n arwain at fwy o angen am dai fforddiadwy.

Hefyd, mae'n rhaid i'r CDLI Newydd fynd i'r afael ag anghenion tai arbenigol megis tai byw'n annibynnol, tai gwarchod neu dai gofal ychwanegol i bobl hŷn, llety byw â chymorth, anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ac anghenion mentrau gwledig. Gall cynlluniau pwrpasol megis tai cydweithredol a thai arweinir gan y gymuned a hunanadeiladu helpu i fynd i'r afael â rhai o'r anghenion hyn.

## **Mater Allweddol 11: Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog—Llesiant Economaidd Hirdymor**

**Cyd-destun:** Mae gan Bowys sylfaen economaidd eang sydd wedi ei seilio ar amaethyddiaeth, twristiaeth, gweithgynhyrchu, y sector a gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n cefnogi nifer uchel o fentrau bach i ganolig.

Mae angen darparu safleoedd cyflogaeth a pholisïau cefnogol er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth a gofynion busnesau presennol a busnesau newydd ym Mhowys. Bydd hyn yn helpu i gyflawni economi lleol ffyniannus a chymunedau cryfach.

Mae cadw a denu poblogaeth o oedran gweithio yn un her sy'n wynebu Powys. Ystyrir bod cael economi deinamig, bywiog ac amrywiol, sy'n diogelu swyddi presennol ac yn darparu cyfleoedd am swyddi a sgiliau newydd â chyflogau uwch, yn hanfodol wrth helpu i fynd i'r afael â'r her hon.

Bydd angen i'r CDLI Newydd ddarparu cyflenwad digonol o dir cyflogaeth, gwarchod safleoedd presennol a darparu cymorth i'r economi wledig ehangach. Dylid lleoli datblygiad cyflogaeth newydd yn gynaliadwy, er mwyn lleihau'r angen i deithio.

## **Mater Allweddol 12: Cynllunio ar gyfer Ffermio Cryf ac Economi Wledig—Gan gynnwys Datblygu Rhwydweithiau Bwyd Lleol**

**Cyd-destun:** Gan mai sir wledig yw hi yn bennaf, mae ffermio a gweithgareddau coedwigaeth yn bwysig o ran cefnogi bywoliaethau a chymunedau gwledig ledled Powys, ac o ran darparu sicrwydd bwyd i'r genedl. Mae amaethyddiaeth wedi llunio tirwedd Powys ac wedi cefnogi trefi marchnad ers cenedlaethau ac mae'n ymateb ac yn addasu i heriau newid hinsawdd ac adfer natur.

Bydd angen i'r CDLI Newydd gefnogi'r sectorau amaethyddol a garddwriaethol gan fod yn ofalus er mwyn rheoli unrhyw effeithiau andwyol a hybu adferiad natur.

Disgwylir i newidiadau i'r drefn cymhorthdal ffermio yn y dyfodol gynyddu cymorth i reoli tir yn gynaliadwy a ffermio amgylcheddol gyfrifol. Gallai hyn arwain at amrywio'r economi ymhellach wrth i fentrau gwledig ymateb ac addasu. Mae amrywio'r economi wledig yn creu cyfleoedd am entrepreneuriaeth, arloesedd ac yn creu cyfoeth sy'n hanfodol ar gyfer economi iach a chymunedau gwledig cynaliadwy. Gallai natur ucheldirol ac ansawdd tir amaethyddol ym Mhowys gyfyngu ar arweiniad at amrywiaeth bellach mewn twristiaeth ac ynni adnewyddadwy.

## **Mater Allweddol 13: Cefnogi Bargaen Twf Canolbarth Cymru**

**Cyd-destun:** Mae gweledigaeth ranbarthol "[Tyfu Canolbarth Cymru](#)" yn dweud, erbyn 2035, y bydd Canolbarth Cymru:

Yn "rhanbarth unigryw a llawn menter sy'n darparu twf economaidd wedi'i yrru gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol yn cynnal cymunedau ffyniannus a dwyieithog".

Mae Bargaen Twf Canolbarth Cymru wedi ei gosod o fewn y weledigaeth ehangach ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru ac mae'n ategu strategaethau a buddsoddiadau eraill gan y sector cyhoeddus a phreifat i ddod â ffyniant i gymunedau a busnesau y rhanbarth. Bydd Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi adferiad a thwf economaidd yn economi Canolbarth Cymru, gyda'r nod o gefnogi'r broses o greu swyddi a chynyddu cynhyrchiant ac uchelgeisiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn cynnwys cyfres o raglenni a phrosiectau sy'n cwmpasu amrywiaeth o gynigion buddsoddi ar draws themâu digidol, twristiaeth, amaethyddiaeth, bwyd a diod, ymchwil ac arloesedd a chefnogi menter. Nod y rhaglen waith safleoedd ac adeiladau yw ysgogi buddsoddiad mewn eiddo yn rhanbarth Canolbarth Cymru, er mwyn cefnogi sectorau diwydiant amrywiol gan sicrhau'r cyflenwad a'r lleoliad cywir i ddiwallu anghenion busnes.

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru hefyd yn ceisio cyflawni gwelliannau coridor rheilffordd strategol gan gynnwys cefnogi gwaith cludo nwyddau yn rhan o gyflawni amcanion amgylcheddol. Gellid datblygu gorsafoedd rheilffordd allweddol i ddarparu ar gyfer cyfnewidfydd canolfannau strategol. Mae gwelliannau rheilffordd yn ategu'r newid moddol gofynnol i drafnidiaeth gyhoeddus.

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill, mae'r Cyngor eisoes yn cefnogi nodau ac amcanion Bargen Twf Canolbarth Cymru a bydd y CDLI Newydd yn cael ei ddefnyddio yn rhan o'r ateb tuag at sicrhau bod y Fargen yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

### **Mater Allweddol 14: Cefnogi Twristiaeth Gynaliadwy**

**Cyd-destun:** Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Powys. Mae ei golygfeydd eithriadol, ei chynigion diwylliannol a threftadaeth a'i chyfleoedd adloniant sy'n canolbwyntio ar yr awyr agored yn aml yn denu ymwelwyr i'r ardal. Mae twristiaeth yn rhan o'r economi sylfaenol ac mae posibilrwydd o ddatblygu twristiaeth gynaliadwy ymhellach, yn enwedig twristiaeth llesol, gwyrdd a diwylliannol, fel y pwysleisia Cymru'r Dyfodol.

Disgrifia Cymru'r Dyfodol Ganolbarth Cymru fel rhanbarth â "toreth o asedau naturiol eithriadol o harbyrau a dyfrffyrdd i fynyddoedd a thirweddau dynodedig, sydd i gyd yn cyfrannu at arlwy twristiaeth heb ei ail".

Mae denu twristiaeth yn gysylltiedig â'r mater o ofalu am adnoddau (Mater Allweddol 3) yn enwedig o ran diogelu a gwella asedau megis y dirwedd, hawliau tramwy cyhoeddus, y goedwig genedlaethol, asedau hanesyddol a diwylliannol. Mae angen i drefi a'u canolfannau fod mewn iechyd da er mwyn bod yn groesawgar ac yn ddeniadol i ymwelwyr.

### **Mater Allweddol 15: Creu Lleoedd Lleol—Dylunio Da sy'n Creu Lleoedd Gwell**

**Cyd-destun:** Cyfeiria Cynllun Corfforaethol y Cyngor at sut mae'r CDLI Newydd yn bwysig o ran datblygu trefi a phentrefi ffyniannus. Ystyrir dull cadarnhaol o greu lleoedd lleol yn allweddol i'r mater o gyflawni lleoedd cynaliadwy a ffyniannus yn lleol lle mae pobl yn dymuno byw.

Diffinia creu lleoedd yn PCC fel creu "mannau cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar".

Wrth greu lleoedd ar gyfer lleoedd lleol, mae'n rhaid dilyn y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer:

- Helpu'r economi i dyfu mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hybu amgylchedd hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Rhoi'r amddiffyniad gorau i'r amgylchedd a chyfyngu'r effeithiau ar yr amgylchedd.

Mae creu lleoedd a dylunio da yn cydberthyn yn sylfaenol. Mae PCC yn nodi amcanion dylunio da sy'n dechrau wrth ddadansoddi'r safle a'r cyd-destun ac maent yn ystyried: Symudiadau, Mynediad, Cymeriad, Diogelwch Cymunedol a Chynaliadwyedd Amgylcheddol.

Mae creu lleoedd yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau ac mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi dyfeisio Siarter Creu Lleoedd a chyhoeddi canllawiau ar yr egwyddorion ar gyfer creu lleoedd o ansawdd uchel:

- Pobl a'r gymuned.
- Lleoliad.
- Symudiadau.
- Cymysgedd o ddefnyddiau.
- Tir y Cyhoedd.
- Hunaniaeth.

Mae'r egwyddor hunaniaeth, er enghraifft, yn cynnwys rhinweddau cadarnhaol, unigryw lle sydd eisoes yn bodoli megis ei dreftadaeth, ei ddiwylliant—gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau—iaith a nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol.

Gall dylunio da wella diogelwch yr amgylchedd adeiledig drwy gadw at egwyddorion Diogelu Drwy Ddylunio.

Mae'n bwysig bod y CDLI Newydd yn ategu ac yn cefnogi Cynlluniau Bro lleol. Gall gwelliannau i dir y cyhoedd helpu gyda'r ymateb cadarnhaol i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, er enghraifft, drwy blannu coed stryd a phlanwyr yn ofalus.

Er mwyn creu lleoedd cynaliadwy llwyddiannus, rhaid i Greu Lleoedd a Dylunio Da fod yn ddaliad canolog i'r CDLI Newydd.

## **Mater Allweddol 16: Cynllunio ar gyfer Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth—Gan gynnwys Gofynion Dyfodol Digidol**

**Cyd-destun:** Ardal CDLI Powys yw'r ardal cynllun mwyaf o ran maint a mwyaf prin ei phoblogaeth yng Nghymru ac mae ei thopograffeg a'i natur wledig yn darparu heriau o ran seilwaith a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r nodweddion hyn yn darparu cyfleoedd posibl am seilwaith gwyrdd a darpariaeth ynni adnewyddadwy a leolir yn briodol.

Bydd angen cyfeirio'r mwyafrif o'r datblygiadau newydd at leoliadau sy'n cael eu gwasanaethu orau gan seilwaith presennol ac arfaethedig (cyfleustodau cyhoeddus, trafndiaeth, ac ati) a gwasanaethau (iechyd, addysg, hamdden, ac ati). Bydd y CDLI Newydd yn diffinio Hierarchaeth Aneiddiadau Cynaliadwy sy'n ystyried seilwaith a darpariaeth gwasanaethau ac yn cefnogi'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol a nodir yn Cymru'r Dyfodol fel canolfannau gwasanaeth ar gyfer "[c]adw a gwella'r sail gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwyntiau yn eu hardaloedd".

Trwy ddiwallu anghenion tai ac economaidd yn y dyfodol, mae gan y CDLI Newydd y potensial i effeithio ar y galw am wasanaethau a seilwaith, a bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried hyn wrth gynllunio cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth gwasanaethau drwy fframwaith "Powys Gynaliadwy" ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi cyfle i gydgyfylltu iechyd a llesiant.

Weithiau, mae seilwaith cyfleustodau, megis carthffosydd cyhoeddus, gwaith trin dŵr gwastraff, prif gyflenwad dŵr a phrif gyflenwad nwy nad ydynt ar gael neu nad ydynt yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti mewn rhannau o ardal y CDLI Newydd ac maent yn gweithredu fel cyfyngiad ar ddatblygu.

Mae'r angen am well cyfathrebu digidol a gwell cwrmpas symudol hefyd yn fater pwysig i'r CDLI Newydd o ystyried ei arwyddocâd cymdeithasol ac economaidd. Mae angen datblygiad newydd gan PCC i ddarparu seilwaith band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid (cysylltedd cyflym).



## **Mater Allweddol 17: Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol**

**Cyd-destun:** Mae cyfleusterau cymunedol yn tanategu gwead economaidd, cymdeithasol a diwylliannol trefi, pentrefi a chymunedau gwledig Powys. Yn ogystal â gwasanaethu anghenion lleol, mae presenoldeb cyfleusterau ac asedau cymunedol yn cynyddu egni aneddiadau, yn atgyfnerthu'r economi leol, yn lleihau unigedd cymdeithasol, yn diogelu llesiant ac yn lleihau dibyniaeth ar geir preifat drwy leihau'r angen i deithio i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau eraill.

Mae cefnogi'r broses o gadw a darparu cyfleusterau cymunedol dichonol i ddiwallu anghenion lleol yn elfen hanfodol o greu lleoedd llwyddiannus (Mater Allweddol 15) ac o gyfrannu at drefi a phentrefi ffyniannus.

Gall y CDLI Newydd gynorthwyo i warchod y ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol drwy ei strategaeth ofodol a thrwy alluogi cymunedau i gaffael asedau y maent yn eu hystyried yn hanfodol i'w hegni cyfredol.

## **Mater Allweddol 18: Cefnogi Stryd Fawr Powys—Canol Trefi yn Gyntaf.**

**Cyd-destun:** Mae angen cymysgedd o ddefnyddiau ategol i wneud canol trefi yn lleoedd deniadol, hanfodol a dichonol, er mwyn ymateb yn gadarnhaol i heriau adfer y stryd fawr a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, siopa ar-lein a natur newidiol swyddfeydd a'r gweithle.

Mae gan lawer o drefi yn ardal CDLI Powys Gynllun Bro, Cynllun Buddsoddi mewn Canol Trefi, neu Gynllun Creu Lleoedd i gefnogi canol trefi llwyddiannus a bywiog. Bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried dyheadau'r Cynlluniau hyn er mwyn sicrhau dull cydgyssylltiedig.

Rhaid i'r CDLI Newydd gymhwyso polisi 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' yn Cymru'r Dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyfleusterau masnachol, adwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd arwyddocaol (h.y. cyfleusterau sy'n galw am lawer o deithio) gael eu lleoli yng nghanol trefi, ac i ddefnyddio dull dilyniannol wrth ddyrannu'r mathau hyn o ddatblygiad. Nod dull 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' yw sicrhau bod canol trefi yn parhau i fod yn lleoedd amlswyddogaethol pwysig sy'n gweithredu fel canolbwyntiau cymunedau. Mae hyn yn cynnwys galluogi adeiladau segur a gwag i gael eu hailbwrpasu, galluogi defnyddiau eraill a hybu adfywio. Gall datblygiadau llai mewn trefi, neu gynigion mewn canolfannau lleol llai, elwa ar y dull gweithredu hefyd fel bod cyfleusterau sy'n cynhyrchu ymwelwyr wedi eu hintegreiddio mewn cymdogaethau cerddedadwy a defnydd cymysg.

## **Mater Allweddol 19: Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Rheoli Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni**

**Cyd-destun:** Ystyrir bod posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau naturiol y Sir yn ofalus i gefnogi'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a thwf economaidd. Mae angen cysoni datblygiad ynni adnewyddadwy â seilwaith grid priodol.

Bydd datblygu prosiectau gwynt ar y tir, solar a storio ynni a chysylltiadau grid mewn lleoliadau priodol yn galluogi ynni glân a gwyrdd i gael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu, gan gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni targedau ynni adnewyddadwy a Sero Net ar gyfer carbon.

Mae Polisiâu 17 a 18 Cymru'r Dyfodol yn galluogi ystyriaethau i gael eu cydbwysu'n ofalus mewn fframwaith cadarnhaol yn bennaf ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Bydd angen i bob cynnig ddangos na fyddant yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd a bydd angen ystyried effeithiau cronus y cynnig gyda chynlluniau ynni adnewyddadwy presennol, rhai sydd wedi eu cydsynio a chynlluniau ynni adnewyddadwy arfaethedig eraill.

Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys ymrwymiad i brosiectau ynni adnewyddadwy newydd gael elfen o berchnogaeth leol ac i ddod â buddion i gymunedau lletyol.

Mae rhanbarth Canolbarth Cymru yn defnyddio dull Cynllunio Ynni Ardal Leol a fydd yn llywio Cynllun Ynni Cenedlaethol newydd i Gymru. Bydd angen ystyried perthynas gweithredoedd lleol Cynllunio Ynni Ardal Leol â'r CDLI Newydd.

Mae'n bwysig bod yr Hierarchaeth Ynni yn PCC yn cael ei dilyn, fel bod yr holl ddatblygiadau newydd yn cael eu cynllunio i liniaru achosion newid hinsawdd. Mae hyn yn golygu y dylid lleihau gymaint â phosibl ofynion ynni datblygiadau newydd a phresennol a mesurau effeithlonrwydd ynni a gynhwysir.

## **Mater Allweddol 20: Rheoli a Lleihau Gwastraff**

**Cyd-destun:** Mae rheoli gwastraff yn gynaliadwy, lle bo gwastraff yn cael ei leihau gymaint â phosibl, ei aildefnyddio, ei ailgylchu a'i ddargyfeirio'n llwyddiannus oddi wrth safleoedd tirlenwi yn hanfodol i gyflawni economi gynaliadwy. Mae angen sicrhau y darperir amrywiaeth eang a dewis o wahanol safleoedd, o ran cymeriad, maint a lleoliad, ledled y sir i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o wahanol gyfleusterau rheoli gwastraff. Bydd angen i'r CDLI newydd gefnogi'r hierarchaeth gwastraff cenedlaethol, a hwyluso lleihad mewn gwastraff, ailgylchu a chompostio, ac ynni o wastraff.

## 5. Gweledigaeth ac Amcanion

### 5.1 Gweledigaeth y Cynllun

Mewn ymateb i'r Materion Allweddol, mae'r Weledigaeth ganlynol wedi ei diffinio ar gyfer CDLI Newydd Powys.

**Erbyn 2037, bydd ardal cynllun Powys:**

**Yn lle o gymunedau bywiog, llwyddiannus ac sydd â chysylltiadau da gan gynnwys trefi a phentrefi ffyniannus sy'n darparu ar gyfer twf cynaliadwy mewn cartrefi a swyddi newydd, ac yn darparu mynediad da at wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth.**

**Yn rhan o ranbarth mwy cynhyrchiol, mentrus a nodedig sy'n cefnogi busnesau presennol, economi estynedig, a gwell rhagolygon swyddi ar sail arloesedd sy'n gysylltiedig â gweithlu medrus. Bydd sectorau economaidd sylfaenol, gan gynnwys ffermio, twristiaeth, ac adloniant a hamdden, yn parhau â'u rôl allweddol a bydd yr economi wledig yn gryf ac yn amrywiol.**

**Yn elwa ar ddull strategol tuag at Seilwaith Gwyrdd, gan sicrhau ei fod yn cael ei hybu a'i ddiogelu er budd lluosog i fywyd gwyllt a phobl, ac yn hwyluso gwell rhwydweithiau ecolegol.**

**Erbyn 2037,**

**Bydd cymunedau ledled ardal y cynllun wedi datblygu mewn ffordd sy'n galluogi ac yn cefnogi:**

- **Cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran sy'n byw'n dda mewn lleoedd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd, Cymraeg a diwylliannol.**
- **Natur i ffynnu drwy fantais net i fioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn.**
- **Y broses o addasu i newid hinsawdd a'r newid tuag at sero net.**

**Bydd preswylwyr yn byw bywydau mwy diogel, iachach a gwyrddach drwy ddarpariaeth datblygiadau sydd wedi eu cynllunio'n dda mewn amgylchedd ffisegol a diwylliannol rhagorol.**

**Bydd y cyfoeth o adnoddau yn yr amgylcheddau naturiol, adeiledig a hanesyddol, gan gynnwys tirweddau eiconig, yn cael eu cynnal, eu diogelu, eu gwella a'u gwerthfawrogi, gan lunio etifeddiaeth defnydd tir cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.**

### 5.2 Pennu Amcanion

Er mwyn bodloni a chyflawni'r Weledigaeth, cynigir 22 o Amcanion ar gyfer y CDLI Newydd. Mae'r Amcanion wedi eu grwpio o dan y categorïau pwnc canlynol sy'n deillio o'r Materion Allweddol ac yn nodi'r bwriadau eang hyd at 2037 o ran rheoli datblygiad.

- Newid Hinsawdd.
- Adfer Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy.
- Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant.
- Cymunedau Cynaliadwy, Tai a Gwasanaethau.

- Economi Cynaliadwy a Bywiog.
- Seilwaith, Ynni a Gwastraff.

### 5.3 Amcanion a Chanlyniadau CDLI Newydd

#### Newid Hinsawdd

##### Materion Allweddol:

- Mater Allweddol 1 Ymateb i Newid Hinsawdd

##### Amcan 1—Newid Hinsawdd

- Sicrhau bod datblygiadau newydd a defnydd tir yn gydnerth i effeithiau newid hinsawdd, a mynd i'r afael yn weithredol ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd drwy leihau gymaint â phosibl, addasu a lliniaru er mwyn cefnogi'r uchelgais genedlaethol o gyrraedd sero net erbyn 2050.
- Cefnogi gweithredoedd, dulliau, ymyriadau a chynigion datblygu sy'n gyson â blaenoriaethau a chynlluniau Corfforaethol a Strategol (e.e. cynlluniau gweithredu ar raddfa Powys) sy'n mynd i'r afael â'r her o ymaddasu i newid hinsawdd, a'i lliniaru.

#### Adfer Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy

##### Materion Allweddol:

- Mater Allweddol 2 Cefnogi Adferiad Natur
- Mater Allweddol 3 Gofalu am Adnoddau

##### Amcan 2—Adfer Natur

- Cefnogi adferiad natur a mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth drwy ddiogelu, cynnal, adfer a gwella cydnerthedd amgylchedd naturiol Powys, gan gynnwys cynefinoedd, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd, gan gynnwys cynigion fferm, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at adfer natur drwy ddarparu mantais net i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd (gan gynnwys seilwaith gwyrdd strategol pan fo hynny'n berthnasol).
- Sicrhau bod datblygiad newydd yn hwyluso'r proses o gyflawni bioamrywiaeth a chydnerthedd yr ecosystem (gan gynnwys gwrthdroi dirywiad i'r ecosystem) drwy wella rhwydweithiau ecolegol drwy amrywiaeth, rhychwant, cyflwr a chysylltedd.
- Defnyddio fframwaith seilwaith gwyrdd strategol wrth gynllunio datblygiad lleol (e.e. mapio, gwarchod a nodi cyfleoedd), a ddylunnir mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill, er mwyn integreiddio a chydgysylltu ymdrechion adfer natur yn well, a chyflawni gwell effeithiolrwydd.

**Amcan 3—Amgylcheddau Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig**

Rheoli adnoddau naturiol Powys yn gynaliadwy a diogelu, cadw, gwella ac adfer yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, gan gynnwys:

- Dynodiadau amgylcheddol.
- Rhinweddau amgylcheddol megis aer glân, cynefinoedd ac ansawdd dŵr.
- Dynodiadau amgylchedd hanesyddol gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.
- Nodweddion a rhinweddau tirwedd arbennig ardal y Cynllun a nodweddion a rhinweddau ardaloedd cyfagos, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol.
- Asedau adloniant, gan gynnwys llwybrau dynodedig, rhwydweithiau beicio a hawliau tramwy cyhoeddus a mannau agored eraill a werthfawrogir ar gyfer chwaraeon, adloniant a hamdden (fel y'u cynhwysir yn nodweddiadol mewn Asesiad Mannau Agored).
- Gwarchod (yn unol â pholisi cenedlaethol) llwybrau a rhwydweithiau teithio llesol, cyfnewidfeydd trafndiaeth cyhoeddus presennol, ardaloedd a gynigir ar gyfer cynlluniau trafndiaeth (seilwaith a llwybrau), ardaloedd mwynau, cynefinoedd arfordirol, a thir comin.
- Asedau strategol eraill yn ardal y Cynllun, er enghraifft tiroedd hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Camlas Trefaldwyn, a'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1, 2 a 3a).

**Amcan 4—Adnoddau Mwynau**

Gwarchod dyddodion mwynau rhag cael eu sterileiddio a darparu'n gadarnhaol ar gyfer gweithio adnoddau mwynau yn gynaliadwy er mwyn diwallu anghenion cymdeithas yn awr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod cyflenwad digonol o fwynau ar gael yn yr hirdymor.

**Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant****Materion Allweddol:**

- Mater Allweddol 4 Hybu Trafndiaeth Gynaliadwy
- Mater Allweddol 6 Cynllunio ar gyfer Llesiant
- Mater Allweddol 7 Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw
- Mater Allweddol 8 Datblygu lawn yn y Lle lawn
- Mater Allweddol 15 Creu Lleoedd yn Lleol

**Amcan 5—Teithio Cynaliadwy**

Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cydymffurfio â'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy sy'n golygu, pryd bynnag y bo modd, eu bod yn cael eu lleoli a'u dylunio â'r nod o leihau'r angen i deithio ac o alluogi dewis o opsiynau trafndiaeth cynaliadwy i bawb. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd teithio llesol megis llwybrau beicio a cherdded er mwyn annog ffyrdd iachach o fyw, gwella hawliau tramwy cyhoeddus mewn cysylltiad â datblygiadau, a defnyddio dyluniadau da er mwyn sicrhau bod llwybrau sy'n cysylltu defnyddwyr â gwasanaethau a chyfleusterau yn athraidd, yn ddarllenadwy, yn

uniongyrchol, yn gyfleus, yn ddeniadol ac yn ddiogel. O ystyried natur wledig ardal y Cynllun, anogir datblygu seilwaith gwefru Cerbydau Allyriadau Isel lawn.

#### **Amcan 6—Creu Lleoedd**

Hybu “datblygiad iawn yn y lle iawn” drwy ddull sy’n canolbwyntio ar greu lleoedd sy’n llunio twf cynaliadwy mewn mannau cydnerth ledled ardal y Cynllun. Bydd angen i ddatblygiad newydd gyflawni egwyddorion cynllunio allweddol, mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur, bodloni’r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol ac ymateb yn gadarnhaol i’r amcanion dylunio da a ddiffinnir mewn polisi cenedlaethol (arfarnu cyd-destun, mynediad, symud, cymeriad, diogelwch cymunedol a chynaliadwyedd amgylcheddol).

#### **Amcan 7—Twf Cynaliadwy**

Darparu fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy ledled Powys sy’n gwarchod adnoddau ac yn galluogi cymunedau i ffynnu. Rhoddir arwyddocâd i’r Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy’n cydbwyso’r ddarpariaeth o gartrefi, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau ac sy’n hybu patrymau teithio cynaliadwy.

#### **Amcan 8—Iechyd a Llesiant**

Cefnogi iechyd a llesiant trigolion Powys drwy sicrhau bod lleoedd yn newid ac yn datblygu i gefnogi iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Mae hyn yn golygu:

- Ceisio cyfleoedd sy’n cyfrannu at ffyrdd o fyw mwy corfforol a llesol, gan gynnwys: darparu cyfleusterau teithio llesol, chwaraeon, chwarae, adloniant ac amwynder; datblygu rhwydwaith seilwaith gwyrdd er budd pobl a bywyd gwyllt; sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cynnal yn dda er mwynhad defnyddwyr; a hybu rhwyddineb mynediad i bawb mewn datblygiadau newydd.
- Bydd y Cynllun yn defnyddio egwyddorion creu lleoedd i gyflawni tir y cyhoedd gwell, sydd wedi ei ddylunio’n dda, sy’n hybu cwrpas ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ochr yn ochr â mannau ar gyfer gorffwys, ymlacio a myfyrio tawel. Bydd mannau gwyrdd a glas yn cael eu diogelu, eu hadfer a’u gwella ar gyfer eu buddion amlswyddogaethol, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at lesiant corfforol a meddyliol.
- Gwneud cysylltiadau rhwng cynllunio datblygu a nodau Cynllun Llesiant Powys er mwyn ategu ei nodau ar gyfer gwella llesiant cenedlaethau’r dyfodol.
- Cefnogaeth i fentrau sy’n cysylltu prynwyr yn fwy uniongyrchol â chynnyrch lleol, gan wella’r gallu i gael gafael ar fwyd a diod ffres, amrywiol ac iach.

## Cymunedau Cynaliadwy, Tai a Gwasanaethau

### Materion Allweddol:

- Mater Allweddol 5 Ymateb i Heriau Demograffig
- Mater Allweddol 9 Hybu a Diogelu'r Gymraeg
- Mater Allweddol 10 Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd
- Mater Allweddol 17 Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol

### Amcan 9—Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy

Cefnogi cymunedau cryfach, mwy diogel, iachach, mwy cysylltiedig a bywiog drwy ystyried anghenion pob elfen o gymdeithas, gan gynnwys pob grŵp oedran a goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd datblygiadau newydd yn defnyddio egwyddorion creu lleoedd i sbarduno canlyniadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol buddiol gan greu lleoedd lleol sy'n gytbwys o ran oedran, sy'n gynaliadwy ac yn ffyniannus, sy'n optimeiddio iechyd a llesiant cymunedol ac sy'n mynd i'r afael â materion amddifadedd ac allgáu cymdeithasol yn ogystal ag ymateb yn briodol i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.

Bydd datblygiadau newydd yn gynaliadwy o ran dyluniad ac adeiladu, gan greu eiddo effeithlon o ran ynni sy'n lleihau costau rhedeg gymaint â phosibl ac yn darparu ar gyfer hyblygrwydd ac yn paratoi at y dyfodol.

### Amcan 10—Diwallu Anghenion y Dyfodol

Adeiladu cymunedau cryfach, tecach a gwyrddach ledled trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig Powys drwy ddiwallu'r anghenion a nodir ar gyfer cartrefi a swyddi, gan sicrhau seilwaith ategol. Cynllunio twf newydd yn unol â hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy, gan ddarparu ar gyfer cyfleoedd newydd a gwell i bobl ddod i fyw a gweithio ym Mhowys.

### Amcan 11—Y Gymraeg

Meithrin y Gymraeg ledled Powys drwy ddiogelu cadarnleoedd Cymraeg a chefnogi mentrau diwylliannol, addysg ac iaith Cymraeg.

**Amcan 12—Anghenion Tai**

Diwallu anghenion tai ardal y Cynllun drwy sicrhau bod y nifer, yr amrywiaeth a'r cymysgedd iawn o gartrefi newydd cynaliadwy o ansawdd uchel yn cael eu darparu yn ystod cyfnod y Cynllun yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys darparu:

- Digon o gartrefi i ddiwallu anghenion y farchnad a thai fforddiadwy.
- Cartrefi sy'n diwallu anghenion tai arbenigol sy'n deillio o'r boblogaeth gan gynnwys cartrefi ar gyfer pobl hŷn, tai hygyrch ac addasedig, tai gyda gofal a chymorth.
- Cartrefi sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i bobl leol yn eu cymunedau eu hunain gan gynnwys hwyluso cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned, cydweithredol, adeiladu tai pwrpasol a hunanadeiladu.
- Amrywiaeth addas o gartrefi fesul lleoliad, math a dyluniad, sy'n ddeniadol i wahanol sectorau o'r boblogaeth, gan gynnwys prynwyr tro cyntaf, cartrefi ar gyfer aelwydydd llai a chartrefi ar gyfer gweithwyr allweddol a gweithwyr sy'n dod i mewn.
- Safle(oedd) a lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu angen a nodir.

**Amcan 13—Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol**

Cefnogi mannau cydnerth a chadarn a llesiant cymunedau drwy warchod mannau agored cyhoeddus a chyfleusterau chwaraeon (e.e. mannau chwarae, tir amwynder, rhandiroedd), cyfleusterau cymunedol pwysig (e.e. siopau, tafarndai, neuaddau pentref, canolfannau ieuencid, y celfyddydau, lleoliadau addysg a diwylliannol) ac asedau lleol eraill (e.e. rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, tir comin a llwybrau teithio llesol), gan sicrhau gwell darpariaeth neu welliant yn rhan o ddatblygiad newydd.

**Economi Cynaliadwy a Bywiog****Materion Allweddol:**

- Mater Allweddol 11 Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog
- Mater Allweddol 12 Cynllunio ar gyfer Ffermio Cryf ac Economi Wledig
- Mater Allweddol 13 Cefnogi Bargaen Twf Canolbarth Cymru
- Mater Allweddol 14 Cefnogi Twristiaeth
- Mater Allweddol 18 Cefnogi Stryd Fawr Powys

**Amcan 14—Economi Fywiog**

Cefnogi ffyniant economaidd a diwallu anghenion cyflogaeth, gan gynnwys gwarchod yr amrywiaeth a'r cyflenwad o safleoedd cyflogaeth, drwy annog arloesedd ac uwchsgilio'r gweithlu, helpu Powys i gyflawni cymunedau lleol cryf ac i gadw a denu gweithlu sy'n fwy cytbwys a chystadleuol.



#### **Amcan 15—Datblygu Economaidd**

Cefnogi datblygiad economaidd newydd sy'n gyson â hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion busnesau lleol gan gynnwys cynigion sy'n cryfhau'r economi sylfaenol, megis amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, twristiaeth, ac adeiladu, a chynigion datblygu sy'n cefnogi amrywiaeth gwledig cynaliadwy ac yn ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol.

#### **Amcan 16—Bargen Twf Canolbarth Cymru**

Cefnogi twf economaidd drwy gyfrannu at nodau Tyfu Canolbarth Cymru a hwyluso cynigion sy'n deillio o Fargen Twf Canolbarth Cymru.

#### **Amcan 17—Twristiaeth**

Cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys twristiaeth llesol, gwyrdd a diwylliannol, gan warchod (gan gynnwys gofalu, gwella ac adfer) adnoddau ac asedau pwysig sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, megis yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, llwybrau cenedlaethol, hawliau tramwy cyhoeddus, y rhwydwaith beicio cenedlaethol, awyr dywyll, tirweddau unigryw a mannau agored.

#### **Amcan 18—Canol Trefi**

Hybu strydoedd mawr bywiog, deniadol a dichonol a chanol trefi ffyniannus drwy sicrhau bod datblygiadau adwerthu a masnachol newydd yn cael eu cyfeirio at ganol trefi yn y lle cyntaf, gan warchod ffryntiadau presennol ac annog cymysgedd o ddefnyddiau ategol. Bydd cynigion a amlinellir mewn Cynlluniau Buddsoddi mewn Canol Tref, Cynlluniau Lleoedd a Chreu Lleoedd neu fentrau lleol eraill yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

## Seilwaith, Ynni a Gwastraff

### Materion Allweddol:

- Mater Allweddol 16 Cynllunio Seilwaith ac Anghenion Gwasanaeth
- Mater Allweddol 19 Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Rheoli Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni
- Mater Allweddol 20 Rheoli a Lleihau Gwastraff

#### Amcan 19—Darparu'r Seilwaith, y Cyfleustodau a'r Gwasanaethau sy'n Ofynnol ar gyfer Datblygiad Newydd

Sicrhau bod seilwaith ffisegol a digidol priodol, gan gynnwys cyfleustodau a gwasanaethau megis iechyd ac addysg ar waith neu y gellir ei ddarparu drwy gyfraniadau datblygu priodol er mwyn diwallu'r anghenion sy'n deillio o ddatblygiad newydd. Cefnogi'r broses o ddarparu'r rhain yn effeithlon drwy leoli'r rhan fwyaf o'r twf mewn lleoedd a wasanaethir orau gan seilwaith a gwasanaethau presennol neu arfaethedig, gan gynnwys lleoedd a nodir mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol.

#### Amcan 20—Darparu Prosiectau Seilwaith a Chysylltedd Digidol

Cefnogi'r broses o ddarparu seilwaith a gwasanaethau newydd neu uwchraddedig yn gynaliadwy er mwyn diwallu anghenion newidiol cymdeithas a chymunedau ym Mhowys. Mae hyn yn cynnwys darparu ac uwchraddio cysylltiadau ar gyfer gweithrediadau digidol a ffonau symudol, er mwyn sicrhau cwrdd seilwaith digidol gwell ledled ardal y Cynllun.

#### Amcan 21—Ynni a Datgarboneiddio

Lleihau'r galw am ynni o ddatblygiadau newydd, hybu effeithlonrwydd ynni a chefnogi'r broses o gynhyrchu ynni yn adnewyddadwy, gan leihau gymaint â phosibl y defnydd o adnoddau nad ydynt yn adnewyddadwy, annog datgarboneiddio, ac atal gwastraff a llygredd rhag cael eu cynhyrchu. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, bydd y CDLI Newydd yn cyfrannu'n rhagweithiol tuag at gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Gan ddefnyddio'r fframwaith polisi a nodir yn Cymru'r Dyfodol, bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig yn cael eu hwyluso mewn lleoliadau priodol pan fo hynny'n gydnaws ag Amcanion eraill, gan gynnwys diogelu adnoddau a chefnogi adferiad natur. Bydd angen darparu ar gyfer newidiadau seilwaith carbon isel eraill, megis newid i gerbydau preifat Cerbydau Allyriadau Isel lawn, ym mhob datblygiad.

#### Amcan 22—Gwastraff


Darparu amrywiaeth o safleoedd sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff gan gynnwys y rhai sy'n cynyddu aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff fel dewis arall i safleoedd tirlenwi, ynghyd â lleihau swm y gwastraff a gynhyrchir o ddatblygiad yn ystod y broses adeiladu a defnyddio.

## 6. Yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy

Un o ofynion allweddol y CDLI Newydd yw sefydlu Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy. Diben Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy yw sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lleoliadau iawn gyda'r mynediad gorau at amrywiaeth eang o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, gan leihau gymaint â phosibl y defnydd o geir a'r angen i deithio.

Cynhaliwyd asesiad o aneddiadau i lywio'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy ar gyfer y CDLI Newydd. Adolygodd yr asesiad gynaliadwyedd, rôl a swyddogaeth yr holl aneddiadau a nodir yn Hierarchaeth Aneddiadau CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026). Aseswyd cyfanswm o 162 o aneddiadau ac yna cawsant eu categorio yn chwe haen, gyda'r aneddiadau Haen 1 mwyaf cynaliadwy yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwasanaeth, cyflogaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy. Cafodd yr aneddiadau lleiaf cynaliadwy sydd â mynediad cyfyngedig at gyfleoedd gwasanaeth, cyflogaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy eu categorio yn aneddiadau Haen 6. Dengys Ffigur 5 leoliad a dosbarthiad yr aneddiadau Haen 1 i Haen 6 ledled ardal y CDLI Newydd.

**Ffigur 5—Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy y CDLI Newydd**



Mae ystyried y clystyrau daearyddol o aneddiadau yn ddull a ddefnyddir i adnabod y rôl, y swyddogaeth a'r rhyngweithio rhwng aneddiadau ar lefel y cynllun ac ar lefel leol.

Cynhaliwyd Dadansoddiad Clwstwr, sydd ar gael fel papur cefndir, i nodi clystyrau o aneddiadau ledled ardal y cynllun. Noda'r dadansoddiad berthynas swyddogaethol rhwng aneddiadau Haen 1 a Haen 2, sy'n gweithredu fel canolfannau gwasanaeth, ac aneddiadau cyfagos llai gan ddefnyddio meini prawf sy'n adlewyrchu Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Wrth ddatblygu'r


meini prawf ar gyfer clwstwr, rhoddwyd pwyslais ar hybu cyfleoedd trafndiaeth cynaliadwy a'r cysyniad o 'fyw'n lleol' mewn awdurdod gwledig.

Er mwyn adlewyrchu polisïau Cymru'r Dyfodol, cafodd y Clystyrau Aneddiadau a nodwyd eu categorioeddio ymhellach fel '**Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol** neu '**Clystyrau Lleol**'.

Mae aneddiadau Haen 6 ac unrhyw aneddiadau eraill nad oes ganddynt berthynas swyddogaethol ag anheddiad Haen 1 neu 2 (canolfan wasanaeth) yn cael eu heithrio o'r clystyrau. Rhoddwyd ystyriaeth yn y dadansoddiad hefyd i ganolfannau gwasanaeth a leolir mewn ardaloedd awdurdodau cyfagos sydd â pherthynas swyddogaethol ag aneddiadau haen is a leolir yn ardal y CDLI. Canfu hyn fod sawl anheddiad Haen 3 ac un anheddiad Haen 5 sy'n clystyru gyda chanolfannau gwasanaeth a leolir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (h.y. Talgarth ac Aberhonddu).


Dengys Ffigur 6 ddsbarthiad y Clystyrau a lleoliad yr aneddiadau sydd ynddynt.

**Ffigur 6—Clystyrau Aneddiadau yn y CDLI Newydd**



Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i CDLIau nodi eu cymunedau gwledig, er mwyn asesu eu hanghenion a nodi polisïau i'w cefnogi nhw. Ystyria papur cefndir Dull Gwledig y ffordd orau o nodi cymunedau gwledig gan ddod i'r casgliad y dylid ystyried pob anheddiad sydd y tu allan i Glystyrau Aneddiadau yn 'Wledig'. Dengys Ffigur 7 ddiffiniad '**Ardaloedd Gwledig**' a'r '**Aneddiadau nad ydynt yn rhan o Glwstwr**' y dylid eu trin fel rhai Gwledig yn ôl y CDLI Newydd.

Ffigur 7—Ardaloedd Gwledig ac Aneddiadau nad ydynt yn rhan o Glwstwr



Mae cefn gwlad Powys yn eang ac yn darparu ar gyfer llawer o anheddau anghysbell sy'n adlewyrchu sector economi amaethyddol a gwledig y Sir. Diffinnir ardal y CDLI Newydd y tu allan i aneddiadau Haen 1–Haen 6 fel '**Cefn Gwlad Agored**' bydd yn cael ei diogelu rhag datblygiadau amhriodol.

Yn ardal y CDLI Newydd, mae ardal dylanwad llanw ger aber Afon Dyfi, i'r de-orllewin o Fachynlleth. Mewn polisi cenedlaethol, ystyrir yr ardal hon yn 'arfordir heb ei ddatblygu'. At ddibenion y CDLI Newydd, mae unrhyw gyfeiriadau at Gefn Gwlad Agored hefyd yn cynnwys yr arfordir heb ei ddatblygu a bydd yn cael ei ddiogelu rhag datblygiad amhriodol.

Mae'r tablau canlynol yn nodi'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy ar gyfer y Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol (Tabl 1), y Clystyrau Lleol (Tabl 2) a'r aneddiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr (Tabl 3). Aneddiadau Haen 1, 2 a 3 yw'r lleoedd mwyaf cynaliadwy o ran darparu ar gyfer twf (dosberthir yr holl aneddiadau hyn yn Dreifi neu'n Bentrefi Mawr yn hierarchaeth aneddiadau CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026)). Efallai y bydd aneddiadau haen is mewn Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol neu Glwstwr Lleol sydd â pherthynas swyddogaethol ag anheddiad Haen 1 neu Haen 2 yn gallu darparu ar gyfer twf cyfyngedig i gefnogi'r anheddiad haen uwch ac i ddiwallu angen cydnabyddedig.

**Tabl 1. Hierarchaeth Aneddiadau Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol**

	<b>Aneddiadau Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol</b>
<b>Haen 1</b>	Y Drenewydd, Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt a Llanellwedd, Y Trallwng,
<b>Haen 2</b>	Aber-miwl, Llanidloes, Rhaeadr Gwy
<b>Haen 3</b>	Aberriw, Arddlin, Betws Cedewain, Caersŵs, Castell Caereinion, Cegidfa, Ceri, Ffordun a Kingswood, Y Groes, Hawy, Llandinam, Llangurig, Llanllŷr, Pontnewydd-ar-Wy, Treberfedd, Trewern
<b>Haen 4</b>	Cilmeri, Heol Llanfair-ym-Muallt, Leighton, Llanarmon, Pentre, Pen-y-bont, Tal-y-bont, Y Trallwng
<b>Haen 5</b>	Aberbechan, Cwmbelan, Dolfor, Erwyd, Felin-fach, Garth, Garthmyl, Groes-lwyd, Llanddewi Ystradenni, Llanwrthwl, Pant-y-dŵr, Refail

**Tabl 2. Hierarchaeth Aneddiadau Clwstwr Lleol**

	<b>Aneddiadau Clwstwr Lleol</b>
<b>Haen 1</b>	Machynlleth, Trefyclo, Ardal Ystradgynlais
<b>Haen 2</b>	Y Gelli Gandryll, Llanandras, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanwrtyd, Trefaldwyn
<b>Haen 3</b>	Aber-craf, Aberllynfi, Bochrwyd a Llys-wen, Bronllys, Y Coelbren, Y Clas-ar-Wy, Cnwclas, Crew Green, Llandrinio, Llanfechain, Llansantffraid-ym-Mechain, Llanymynech, Meifod, Yr Ystog
<b>Haen 4</b>	Caehopcyn, Caerhywel, Derwenlas, Esgairgeiliog Ceinws, Llangadfan, Llangamarch, Norton, Penegoes
<b>Haen 5</b>	Beulah, Bwlchycibau, Cefngorwydd, Coedway, Glantwymyn, Kinnerton, Llanerfyl, Llowes

**Tabl 3. Hierarchaeth Aneidiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr**

	<b>Aneidiadau Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr</b>
<b>Haen 3</b>	Carno, Cleirwy, Llanbryn-mair, Llangynog, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin, Maesyfed, Pen-y-bont-fawr, Pontrobert, Trefeglwys, Tregynon
<b>Haen 4</b>	Llandysul, Llan-ddew, Sarn, Stepside
<b>Haen 5</b>	Abercegyr, Aberedw, Aberhafesb, Abertridwr, Adfa, Banc y Fron, Y Batel, Y Bontfaen, Castell-paen, Ceir Trallwng, Cemaes, Clatter, Comins-coch, Cradoc, Cwm-bach, Cwm Linau, Einsiob, Y Fan, Felindre (Sir Frycheiniog), Y Foel, Ffynnon Gynydd, Groesffordd, Llanbadarn Fynydd, Llanbister, Llanfair Llythynwg, Llanfihangel, Llanfihangel Tal-y-llyn, Llanfilo, Llangedwyn, Llangynllo, Llanigon, Llannerch Emrys, Llanwddyn, Llanwnnog, Llanwrin, Manafon, Pentref Elan, Pen-y-bont, Pontffranc, Rhosgoch, Sarnau (Sir Drefaldwyn), Tanhouse, Walton, Llanddewi-yn-Hwytyn
<b>Haen 6</b>	Abaty Cwm-hir, Bleddfa, Bugeildy, Bwlch-y-ffridd, Capel Isaf, Cefn-coch, Darowen, Dolanog, Dolau, Felindre, Felin Newydd, Hundred House, Llan, Llandegla, Llannewydd, Llawr-y-glyn, Lloyney, Nant-glas, Nantmel, Pencraig, Talerddig



## 7. Dewisiadau Twf a Gofodol

Prif ddiben y Strategaeth a Ffefrir yw nodi'n glir lefel y twf a'i ddsbarthiad gofodol er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI Newydd.


Wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir, mae'n ofynnol i'r ACLI gynnal dadansoddiad o wahanol ddewisiadau twf a gofodol. Nodir y dewisiadau isod ac maent wedi eu llywio gan ystod o ffactorau cyflenwi a galw a darnau o dystiolaeth allweddol megis yr asesiad o aneddiadau, Asesiad Anghenion Cyflogaeth yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol ac asesiad hyfywedd cychwynnol.

### 7.1 Dewisiadau Twf

Mae pennu'r lefel twf mwyaf addas i'r cynllun ei chyflawni yn ystod cyfnod ei gynllun yn sylfaenol i baratoi'r CDLI Newydd. Yn bennaf, mae lefel y twf yn cyfeirio at raddfa y twf tai a chyflogaeth ac fe'i dylanwedir gan dystiolaeth, anghenion a dyheadau cymdeithasol, economaidd a demograffig.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn rhan hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd. Mae'n nodi lefel yr angen am dai (2022–2037) ar gyfer anheddau marchnad agored a fforddiadwy ledled Powys ac yn ardal y CDLI Newydd. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol hefyd yn ystyried anghenion ar lefel leol, gan rannu Powys yn 13 Ardal Marchnad Tai (Ffigur 8). Mae'n hanfodol bod pob un o'r dewisiadau twf a ystyrir yn gallu diwallu'r angen a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, sef 2,682 o anheddau ychwanegol (gan gymhwyso cyfradd tai gwag o 10%) y mae 1,036 ohonynt ar gyfer deiliadaethau fforddiadwy.

**Ffigur 8—Ardaloedd Marchnad Tai**




Mae Cyngor Sir Powys wedi paratoi Adroddiad Tystiolaeth Demograffig i gefnogi'r CDLI Newydd. Roedd hyn yn cynnwys proffil demograffig o'r ardal gyda rhagamcanion o'r twf yn y dyfodol o ran poblogaeth, cartrefi a chyflogaeth. Roedd yr adroddiad yn ffurfweddu amrywiaeth o senarios twf ar



gyfer cyfnod cynllun 2022–2037 ar sail demograffig a chyflogaeth. Ar gyfer pob senario, nodwyd ystod gysylltiedig o ganlyniadau twf o ran anheddau a chyflogaeth.

I ategu'r Adroddiad Tystiolaeth Demograffig, cynhaliwyd Asesiad Anghenion Cyflogaeth (2024) i nodi'r gofynion tir cyflogaeth ar gyfer y CDLI Newydd. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ystyriodd yr asesiad sawl senario ar sail tueddiadau er mwyn nodi'r angen dros oes y cynllun, a nododd y tir cyflogaeth y mae ei angen ar gyfer pob dewis. Argymhella'r asesiad bod y CDLI Newydd yn cynnwys darpariaeth tir cyflogaeth ar sail y nifer a fanteisiodd ar dir cyflogaeth yn hanesyddol, gan nodi darpariaeth rhwng 32 a 40 hectar a gyfeirir at Ardaloedd Marchnad Masnachol, fel y manylir yn Ffigur 9.

**Ffigur 9—Ardaloedd Marchnad Masnachol a ddangosir gyda'r Aneddiadau yn yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy**



Paratowyd papur cefndir Dewisiadau Twf sy'n ystyried yr anghenion a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, nifer yr anheddau yn y cyflenwad tir ar gyfer tai (tai adeiledig a thai sydd â chaniatâd cynllunio) a'r dystiolaeth o'r Asesiad Anghenion Cyflogaeth (2024). Mae'n nodi dadansoddiad o'r senarios twf o'r Adroddiad Tystiolaeth Demograffig i benderfynu pa un o'r senarios sydd fwyaf addas ar gyfer y CDLI Newydd.

Diystyriwyd rhai o'r senarios y manylir arnynt yn yr Adroddiad Tystiolaeth Demograffig ym mhapur cefndir Dewisiadau Twf fel rhai sy'n afrealistig oherwydd na fyddent yn galluogi'r anghenion tai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol i gael eu diwallu. Ystyriwyd Strategaeth Twf CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026), ond canfuwyd nad yw'n gyflawnadwy o ystyried nad oedd ei chyfradd adeiladu blynyddol (300 o anheddau) wedi ei chyflawni'n gyson.

## 7.2 Y Dewisiadau Twf a Ystyriwyd

Mae Tabl 4 yn nodi chwe senario twf sydd wedi eu grwpio fel tri dewis twf: Dewisiadau Twf Lefel Is, Canolig ac Uwch. Dangosir y Gyfradd Adeiladu Blynyddol Cyfartalog, y Gofyniad Tai a'r Ffigur Darparu Tai Disgwyliedig ar gyfer pob senario.

Defnyddiodd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol amcanestyniadau aelwydydd i ddarparu amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol, drwy gymhwyso tybiaethau ar gyfansoddiad a maint aelwydydd i'r amcanestyniadau poblogaeth. Ystyriodd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol nifer yr aelwydydd ar restrau aros aelwydydd hefyd (angen nas diwellir) ac fe'u hychwanegwyd at yr angen am dai a ragwelir. Felly, yn y senarios Dewis Twf, mae amcanestyniadau aelwydydd 2018 Llywodraeth Cymru ar gyfer senarios Amrywiolyn Uchaf a Mudo 15 Mlynedd yn seiliedig ar yr angen a ragwelir o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn hytrach na'r angen a ragwelir y manylir arno yn yr Adroddiad Tystiolaeth Demograffig.

Dangosir hefyd yn Nhabl 4 y dewisiadau twf ar gyfer cyfanswm y ddarpariaeth tir cyflogaeth, a nodir gan yr Asesiad Anghenion Cyflogaeth. Mae'r holl ddewisiadau twf yn adlewyrchu'r gyfradd a fanteisiodd ar dir cyflogaeth yn y gorffennol (1.6 ha fesul blwyddyn), ac mae'r Dewis Uwch yn gwneud darpariaeth ar gyfer 0.4 hectar ychwanegol fesul blwyddyn.

**Tabl 4. CDLI Newydd Powys (2022–2037) Dewisiadau a Senarios Twf.**

Dewis	Senario	Y Gyfradd Adeiladu Blynyddol a Ragwelir	Gofyniad Tai	Ffigur Darpariaeth Tai (+21%)	Gwerth Manteisio ar Dir Cyflogaeth (ha)	Cyfanswm y Ddarpariaeth Tir Cyflogaeth (ha)
Uwch	5 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau	288	4,320	5,227	1.6 + 0.4	40
Uwch	10 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau	264	3,960	4,792	1.6 + 0.4	40
Canolig	Y Twf Hirdymor a Ragwelir	220	3,300	3,993	1.6	32
Canolig	Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol—Mudo 15 Mlynedd	203	3,045	3,684	1.6	32
Is	Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol—Amrywiolyn Uchaf	179	2,682	3,245	1.6	32
Is	Y Twf Tymor Byr a Ragwelir	172	2,580	3,122	1.6	32

Roedd papur cefndir Dewisiadau Twf yn ystyried priodoldeb pob un o'r dewisiadau a'r senarios drwy adolygu:

- Cyfraddau adeiladu yn y gorffennol.
- Cyflenwad tir ar gyfer tai.
- Demograffeg.
- Diwallu'r anghenion a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol.
- Cydweddiad â Cymru'r Dyfodol a Rhanbarth Canolbarth Cymru.
- Sylwadau gan randdeiliaid.

Fel yr esbonnir ym mhapur cefndir Dewisiadau Twf, y Dewis Twf Uwch a gafodd y gefnogaeth fwyaf o gyfranogiad y rhanddeiliaid, ac ystyrir mai hwnnw yw'r dewis mwyaf priodol am y rhesymau a ganlyn:

**Cymhariaeth â Chyfraddau Adeiladu Hanesyddol**—Dros gyfnod 15 mlynedd 2008–2024 (ac eithrio 2014–2015), 240 annedd fesul blwyddyn oedd y gyfradd adeiladu cyfartalog, a 288 annedd fesul blwyddyn oedd y gyfradd adeiladu cyfartalog dros gyfnod pum mlynedd 2018–2023. Mae'r Dewis Twf Uwch o fewn yr ystod hon felly fe'i hystyrir yn gyflawnadwy ac yn un y gellir ei ddarparu.

**Cymhariaeth â'r Cyflenwad Tir ar gyfer Tai**—Gan ystyried anheddau sydd eisoes wedi eu cwblhau (ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2022), safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio a datblygiadau ar hap a ragwelir, byddai'r Dewis Twf Uwch yn rhoi lle i ddyrannu rhwng 1,325 a 1,760 o anheddau, i'w cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.

**Mynd i'r afael â'r heriau demograffig sy'n wynebu Powys**—Mae'r Adroddiad Tystiolaeth Demograffig yn ystyried maint y gweithlu a lefel y twf cyflogaeth y gellid ei chefnogi â'r Dewis Twf Uwch gan ddefnyddio cyfrifiadau sy'n deillio o gymhwysu cyfraddau gweithgarwch economaidd, cyfradd ddiweithdra, a chymhareb cymudo. Roedd y canlyniadau'n rhagweld cynnydd blynyddol o rhwng 153 a 182 o bobl mewn gwaith fesul blwyddyn, sy'n cyfateb i gynnydd o 2,295–2,730 o bobl dros gyfnod y Cynllun. Noda'r Adroddiad Tystiolaeth Demograffig hefyd fod y senarios twf uwch yn hwyluso lefelau uwch o fewnfudo, sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r heriau demograffig ac i gynyddu'r boblogaeth oedran gweithio.

**Bodloni'r anghenion a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol**—Mae'r Dewis Twf Uwch yn galluogi cyfanswm yr angen am dai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol i gael ei ddiwallu, gan ddarparu digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion tai sy'n newid yn ystod cyfnod y cynllun.

**Y Cyd-destun Rhanbarthol a Chymru'r Dyfodol**—Mae Cymru'r Dyfodol yn dweud, o dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru, fod angen 1,800 o gartrefi ychwanegol yn Rhanbarth Canolbarth Cymru hyd at 2039. Mae hefyd yn nodi, wrth ystyried anghenion tai y dyfodol, fod angen i CDLIau unigol fyfyrion ar yr angen amcangyfrifedig isel am dai yn Rhanbarth Canolbarth Cymru a'r hyn y mae hyn yn ei olygu o ran sut y bydd lleoedd yn newid, lle bydd swyddi a gwasanaethau yn cael eu lleoli a'r berthynas rhwng aneddiadau. O ystyried bod y Dewisiadau Twf Is a Chanolig yn rhagweld lefelau twf is, mae'n anochel eu bod yn sicrhau cysondeb agosach â'r angen ychwanegol a nodir yn Cymru'r Dyfodol na'r Dewis Twf Uwch.

Fodd bynnag, mae'r Dewis Twf Uwch yn cynnwys mwy o hyblygrwydd i allu cyflawni polisïau eraill yn Cymru'r Dyfodol megis gallu blaenoriaethu pwyslais ar y gyfran twf mwyaf yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol a gallu bodloni dyheadau lleol ac anghenion sy'n newid mewn trefi a phentrefi gwledig. Y Dewis Twf Uwch sydd â'r dylanwad mwyaf o ran cyflawni cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran a gwrthdroi diboblogi. Mae hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf ar gyfer ymateb i anghenion cymunedau gwledig, a bydd yn cael yr effaith fwyaf o ran cyflawni cartrefi fforddiadwy.

Yn nodweddiadol, mae ardal CDLI Powys yn cyfrannu 240 (48%) o'r 500 o anheddau a adeiledir fesul blwyddyn ledled Rhanbarth Canolbarth Cymru, ar sail cyfradd cwblhau cyfartalog y 15

mlynedd ddiwethaf. Byddai'r Dewis Twf Uwch yn gofyn am gyfradd adeiladu cyfartalog blynyddol sy'n amrywio rhwng 264 a 288 o anheddau. O ran effaith ar Ranbarth Canolbarth Cymru, ni fyddai pen isaf yr ystod hon yn sylweddol wahanol i'r gyfradd adeiladu cyfartalog 15 mlynedd, sef 240 o anheddau. O ran datblygu economaidd, ystyrir y bydd y ddarpariaeth gyflogaeth o 40 hectar, ynghyd â galluogi polisiâu cyflogaeth, yn darparu digon o hyblygrwydd ac yn cefnogi Bargaen Twf Canolbarth Cymru.

**Asesiad Cynaliadwyedd Integredig**—O'r tri dewis twf, canfu'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig fod y Dewis Twf Uwch yn perfformio gryfaf, gan adlewyrchu'r cyfle i fodloni gofynion tai, lleihau amddifadedd a phosibilrwydd o atgyfnerthu'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy alluogi aelwydydd lleol i ddod o hyd i dai yn eu cymunedau. Yn benodol, canfu'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig y gallai lefelau twf gefnogi cynaliadwyedd parhaus cymunedau llai â darpariaeth gwasanaeth cyfyngedig a phoblogaethau a allai fod yn gostwng.

Mae Tabl 5 yn nodi'r lefelau twf disgwyledig ar gyfer pob un o'r ddwy senario a gynhwysir yn y Dewis Twf Uwch: y senario 10 mlynedd dan arweiniad anheddau a'r senario pum mlynedd dan arweiniad anheddau.

**Tabl 5. Senarios Dewis Twf Uwch**

	<b>10 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau</b>	<b>5 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau</b>
<b>Crynodeb</b>	Mae'n modelu effaith twf poblogaeth y twf blynyddol cyfartalog mewn anheddau (259) ar sail hanes tai a gwblhawyd dros gyfnod o 10 mlynedd (2012/13–2022/23).	Mae'n modelu effaith twf poblogaeth y twf blynyddol cyfartalog mewn anheddau (285) ar sail hanes tai a gwblhawyd dros gyfnod o bum mlynedd (2018/19–2022/23).
<b>Y Gyfradd Adeiladu Blynyddol a Ragwelir</b>	264	288
<b>Gofyniad Tai *</b>	3,960	4,320
<b>Ffigur Darpariaeth Tai (+21%)</b>	4,792	5,227
<b>Gwerth Manteisio ar Dir Cyflogaeth (ha)</b>	1.6 + 0.4	1.6 + 0.4
<b>Cyfanswm y Ddarpariaeth Tir Cyflogaeth (ha)</b>	40	40
<b>Newid yn y Boblogaeth (2022–2037)</b>	6,297	7,096
<b>% y Newid yn y Boblogaeth (2022–2037)</b>	5.7%	6.5%

	<b>10 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau</b>	<b>5 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau</b>
<b>Newid mewn Aelwydydd (2022–2037)</b>	3,578	3,906
<b>% y Newid mewn Aelwydydd (2022–2037)</b>	7.1%	7.8%
<b>Newid Cyflogaeth Blynnyddol Cyfartalog</b>	153	182
<b>Cynnydd ym Maint y Llafurlu</b>	2,295	2,730

### 7.3 Y Dewis Twf a Ffefrir

Er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI Newydd, yn enwedig yr Amcanion ar ‘Ddiwallu Anghenion y Dyfodol’, ‘Anghenion Tai’, ‘Economi Fywiog’ a ‘Datblygu Economaidd’, mae’r dystiolaeth yn cefnogi twf tuag at ben isaf y Dewis Twf Uwch. Ystyrir bod y lefel hon o dwf yn realistig ac yn gyflawnadwy ac yn darparu digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cymunedau, busnesau a thrigolion, gan gynyddu’r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a helpu i fynd i’r afael â heriau demograffig.

Y **senario 10 mlynedd dan arweiniad anheddau** yw’r **Dewis Twf a Ffefrir**, sy’n seiliedig ar gyfradd adeiladu blynyddol cyfartalog o 264 annedd dros gyfnod 10 mlynedd 2012/2013 i 2022/2023. Mae twf cyflogaeth yn seiliedig ar gyfraddau a fanteisiodd ar dir cyflogaeth yn y gorffennol, sef 1.6 hectar y flwyddyn, ynghyd â lwfans ychwanegol o 0.4 ha fesul blwyddyn i adlewyrchu marchnad heb gyfyngiadau yn well.

Mae’r gyfradd adeiladu blynyddol cyfartalog a ragwelir wedi ei thalgrynnu i fyny i 265 o anheddau, sy’n arwain at ofyniad tai o 3,975 annedd (265 x 15 mlynedd) ar gyfer y CDLI Newydd. Ar gyfer twf cyflogaeth, bydd y CDLI Newydd yn darparu 40 hectar o dir cyflogaeth Dosbarth B, a fydd, ochr yn ochr â pholisïau CDLI Newydd eraill sy’n cefnogi’r economi sylfaenol a gwledig, yn gwasanaethu cynnydd o 2,295 o bobl yn y llafurlu.

Yn gyffredinol, ystyrir mai’r Dewis Twf Uwch—senario 10 Mlynedd dan Arweiniad Anheddau sy’n adlewyrchu’r lefelau darparu a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf orau, a’i fod yn cefnogi rôl ardal CDLI Powys yn Rhanbarth Canolbarth Cymru a phresenoldeb ei ddwy Ardal Twf Rhanbarthol orau.

### 7.4 Dewisiadau Gofodol

Yn ogystal â phenderfynu ar y lefel twf mwyaf priodol neu gywir, rhaid i’r Strategaeth a Ffefrir nodi’r lleoedd cywir i leoli twf.

Nodwyd Dewisiadau Gofodol yn rhan o ddatblygiad y Strategaeth a Ffefrir ac mae polisïau Cymru’r Dyfodol a chynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill wedi dylanwadu ar y rhain.

Mae’n bwysig bod y Strategaeth a Ffefrir yn mynd i’r afael ag anghenion cymunedau, busnesau a phreswylwyr ar lefel leol, gan gynnwys anghenion a nodir gan yr Asesiad o’r Farchnad Dai Lleol a’r Asesiad Anghenion Cyflogaeth. Mae angen i’r Strategaeth fanteisio gymaint â phosibl hefyd ar gyfleoedd i wella’r amgylchedd a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol y datblygiad.

Nodwyd pedwar Dewis Gofodol i’w hystyried fel a ganlyn:

- **Parhau â Strategaeth CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026).**
- **Dan Arweiniad Tai Fforddiadwy.**
- **Dosraniad Poblogaeth (Twf Gwasgaredig).**
- **Dan Arweiniad Ardal Twf Rhanbarthol (Twf â Phwyslais).**

Ystyrir pob un o’r pedwar dewis gofodol yn ddewisiadau realistig, ond byddai pob un ohonynt yn arwain at ddsbarthiad twf gwahanol o ran tai a mathau eraill o ddatblygiad. Cynhwysir dadansoddiad o’r pedwar dewis yn y Papur Cefndir Dewisiadau Gofodol. Mae hwn yn ystyried manteision ac anfanteision pob un ohonynt, gan gynnwys y cydweddiad â Cymru’r Dyfodol. Mae pob dewis hefyd wedi ei ystyried yn rhan o’r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig cychwynnol ac fe’u crynhoir isod.

### **Parhau â Strategaeth CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026)**

Nod Strategaeth Ofodol CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026) oedd hybu ac atgyfnerthu twf cymesur ar draws y rhwydwaith o drefi a phentrefi marchnad ym Mhowys. Ceisiodd y strategaeth ddsbarthu twf yn gymesur â phoblogaeth/maint presennol anheddiad a'r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael. Roedd y dull hwn yn galluogi'r gyfran uchaf o dwf i gael ei ddsbarthu i'r hyn a ystyriwyd yn lleoliadau mwyaf cynaliadwy, y Trefi a'r Pentrefi Mawr, gan ddiogelu adnoddau ac asedau strategol pwysig.

Daeth y Papur Cefndir Dewisiadau Gofodol i'r casgliad na fyddai parhad y strategaeth CDLI Mabwysiedig yn gydnaws â pholisïau Cymru'r Dyfodol oherwydd na fyddai'n galluogi twf i ganolbwyntio yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Canfu hefyd y byddai'n cyfyngu ar y gallu i ddiwallu'r anghenion a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a'r Asesiad Anghenion Cyflogaeth. Fodd bynnag, ystyriwyd bod elfennau o'r strategaeth a oedd wedi gweithio'n dda ac y dylid eu dwyn ymlaen i'r CDLI Newydd, megis defnyddio ffiniau datblygu ar gyfer aneddiadau mwy a'r dull polisi a ddefnyddir i alluogi datblygiad mewn aneddiadau llai.

### **Dewis Gofodol dan Arweiniad Tai Fforddiadwy**

Mae Dewis Gofodol dan Arweiniad Tai Fforddiadwy yn seiliedig ar fynd i'r afael â'r angen am anheddau fforddiadwy yn y 13 Ardal Marchnad Tai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol (2022–2037). Hefyd, mae'n ystyried cyfrifiadau ar sail data hanesyddol ynghylch nifer y bobl sy'n ymuno â rhestrau aros am dai cymdeithasol bob blwyddyn. Roedd y cyfrifiadau yn rhagweld anghenion eraill ar gyfer tai cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, efallai y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn ystod cyfnod cynllun y CDLI Newydd.

Er y byddai'r dewis hwn yn mynd i'r afael ag anghenion tai fforddiadwy uniongyrchol ledled ardal y Cynllun, ystyriwyd mai hyblygrwydd cyfyngedig i ymateb i unrhyw anghenion eraill, gan gynnwys ar gyfer tai arbenigol a thai marchnad agored hyd at 2037, y mae'r dewis yn ei ddarparu. Cyfyngedig oedd y gefnogaeth a dderbyniodd y dewis gan randdeiliaid ac ni fyddai'n galluogi'r CDLI Newydd i gyflawni rhai o'r dyheadau a nodir yn y Weledigaeth a'r Amcanion.

### **Dewis Gofodol Dosraniad Poblogaeth (Twf Gwasgaredig).**

Dewis gofodol gwasgaredig a fyddai'n ddsbarthu twf ledled yr 13 Ardal Marchnad Tai ar sail cyfanswm canran y boblogaeth ym mhob Ardal Marchnad Tai yw'r Dewis Gofodol Dosraniad Poblogaeth.

Byddai'r dewis hwn yn mynd i'r afael â'r anghenion cydnabyddedig ar gyfer tai a chyflogaeth a nodir yn y dystiolaeth a byddai'n cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Fodd bynnag, byddai'n cyfyngu ar yr effaith y byddai'r CDLI Newydd yn ei chael ar ganolbwyntio twf i Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn unol â gofynion Cymru'r Dyfodol. Hefyd, mae dewis twf gwasgaredig yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i gyflawni gwelliannau seilwaith ac i gefnogi gwasanaethau o'i gymharu â dewis twf â phwyslais.

### **Dewis Gofodol dan Arweiniad Ardal Twf Rhanbarthol (Twf â Phwyslais).**

Dewis gofodol twf â phwyslais sy'n cyfeirio mwyafrif y twf i'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw Dewis Gofodol Ardal Twf Rhanbarthol. Galluogir lefelau twf is mewn rhannau eraill o ardal y Cynllun, yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy, dyheadau lleol a'r anghenion a nodir.

Roedd y dadansoddiad a nodir ym mhapur cefndir Dewisiadau Gofodol o'r farn mai dyma'r dewis gorau i ddiwallu anghenion ardal y Cynllun, gan ddarparu digon o hyblygrwydd i osgoi ardaloedd cyfyngedig ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion sy'n newid hyd at 2037. Dyma'r dewis sy'n sicrhau'r cysondeb gorau â Cymru'r Dyfodol, PCC, Llwybr Newydd, ac mae'n adlewyrchu sylwadau rhanddeiliaid. Mae'n cydnabod rôl ardal y cynllun yn rhanbarth Canolbarth Cymru a byddai'n galluogi'r Weledigaeth a'r Amcanion i gael eu cyflawni.

## 8. Y Strategaeth a Ffefrir

Nod y Strategaeth a Ffefrir trosfwaol yw cyflawni a chwblhau Gweledigaeth ac Amcanion y cynllun. Mae wedi dod i'r amlwg o ystyried a dadansoddi'r dewisiadau twf a gofodol ac ystyriaethau eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r hyn a ganlyn:

- Mynd i'r afael â'r Materion Allweddol ac ymateb iddynt.
- Cysondeb â Cymru'r Dyfodol, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Diwallu'r anghenion a nodir trwy dystiolaeth, gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a'r Asesiad Anghenion Cyflogaeth.
- Canfyddiadau o dystiolaeth ategol: Asesiad o Aneddiadau, Asesiad o Aneddiadau Bach, Dadansoddiad Clwstwr, Strategaeth Trafnidiaeth, Cynllunio Integredig a Dull Gwledig, papurau cefndir Cyfraddau Tai Gwag a Thai Arbenigol, Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr a'r Cyflenwad Tir ar gyfer Tai.
- Yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig cychwynnol.
- Yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ac Adroddiad Adolygu CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026).
- Cyfranogiad a sylwadau rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â nhw.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig graddfa twf ar gyfer tai a chyflogaeth a fydd yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod cynllun 2022–2037 i ddiwallu'r anghenion a nodir. Yn ofodol, mae'r strategaeth yn dosbarthu'r twf hwn drwy'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy, Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, Clystyrau Lleol a'r Ardaloedd Gwledig, gan gynnwys Aneddiadau nad ydynt yn rhan o Glwstwr.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn defnyddio'r Dewis Twf Uwch (senario 10 Mlynedd Dan Arweiniad Anheddau) a'r Dewis Gofodol Rhanbarthol dan Arweiniad Ardaloedd Twf Rhanbarthol (Twf â Phwyslais) ac fe'i disgrifir yn y **Datganiad Strategaeth** a ganlyn:

**Mae'r Strategaeth CDLI Newydd yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o'r twf i aneddiadau yng Nghlystyrau Ardal Twf Rhanbarthol Bro Hafren a Chalon Cymru, gan alluogi lefelau twf is mewn aneddiadau sydd mewn Clystyrau Lleol. Mewn rhannau eraill o ardal y Cynllun, bydd y datblygiad yn gymesur ac yn canolbwyntio ar gyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy, gan ddiwallu dyheadau lleol a'r anghenion a nodir. Cyfeirir y datblygiad ledled pob ardal at aneddiadau haenau uwch gan sicrhau bod y datblygiad yn yr ardaloedd lleiaf cynaliadwy yn cael ei reoli'n agos.**


**Mae'r Strategaeth yn cefnogi cymunedau cryf sydd â chysylltiadau da, yn adlewyrchu rôl Powys yn Rhanbarth Canolbarth Cymru ac yn cydnabod pwysigrwydd twf economaidd a'r economi wledig. Mae'r Strategaeth yn galluogi penderfyniadau rheoli datblygu i gael eu gwneud o'u cymharu â fframwaith lle mae egwyddorion datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd, ynghyd â gwarcheidwaeth yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol naturiol wedi eu gwreiddio'n llawn, wrth geisio galluogi bioamrywiaeth i ffynnu a mynd i'r afael â heriau newid hinsawdd.**



## 8.1 Y Diagram Allweddol

Mae'r Diagram Allweddol yn dangos y strategaeth CDLI Newydd sy'n dangos lleoliadau'r Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, Clystyrau Lleol a'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy.

Ffigur 10—Diagram Allweddol



## 9. Fframwaith a Pholisiau Strategol

### 9.1 Strategaeth Twf—Faint o ddatblygiad sydd wedi ei gynllunio?

Rhaid i'r CDLI Newydd gynllunio ar gyfer lefel twf cynaliadwy dros gyfnod ei gynllun 2022–2037:

- Er mwyn cyflawni'r dyheadau a gynhwysir yn y Weledigaeth a'r Amcanion;
- Er mwyn diwallu'r anghenion a nodir yn y sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a'r Asesiad Anghenion Cyflogaeth; ac
- Er mwyn sicrhau digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion arbenigol a newidiol.

Mae'r CDLI Newydd yn nodi **Gofyniad Tai o 3,975 o anheddau** y bydd 1,036 ohonynt yn dai fforddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd adeiladu cyfartalog blynyddol o 265 o anheddau y bydd 69 ohonynt yn dai fforddiadwy.

Mae lefel y twf tai a gynigir yn seiliedig ar gyfradd cwblhau tai cyfartalog o 264 o anheddau fesul blwyddyn dros y cyfnod deng mlynedd rhwng 2012/2013 a 2022/2023. Ystyrir bod yr amserlen hon yn briodol oherwydd ei bod yn cwmpasu cyfnod pan gwblhawyd nifer isel o dai a chynnydd mwy diweddar yn y tai a adeiledir ym Mhowys.

Er mwyn cyflawni'r Gofyniad Tai, mae'r CDLI Newydd yn darparu ar gyfer 4,810 o anheddau, sy'n cynnwys lwfans hyblygrwydd ychwanegol o 21% uwchben y Gofyniad Tai. Esbonnir hyn ymhellach yn y papur Cyflenwad Tir ar gyfer Tai.

Mae'r CDLI Newydd yn nodi **Darpariaeth Tir Cyflogaeth o 40 hectar** ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1/B2/B8 a fydd yn diwallu'r anghenion cyflogaeth a nodir ac yn gwasanaethu rhywfaint o'r cynnydd disgwylidig i'r llafurlu, gan leihau'r angen i gymudo.

Er nad yw'r dystiolaeth ategol wedi nodi perthynas gref rhwng twf yn y boblogaeth a thir cyflogaeth, ystyrir bod angen 40 hectar o dir cyflogaeth i roi cyfle digonol i fusnesau ehangu ac adleoli ym Mhowys ac i hwyluso Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Hefyd, fel y gall y CDLI Newydd gefnogi cymunedau mwy cytbwys o ran oedran, mae angen iddo hwyluso'r broses o greu swyddi, cartrefi a chyfleoedd sy'n cadw ac yn denu mwy o bobl o oedran gweithio, gan ddarparu cyfleoedd am gynydd disgwylidig o 2,295 o bobl i'r gweithlu.

Er mwyn dangos y gellir eu cyflawni, mae'r lefelau twf tai a chyflogaeth wedi eu llywio gan dystiolaeth o'r cyfraddau a fanteisiodd ar hyn yn y gorffennol. Ystyrir hefyd fod y lefelau twf yn ddigon uchelgeisiol i ddiwallu anghenion ardal y Cynllun ac i adlewyrchu rôl Powys yn Rhanbarth Canolbarth Cymru a'i dwy Ardal Twf Rhanbarthol.

#### **Polisi Strategol SP1—Graddfa'r Twf**

**Bydd CDLI Newydd Powys yn darparu ar gyfer y lefelau canlynol o dwf cynaliadwy yn ystod cyfnod 2022–2037:**

- **4,810 o gartrefi newydd i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd, sef 3,975 o gartrefi, gan gynnwys 1,036 o dai fforddiadwy.**
- **40 hectar o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth a datblygiad economaidd Dosbarth B.**
- **Cyflawni seilwaith cysylltiedig sy'n angenrheidiol i gefnogi'r twf.**

Mae Polisi Strategol SP1 yn nodi'r lefelau twf i'w cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd cynllunio ar gyfer twf cynaliadwy yn diwallu'r anghenion tai a chyflogaeth yn y dyfodol a nodir ac yn cefnogi uchelgeisiau y Cyngor i fynd i'r afael â nifer o faterion allweddol megis cynyddu'r boblogaeth oedran gweithio er mwyn mynd i'r afael ag anghydbwysedd demograffig.

## 9.2 Strategaeth Ofodol—Ble mae datblygiad wedi ei gynllunio?

Ar ôl nodi graddfa'r twf a'r datblygiad sydd ei hangen ar gyfer cyfnod cynllun 2022–2037, rhaid i'r CDLI Newydd, drwy ei strategaeth ofodol, arwain a dosbarthu datblygiad i leoliadau cynaliadwy wrth ddiogelu adnoddau ac asedau strategol pwysig, hwyluso gwelliant mewn bioamrywiaeth, cydnerthedd ecosystemau a darpariaeth seilwaith gwyrdd.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn seiliedig ar Ddewis Gofodol yr Ardal Twf Rhanbarthol (twf â phwyslais), sy'n cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf at y Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol. Y tu allan i'r Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, cynllunnir lefelau twf is ar gyfer aneddiadau Clwstwr Lleol.

Mae'r 'Clystyrau' yn hybu'r cysyniad o 'Fyw'n Lleol' ac yn bwriadu lleoli datblygiadau newydd o fewn pellter cerdded/beicio, neu o wneud taith fer ar drafnidiaeth gyhoeddus, i wasanaethau allweddol bob dydd. Bydd hyn yn lleihau'r angen i deithio mewn cerbydau modur preifat, gan hybu gweithgarwch corfforol ac iechyd a llesiant preswylwyr. Mae'r strategaeth yn gwneud defnydd llawn o wasanaethau bysiau a gwasanaethau trên Calon Cymru a Lein y Cambrian, sy'n galluogi preswylwyr mewn aneddiadau llai i gysylltu ag aneddiadau Haen 1 a Haen 2 sy'n gweithredu fel canolfannau gwasanaeth drwy lwybr trafnidiaeth cynaliadwy. Enghraifft benodol yw Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol Calon Cymru, lle mae nifer o orsafoedd rheilffordd bach mewn aneddiadau haen is o fewn taith 10 munud i aneddiadau Haen 1 Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt.

Gwneir darpariaeth i sicrhau bod yr anghenion tai a nodir ar gyfer pob Ardal Marchnad Tai yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a'r anghenion cyflogaeth ledled Ardaloedd Marchnad Masnachol, a nodir yn yr Asesiad Anghenion Cyflogaeth, yn cael sylw. Mae'r dull hwn yn darparu digon o hyblygrwydd i gynllunio ar gyfer datblygiad mewn lleoedd na chyfyngir arnynt gan faterion niwtraliaeth maetholion (ffosffad) na pherygl o lifogydd. Mae hefyd yn caniatáu datblygiad yng Nghadarnleoedd y Gymraeg mewn ffordd a fydd yn annog y Gymraeg i ffynnu a bydd yn ei gwneud yn bosibl i fynd i'r afael ag anghenion tai arbenigol ac anghenion newydd sy'n codi.

Dosberthir aneddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y 'Clystyrau' fel Aneddiadau nad ydynt yn rhan o Glwstwr/Ardaloedd Gwledig. Bydd lefelau is o ddatblygiad yn cael eu cynllunio yn yr Ardal Wledig a byddant yn cael eu dosbarthu i aneddiadau haen uwch yn yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy.

Er mwyn cyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy, canolbwyntir ar fynd i'r afael ag anghenion a nodir, cefnogi'r economi wledig a hybu datblygiad cysylltiadau cynaliadwy mewn aneddiadau gwledig, a rhwng aneddiadau gwledig. Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr aneddiadau hyn yn cefnogi'r Gymraeg drwy ganiatáu i bobl leol aros yn eu cymunedau.

Mae Tabl 6 yn dangos dosbarthiad twf tai rhwng Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, Clystyrau Lleol ac Ardaloedd Gwledig. Dangosir holl elfennau y cyflenwad tai gan gynnwys y nifer a gwblhawyd, ymrwymadau, datblygiadau ar hap a safleoedd tai dynodedig. Mae'n nodi y bydd 65% o'r safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu lleoli yn y Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae ffactorio holl elfennau cyflenwad tir ar gyfer tai yn golygu y rhagwelir y bydd 55% o dwf tai y CDLI Newydd yn digwydd mewn Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol.

Dosberthir twf cyflogaeth ledled yr Ardaloedd Marchnad Masnachol, gan flaenoriaethu'r rhai sydd mewn Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol neu'n gorgyffwrdd â nhw, er mwyn sicrhau cysondeb â'r dosbarthiad tai ac ymateb i'r anghenion sy'n deillio o Fargen Twf Canolbarth Cymru.

**Tabl 6. Canran y Twf Tai a Ddosberthir rhwng Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, Clystyrau Lleol ac Ardaloedd Gwledig.**

	Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol	Clystyrau Lleol	Ardaloedd Gwledig
Y Nifer a Gwblhawyd (2022–2024)	50%	22%	28%
Ymrwymadau Tai (Safleoedd Mawr)—Unedau Nad Ydynt Wedi Eu Dechrau ac Sydd Wrthi'n Cael Eu Hadeiladu	58%	37%	5%
Nifer yr unedau Hap-safleoedd a Ragwelir	45%	20%	35%
Anheddau ar Safleoedd Tai a Ddyrannwyd	65%	25%	10%
% y Dosbarthiad o'r Cyfanswm (Targed)	>55%	>25%	<20%

Bydd dosbarthu'r rhan fwyaf o'r twf i'r Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol a Chlystyrau Lleol yn cynyddu hyfywedd gwasanaethau ac yn darparu pwyslais ar gyfer gwelliannau seilwaith. Bydd hyn yn cefnogi Amcanion y CDLI Newydd wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur drwy annog pobl i fanteisio ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, lleihau'r angen i deithio, a gwarchod diogelu tirwedd ac amgylchedd Powys.

Mae Polisi Strategol SP2 yn nodi'r Strategaeth Twf Cynaliadwy cyffredinol.

### **Polisi Strategol SP2—Strategaeth Twf Cynaliadwy**

Bydd dosbarthiad eang datblygiad yn ardal y cynllun yn cael ei lunio gan yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy a'r Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol a nodir, Clystyrau Lleol ac Aneddiadau Ardaloedd Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr, gan adlewyrchu rôl a swyddogaeth lleoedd.

Caiff twf ei flaenoriaethu mewn aneddiadau sydd mewn Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol, gan alluogi lefelau twf is mewn aneddiadau sydd mewn Clystyrau Lleol er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng cartrefi a swyddi newydd, mynediad at wasanaethau a chyfluoedd trafndiaeth cynaliadwy.

Mewn aneddiadau Ardaloedd Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr, ar ddiwallu anghenion a nodir, cyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy a datblygu economi gwledig ffyniannus y mae'r pwyslais.

Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy fel a ganlyn:

#### **A. Aneddiadau Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol**

Disgwylir i'r ardaloedd hyn gymryd o leiaf 55% o'r twf tai a chyflogaeth, gan gynnwys yr aneddiadau a ganlyn:

- Haen 1—Y Drenewydd, Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt a Llanelwedd, Y Trallwng
- Haen 2—Aber-miwl, Llanidloes, Rhaeadr Gwy

- Haen 3—Aberriw, Arddlin, Betws Cedewain, Caersŵs, Castell Caereinion, Cegidfa, Ceri, Ffordun a Kingswood, Y Groes, Hawy, Llandinam, Llangurig, Llanllŷr, Pontnewydd-ar-Wy, Treberfedd, Trewern
- Haen 4—Cilmeri, Heol Llanfair-ym-Muallt, Leighton, Llanarmon, Pentre, Pen-y-bont, Tal-y-bont, Y Trallwng
- Haen 5—Aberbechan, Cwmbelan, Dolfor, Erwyd, Felin-fach, Garth, Garthmyl, Groes-lwyd, Llanddewi Ystradenni, Llanwrthwl, Pant-y-dŵr, Refail

#### **B. Aneddiadau Clwstwr Lleol**

Disgwylir i'r ardaloedd hyn gymryd oddeutu 25% o'r twf tai a chyflogaeth, gan gynnwys yr aneddiadau a ganlyn:

- Haen 1—Machynlleth, Trefyclo, Ardal Ystradgynlais
- Haen 2—Y Gelli Gandryll, Llanandras, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanwrtyd, Trefaldwyn
- Haen 3—Aber-craf, Aberllynfi, Bochrwyd a Llys-wen, Bronllys, Y Coelbren, Y Clas-ar-Wy, Cnwclas, Crew Green, Llandrinio, Llanfechain, Llansantffraid-ym-Mechain, Llanymynech, Meifod, Yr Ystog
- Haen 4—Caehopcyn, Caerhywel, Derwenlas, Esgairgeiliog Ceinws, Llangadfan, Llangamarch, Norton, Penegoes
- Haen 5—Beulah, Bwlchycibau, Cefngorwydd, Coedway, Glantwymyn, Kinnerton, Llanerfyl, Llowes

#### **C. Aneddiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr**

Bydd y datblygiad a ganiateir yn yr aneddiadau hyn ar raddfa lai, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion a nodir a chyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'r aneddiadau yn cynnwys:

- Haen 3—Carno, Cleirwy, Llanbrynmair, Llangynog, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin, Maesyfed, Pen-y-bont-fawr, Pontrobert, Trefeglwys, Tregynon
- Haen 4—Llandysul, Llan-ddew, Sarn, Stepside
- Haen 5—Abercegyr, Aberedw, Aberhafesb, Abertridwr, Adfa, Banc y Fron, Y Batel, Y Bontfaen, Castell-paen, Cei'r Trallwng, Cemaes, Clatter, Comins-coch, Cradoc, Cwm-bach, Cwm Linau, Einsiob, Y Fan, Felindre (Sir Frycheiniog), Y Foel, Ffynnon Gynydd, Groesffordd, Llanbadarn Fynydd, Llanfair Llythynwg, Llanbister, Llanfihangel, Llanfihangel Tal-y-llyn, Llanfilo, Llangedwyn, Llangynllo, Llanigon, Llannerch Emrys, Llanwddyn, Llanwnnog, Llanwrin, Manafon, Pentref Elan, Pen-y-bont, Pontffranc, Rhosgoch, Sarnau (Sir Drefaldwyn), Tanhouse, Walton, Llanddewi-yn-Hwytyn
- Haen 6—Abaty Cwm-hir, Bleddfa, Bugeildy, Bwlch-y-ffridd, Capel Isaf, Cefn-coch, Darowen, Dolanog, Dolau, Felindre, Felin Newydd, Hundred House, Llan, Llandegla, Llannewydd, Llawr-y-glyn, Lloyney, Nant-glas, Nantmel, Pencraig, Talerddig

#### **D. Cefn Gwlad Agored (gan gynnwys yr Arfordir nas Datblygwyd)**

Diffinnir Cefn Gwlad Agored fel ardal y cynllun sydd y tu allan i'r aneddiadau a restrir uchod ac mae'n cynnwys yr arfordir nas datblygwyd sy'n gysylltiedig ag aber Afon Dyfi.

**Bydd angen cyfiawnhau datblygiad mewn Cefn Gwlad Agored, a bydd angen iddo fod yn briodol o ran graddfa a natur. Bydd angen i bob cynnig gydymffurfio â pholisi Cenedlaethol, yn enwedig Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a TAN 23: Datblygu Economaidd a pholisiau eraill a gynhwysir yn y Cynllun.**

Mae'r strategaeth twf cynaliadwy yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni twf. Mae'n adlewyrchu gwahanol rolau a swyddogaethau sydd gan aneddiadau yn ardal y Cynllun. Bydd yn cefnogi ac yn diwallu anghenion cymunedau mewn ffordd sy'n gynaliadwy, gan hybu dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy a mynd i'r afael â heriau demograffig.

Aneddiadau Haen 1, 2 a 3 yw'r lleoedd mwyaf cynaliadwy i ddarparu ar gyfer twf. Efallai y bydd aneddiadau haen is (Haenau 4 a 5) mewn Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol neu Glwstwr Lleol sydd â pherthynas swyddogaethol ag anheddiad Haen 1 neu Haen 2 yn gallu darparu ar gyfer twf cyfyngedig er mwyn cefnogi'r anheddiad haen uwch a diwallu anghenion lleol. Ar gyfer aneddiadau yn yr Ardal Wledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr, bydd datblygiad yn cael ei gefnogi i ddiwallu anghenion a nodir ac i gyflawni cymunedau cynaliadwy.

### **Polisi Strategol SP3—Dosbarthiad Twf**

**Dosberthir datblygiad tai a chyflogaeth yn unol â'r strategaeth anheddu a ganlyn ar sail maint yr anheddiad, lefel y gwasanaethau a ddarperir, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy.**

#### **A. Aneddiadau mewn Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol a Chlystyrau Lleol:**

- **Aneddiadau Haen 1 a Haen 2—Bydd cyfran uwch o'r datblygiad newydd sydd ei angen yn cael ei gyfeirio at aneddiadau Haen 1 a Haen 2. Bydd hyn drwy ddyraniadau, ymrwymadau ac ar hap-safleoedd addas sydd o fewn ffin ddatblygu.**

**Bydd safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy yn cael eu nodi o fewn ffiniau datblygu yn ôl yr angen. Bydd tai fforddiadwy a thai dan arweiniad y gymuned hefyd yn cael eu caniatáu ar safleoedd eithriedig sy'n ffurfio estyniadau rhesymegol i aneddiadau.**

- **Aneddiadau Haen 3—Bydd cyfran sylweddol o'r datblygiad newydd sydd ei angen yn cael ei gyfeirio at aneddiadau Haen 3. Bydd hyn drwy ddyraniadau, ymrwymadau ac ar hap-safleoedd addas sydd o fewn ffin ddatblygu.**

**Bydd safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy yn cael eu nodi o fewn ffiniau datblygu yn ôl yr angen. Bydd tai fforddiadwy a thai dan arweiniad y gymuned hefyd yn cael eu caniatáu ar safleoedd eithriedig sy'n ffurfio estyniadau rhesymegol i aneddiadau.**

- **Aneddiadau Haen 4—Bydd nifer cyfyngedig o'r datblygiad newydd yn cael ei gyfeirio at aneddiadau Haen 4. Bydd hyn drwy ymrwymadau a datblygiad ar hap-safleoedd addas sydd o fewn ffin ddatblygu. Gwneir dyraniadau pan maent yn cefnogi anheddiad Haen 1 neu Haen 2 a phan mae eu hangen i fynd i'r afael ag angen cydnabyddedig.**

- **Aneddiadau Haen 5—Nid yw'r CDLI Newydd yn nodi ffiniau datblygu ac nid oes dyraniadau ar gyfer datblygu yn yr haen hon.**

**Tai—Cyfyngir tai marchnad agored i leiniau mewnlenwi bach (sy'n gallu darparu ar gyfer uchafswm o ddwy annedd) neu i gynlluniau cymysg ar safleoedd mewnlenwi mwy (sy'n gallu darparu ar gyfer uchafswm o bum annedd) ar yr**



amod nad yw'r cynllun ar gyfer mwy na dau dŷ marchnad agored ynghyd â thai fforddiadwy.

Hefyd, caniateir hyd at bum annedd tai fforddiadwy neu dai dan arweiniad y gymuned ar safleoedd sy'n ffurfio estyniadau rhesymegol i'r anheddiad.

Bydd angen cyfiawnhau cynigion cyflogaeth a bydd rhaid iddynt gydymffurfio â pholisi.

**B. Aneddiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr:**

- **Aneddiadau Haen 3**—Bydd cyfran is o'r datblygiad newydd sydd ei angen yn cael ei gyfeirio at Aneddiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr Haen 3. Bydd hyn drwy ymrwymadau ac ar hap-safleoedd addas (a gyfyngir i 10 annedd marchnad agored) sydd o fewn ffin ddatblygu. Bydd dyraniadau'n cael eu gwneud pan fo anghenion cydnabyddedig i fynd i'r afael â nhw.

Bydd safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy yn cael eu nodi o fewn ffiniau datblygu yn ôl yr angen. Bydd datblygiadau tai fforddiadwy a thai dan arweiniad y gymuned ar raddfa fach hefyd yn cael eu caniatáu ar safleoedd eithriedig sy'n ffurfio estyniadau rhesymegol i aneddiadau.

- **Aneddiadau Haen 4**—Bydd nifer cyfyngedig o'r datblygiad newydd yn cael ei gyfeirio at Aneddiadau Ardal Gwledig/Nad ydynt yn rhan o Glwstwr Haen 4. Bydd hyn drwy ymrwymadau a datblygiad ar hap-safleoedd addas sydd o fewn ffin ddatblygu.
- **Aneddiadau Haen 5**—Nid yw'r CDLI Newydd yn nodi ffiniau datblygu ac nid oes dyraniadau ar gyfer datblygu yn yr haen hon.

**Tai**—Cyfyngir tai marchnad agored i leiniau mewnlenwi bach (sy'n gallu darparu ar gyfer uchafswm o ddwy annedd) neu i gynlluniau cymysg ar safleoedd mewnlenwi mwy (sy'n gallu darparu ar gyfer uchafswm o bum annedd) ar yr amod nad yw'r cynllun ar gyfer mwy na dau dŷ marchnad agored ynghyd â thai fforddiadwy.

Hefyd, caniateir datblygiadau hyd at bum annedd tai fforddiadwy neu dai dan arweiniad y gymuned ar safleoedd sy'n ffurfio estyniadau rhesymegol i'r anheddiad.

Mae angen cyfiawnhau cynigion cyflogaeth ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â pholisi.

- **Aneddiadau Haen 6**—Nid yw'r CDLI Newydd yn nodi ffiniau datblygu ac nid oes dyraniadau ar gyfer datblygiad yn yr haen hon. Bydd angen i gynigion datblygu fodloni'r polisiau eithriadau fel y'u nodir mewn polisi cenedlaethol neu leol.

Ni chaniateir datblygu tai marchnad agored mewn aneddiadau Haen 6. Caniateir cartrefi fforddiadwy unigol i ddiwallu angen lleol am byth ar safleoedd addas pan maent wedi eu hintegreiddio'n dda i'r anheddiad.

Mae angen cyfiawnhau cynigion cyflogaeth ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â pholisi.

**C. Cefn Gwlad Agored (gan gynnwys yr Arfordir nas Datblygwyd)**

Bydd anheddau menter gwledig arfaethedig ar gyfer amaethyddiaeth, garddwriaeth a mentrau gwledig eraill, ac anheddau Cenedl Un Blaned, yn cael eu hasesu o'u cymharu â pholisi cenedlaethol a holl bolisiau perthnasol y Cynllun. Mae TAN 6 yn ymwneud â chynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy ac mae'n cynnwys datblygiad amaethyddol a choedwigol yn ogystal ag amrywiaeth wledig.



Mae Polisi SP3 yn nodi dosbarthiad twf tai a chyflogaeth yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy a'r haenau aneddiadau a ddiffinnir gan Bolisi SP2—Strategaeth Twf Cynaliadwy.

**Aneddiadau Haen 1**—dyma'r trefi mwy yn ardal y cynllun ac ystyrir mai nhw yw'r lleoedd mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau, gwasanaethau bws/trên, llwybrau teithio llesol a chyfleusterau gwefru cerbydau trydan. Amcangyfrifir y bydd saith anheddiad Haen 1 yn darparu ar gyfer oddeutu 40% o'r twf.

**Aneddiadau Haen 2**—mae'r rhain yn cynnig ystod gulach o wasanaethau a chyfleusterau o'u cymharu ag aneddiadau Haen 1, ond maent yn ganolfannau gwasanaeth pwysig ar gyfer eu cymunedau agos a chyfagos. Maent yn elwa ar wasanaethau bysiau ac yn cynnal ystod o gyfleusterau y gall preswylwyr eu defnyddio drwy deithio llesol. Amcangyfrifir y bydd 10 anheddiad Haen 2 yn darparu ar gyfer oddeutu 15% o'r twf.

**Aneddiadau Haen 3**—mae gan y rhain wasanaethau mwy cyfyngedig a chyfleoedd cyflogaeth sy'n gallu diwallu rhai anghenion preswylwyr, ond mae trigolion yn debygol o deithio i anheddiad haen uwch i gael gafael ar rai gwasanaethau megis archfarchnadoedd, ysgolion uwchradd a darpariaeth gofal iechyd. Mae gan aneddiadau Haen 3 mewn Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol neu Glwstwr Lleol cydnabyddedig ddewisiadau trafndiaeth cynaliadwy sydd ar gael er mwyn cael gafael ar wasanaethau o'r fath. Pan fo cyfyngiadau capasiti mewn aneddiadau Haen 1 a Haen 2, ystyrir yr aneddiadau Haen 3 a leolir mewn Clwstwr yn lleoedd addas i ddarparu ar gyfer datblygiad. Amcangyfrifir y bydd 41 anheddiad Haen 3 yn darparu ar gyfer oddeutu 25% o'r twf.

**Aneddiadau Haen 4**—mae'r rhain yn llai o ran maint ac yn cynnal llai o wasanaethau nag aneddiadau Haen 3. Fodd bynnag, lleolir llawer ohonynt yn agos, o fewn pellter cerdded neu feicio yn aml, i anheddiad Haen 1. Pan leolir anheddiad Haen 4 mewn Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol neu Glwstwr Lleol, mae'r cysylltiadau agos hyn mewn lleoliad da i ddarparu ar gyfer datblygiad na ellir ei ddarparu mewn setliad Haen 1 neu 2 oherwydd cyfyngiadau a materion capasiti. Mae'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol yn dangos llwybrau arfaethedig ar gyfer buddsoddi mewn llwybrau teithio llesol yn y dyfodol a lle y bwriedir gwella cysylltiadau rhwng rhai aneddiadau Haen 4 a Haen 1. Amcangyfrifir y bydd 18 anheddiad Haen 4 yn darparu ar gyfer oddeutu 5% o'r twf.

**Aneddiadau Haen 5**—mae gan y rhain rôl bwysig mewn ardaloedd gwledig ac maent yn fach o ran maint, gyda llai o wasanaethau nag aneddiadau mewn haenau uwch. Bydd datblygiadau yn yr aneddiadau hyn ar raddfa fach er mwyn diwallu anghenion lleol, gyda phwyslais ar dai fforddiadwy a chreu cyfleoedd i gadw'r boblogaeth oedran gweithio. Amcangyfrifir y bydd 63 anheddiad Haen 5 yn darparu ar gyfer oddeutu 5% o'r twf.

**Aneddiadau Haen 6**—dyma'r 23 anheddiad lleiaf o ran maint, a lleiaf cynaliadwy yn yr Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy. Cyfyngir datblygiadau tai i ddiwallu anghenion lleol penodol drwy alluogi cynigion am gartrefi fforddiadwy unigol.

**Cefn gwlad agored**—adnodd deinamig ac amlbwrpas yw hwn sy'n gofyn am ddatblygiad gofalus a reolir yn dda. Gan barchu'r egwyddor polisi cenedlaethol o arfer rheolaeth lem dros ddatblygiad yng nghefn gwlad agored o ystyried natur Powys a'i heconomi wledig, mae'n bwysig bod y Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n briodol i'w lleoliad ac sy'n cynnal ac yn gwella gwaith mewn cefn gwlad. Dylai pob datblygiad newydd mewn cefn gwlad agored barchu cymeriad yr ardal gyfagos a bod o raddfa a dyluniad priodol.

### 9.3 Twf Tai

Nododd y strategaeth dwf ofyniad tai o 3,975 o anheddau i ddiwallu'r anghenion tai a nodwyd ac i gyflawni dyheadau Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun.

Er mwyn bodloni'r gofyniad tai, mae'r CDLI Newydd yn darparu ar gyfer 4,810 o anheddau (ar sail lwfans hyblygrwydd o 21%). Mae hyn yn cyfateb i gyfradd adeiladu cyfartalog blynyddol o 265 o anheddau fesul blwyddyn. Mae Polisi Strategol SP4 yn crynhoi'r elfennau sy'n ffurfio'r ddarpariaeth tai.

### **Polisi Strategol SP4—Twf Tai**

**Dros gyfnod y Cynllun, sef 2022–2037, mae'r cynllun yn darparu ar gyfer 4,810 o gartrefi i gyflawni gofyniad tai o 3,975 o gartrefi y mae 1,036 ohonynt yn dai fforddiadwy. Cyflawnir hyn drwy:**

- **Gwblhau—603 o anheddau (ers 2022)**
- **Ymrwymadau Tai (safleoedd 5 annedd neu fwy)—1,410 o anheddau**
- **Anheddau ar Hap-safleoedd—1,454 o anheddau**
- **Safleoedd Newydd a Ddyrennir—1,343 o anheddau**

**Noder: 4,810 – 3,975 = Lwfans Hyblygrwydd (21%)**

Mae'r ddarpariaeth tai ledled Powys yn digwydd yn bennaf drwy ddatblygu safleoedd datblygu canolog i fach o ran maint, sy'n adlewyrchu'r ardal daearyddol mawr, dosbarthiad aneddiadau a'r diwydiant adeiladu tai. Ar ôl dechrau, gall cyfraddau adeiladu araf olygu mewn rhai achosion safleoedd sydd heb eu cwblhau ers sawl blwyddyn. Gellir priodoli hyn i gyfansoddiad y diwydiant adeiladu tai ym Mhowys, gyda nifer cyfyngedig o adeiladwyr tai ar raddfa fawr yn bresennol, a ffactorau ehangach y farchnad dai.

Cydnabyddir nad yw pob safle y mae'r CDLI Newydd yn eu nodi ar gyfer datblygiad tai yn debygol o gael eu hadeiladu yn ystod cyfnod y Cynllun. I gyfrif am hyn, ychwanegwyd lwfans hyblygrwydd o 21% i'r gofyniad tai i roi ffigur darpariaeth tai o 4,810. Mae'r lwfans hyblygrwydd yn seiliedig ar gyfradd cyflawni tai CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026) ac fe'i heglurir ym mhapur cefndir y Cyflenwad Tir ar gyfer Tai.

Bodlonir y ffigur darparu tai drwy elfennau y cyflenwad tir ar gyfer tai, fel y dangosir yn Nhabl 7. Mae hyn yn dangos bod 603 o anheddau wedi eu cwblhau ers dechrau'r cyfnod cynllunio (rhes A). Disgwylir i anheddau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (rhes B) ac ymrwymadau tai (rhes D) gyflawni 1,410 o anheddau eraill.

Safleoedd nad ydynt wedi eu neilltuo ar gyfer datblygiad yw hap-safleoedd, a disgwylir iddynt gyfrannu 1,454 o anheddau (rhesi F ac G). Mae dadansoddiad o'r ddarpariaeth tai a gwblhawyd yn ystod y tair blynedd ar ddeg ers mabwysiadu CDLI Powys (2011–2026) yn dangos bod hap-safleoedd bach cyfartalog (safleoedd sy'n llai na phum annedd) wedi darparu 78 o anheddau a gwblhawyd fesul blwyddyn, a bod hap-safleoedd mawr (pum annedd neu fwy) wedi cyfrannu 40 annedd fesul blwyddyn. Ar ôl dadansoddiad ychwanegol, fel y nodir ym mhapur cefndir Cyflenwad Tir ar gyfer Tai (2024), rhagwelir y gallai hap-safleoedd gyfrannu 1,454 o anheddau ychwanegol yn ystod gweddill cyfnod y cynllun.

Y dyraniad tai ar gyfer y CDLI Newydd yw'r 1,343 o anheddau sy'n weddill (rhes E). Nid yw tystiolaeth ategol wedi nodi gofyniad i ddyrannu Safle(oedd) Tai Strategol ar raddfa ranbarthol yn y Strategaeth a Ffefrir, a bydd dyraniadau y safle tai yn cael eu nodi yn ystod cam y Cynllun Adnau.

Dylid nodi bod yr elfennau cyflenwad tir ar gyfer tai yn dueddol i newid ac y byddant yn cael eu hadolygu ar gyfer y Cynllun Adnau.

**Tabl 7. Crynodeb o Ddarpariaeth Tai y CDLI a Dosbarthiad Gofodol Tai Ebrill 2024**

	<b>Elfennau y Cyflenwad Tai</b>	<b>Haen 1</b>	<b>Haen 2</b>	<b>Haen 3</b>	<b>Haen 4</b>	<b>Haen 5</b>	<b>Haen 6/ Cefn Gwlad Agored</b>	<b>Cyfansymiau</b>
<b>A</b>	Cyfanswm y tai a gwblhawyd (2022–2024) (safleoedd bach a mawr*)	141	98	179	28	57	100	603
<b>B</b>	Ymrwymadau Tai Safleoedd Mawr*—Unedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	395	42	119	73	18	9	656
<b>C</b>	Ymrwymadau Tai Safleoedd Mawr*—Unedau nad ydynt wedi eu dechrau	585	245	443	16	53	5	1,347
<b>D**</b>	Ymrwymadau Tai Safleoedd Mawr*—Nad ydynt wedi eu dechrau (rhes C tynnu'r lwfans am fethu â chyflawni)	327	137	248	9	30	3	754
<b>E</b>	Dyraniadau Tai Newydd	700	200	400	43	0	0	1,343
<b>F</b>	Yr unedau a ragwelir ar hap-safleoedd mawr* (13 blynedd yn weddill)	157	90	115	28	27	23	440
<b>G</b>	Yr unedau a ragwelir ar hap-safleoedd bach* (13 blynedd yn weddill)	238	71	140	30	101	434	1,014
<b>H</b>	<b>Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai (rhesi A, B, D, E, F ac G)</b>	<b>1,958</b>	<b>638</b>	<b>1201</b>	<b>211</b>	<b>233</b>	<b>569</b>	<b>4,810</b>
	<b>% y Dosbarthiad o'r Cyfanswm</b>	<b>41%</b>	<b>13%</b>	<b>25%</b>	<b>4%</b>	<b>5%</b>	<b>12%</b>	<b>100%</b>

\*Mae safle mawr yn cyfateb i bump neu fwy o unedau preswyl.

\*\*Nid yw pob safle sydd â chaniatâd cynllunio wedi ei ddatblygu na'i ddatblygu'n llawn, ac o ganlyniad nid yw'r holl anheddau a ganiateir yn dod yn dai newydd sydd wedi eu cwblhau. I gyfrif am hyn, cymhwyswyd lwfans methu â chyflawni o 44% i Res C, a chyflwynir y canlyniadau yn Rhes D. Mae'r 44% yn seiliedig ar gyfradd sy'n manteisio ar anheddau sydd ar Ymrwymadau Tai a gynhwysir yn y CDLI Mabwysiedig (2011–2026).

## 9.4 Tai Fforddiadwy ac Arbenigol

Diwallu anghenion tai fforddiadwy ac arbenigol yw Amcanion y CDLI Newydd.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol (2024) yn nodi, ar gyfer y cyfnod 2022–2037, fod angen 1,036 o gartrefi fforddiadwy newydd, sef 69 o gartrefi fesul blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- 700 o unedau llety rhent cymdeithasol.
- 336 o unedau tai rhent canolradd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn, rhagwelir y bydd y cyflenwad tir ar gyfer tai presennol a nodir ym Mholisi Strategol SP4—Twf Tai, ynghyd â dyraniadau newydd, yn cyflawni o leiaf 1,036 o anheddau fforddiadwy drwy'r system gynllunio yn ystod cyfnod y Cynllun. Cynhwysir manylion am y cyfraniadau at dai fforddiadwy o'r cyflenwad tir ar gyfer tai presennol a'r rhai sy'n deillio o'r hap-safleoedd a ragwelir yn y Papur Cefndir Cyflenwad Tir ar gyfer Tai.

Mae Polisi SP5 yn nodi'r polisi strategol i gyflawni tai fforddiadwy ac arbenigol.

### **Polisi Strategol SP5—Cartrefi Fforddiadwy ac Arbenigol**

**Yn ystod cyfnod Cynllun 2022–2037, bydd y CDLI Newydd yn optimeiddio darpariaeth 1,036 o anheddau fforddiadwy newydd drwy'r mesurau a ganlyn:**

- **Pennu trothwyon a thargedau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad tai gyfrannu at ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â thystiolaeth hyfywedd.**
- **Gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd fforddiadwy dan arweiniad tai yn ôl yr angen.**
- **Darparu fframwaith ar gyfer galluogi tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol, gan gynnwys ar safleoedd eithriedig.**

**Bydd cynigion datblygu ar gyfer llety anghenion arbenigol (megis gofal a chymorth neu lety i bobl hŷn) yn cael eu cefnogi.**

**Disgwylir i bob cynllun preswyl ddilyn egwyddorion creu lleoedd er mwyn darparu cymysgedd addas o ddeiliadaethau, mathau, meintiau tai, a sicrhau eu bod eu dyluniad yn addas. Hefyd, bydd y Cynllun yn ceisio sicrhau cyfran o Gartrefi Gydol Oes ar ddatblygiadau tai marchnad er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ardal y Cynllun a gwasanaethu'r rhai sydd ag anableddau.**

Darperir polisiâu a chynigion manwl yn y Cynllun Adnau sy'n nodi trothwyon, targedau a dyraniadau safle a byddant yn seiliedig ar ganlyniad y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar waith hyfywedd datblygu.

Er mwyn cyfrannu at y targed Cartrefi Fforddiadwy, bydd safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy yn cael eu cynnwys yn y CDLI Newydd yn ôl yr angen. Caiff safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy eu diffinio fel rhai y mae o leiaf 50% o'r cartrefi ar safle yn fforddiadwy.

Darperir cartrefi fforddiadwy ar raddfa gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Cyngor Sir a bydd prosiectau llai megis cartrefi a arweinir gan y gymuned, tai cydweithredol a hunanadeiladu yn cael eu cefnogi ar yr amod bod y cartrefi'n cael eu sicrhau am byth i'r rhai na allant fforddio tai marchnad.

Yn gyffredinol, disgwylir i gynlluniau tai marchnad agored ddarparu elfen o dai fforddiadwy a fydd yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion mewn ardal marchnad tai, gan ystyried hyfywedd datblygu.

Mae'r CDLI Newydd yn cefnogi llety arbenigol i ddiwallu, er enghraifft, yr anghenion sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio neu lety â chymorth fel y nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol (2024). Mae Cyngor Sir Powys hefyd yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion tai pobl ddigartref, ac mae hyn yn cynnwys rhaglen cynlluniau tai cymdeithasol a adeiledir o'r newydd. Bydd lefelau digartrefedd yn cael eu monitro drwy'r Fframwaith Monitro a fydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adnau.

## 9.5 Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

### **Polisi Strategol SP6—Llety Sipsiwn a Theithwyr**

**Bydd y CDLI Newydd yn darparu ar gyfer 12 llain Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol yn ardal y Trallwng.**

**Bydd cynigion am safleoedd a charafanau Sipsiwn a Theithwyr parhaol neu dros dro (byrhoedlog neu ar daith), i ddiwallu angen lleol profedig nas diwellir, yn cael eu cefnogi pan leolir safleoedd mewn lleoliadau cynaliadwy.**

Bydd tir ar gael i ddarparu ar gyfer anghenion tymor byr nas diwellir am lety Sipsiwn a Theithwyr fel y nodir yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf (2021). Gwneir darpariaeth ar gyfer 12 llain preswyl ychwanegol i wasanaethu anghenion yn ardal y Trallwng o fewn 5 mlynedd gyntaf cyfnod y Cynllun. Bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys dyrannu safle i ddiwallu'r angen a aseswyd.

Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2021 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Cafodd canfyddiadau yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr eu llywio a'u diweddarau ymhellach gan dystiolaeth mwy diweddar yn deillio o Wasanaeth Tai y Cyngor a ymgysylltodd yn uniongyrchol â'r teuluoedd yn 2023 i drafod canlyniadau yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a sut y dylid eu dehongli a'u gweithredu. Cytunwyd ar y ffigur ar gyfer anghenion nas diwellir ar ddigwydd yn ardal y Cynllun (12 llain) mewn egwyddor drwy ohebiaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd dull polisi cadarnhaol yn cefnogi anghenion tymor hwy ac annisgwyl.

## 9.6 Cyflogaeth a'r Economi

### **Polisi Strategol SP7—Twf Cyflogaeth**

**Er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth yn ystod cyfnod Cynllun 2022–2037 a manteisio gymaint â phosibl ar y cyfleoedd a gyflwynir gan Fargen Twf Canolbarth Cymru a mentrau adfywio eraill, bydd y Cynllun yn nodi 40 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1 (Swyddfa a Diwydiant Ysgafn), B2 (Diwydiannau Cyffredinol) a B8 (Dosbarthu a Storio).**

**Dosberthir y 40 hectar o dir cyflogaeth ledled yr ardaloedd marchnad masnachol canlynol, yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy:**

- Meingefn Gogleddol yr A483
- Ardaloedd Ffin
- Canol Powys
- Y Gorllewin Gwledig
- I'r De o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Cyflawnir y 40 hectar drwy 8.16 hectar yn y cyflenwad neilltuedig a 32 hectar o safleoedd cyflogaeth newydd.**

Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Cyflogaeth (2024) er mwyn darparu asesiad o'r cyflenwad a'r galw am dir cyflogaeth yn ardal y Cynllun. Edrychodd ar y safleoedd cyflogaeth sydd ar gael a'r ardaloedd cyflogaeth presennol er mwyn deall yr ochr gyflenwi, ac adolygodd y farchnad eiddo, gan ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a rhagweld y twf cyflogaeth, er mwyn deall yr ochr alw. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau ddarparu safleoedd cyflogaeth sydd wedi eu cysylltu'n dda, sy'n lleihau'r angen i deithio ac yn cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy. Noda'r Asesiad Anghenion Cyflogaeth hwn, a lywiwyd gan bolisi cenedlaethol, bum maes marchnad masnachol a gyflwynir yn Ffigur 9.

Argymhella'r Asesiad Anghenion Cyflogaeth y dylai pum ardal marchnad masnachol, sy'n canolbwyntio ar Haen 1 a rhai aneddiadau Haen 2, fod yn ganolbwynt ar gyfer darparu tir cyflogaeth newydd a ddyrennir er mwyn cefnogi defnydd yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8.

Yn seiliedig ar y cyfraddau a fanteisiodd ar hyn yn y gorffennol, gyda lwfans ychwanegol ar gyfer cyflenwad cyfyngedig, dengys yr Asesiad Anghenion Cyflogaeth, i ddiwallu anghenion cyflogaeth rhwng 2022 a 2037, y dylai'r Cynllun ddarparu ar gyfer 40 hectar o dir at ddibenion cyflogaeth yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8. Mae hefyd o'r farn y byddai darparu 40 hectar o dir cyflogaeth yn rhoi digon o hyblygrwydd i allu manteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd y mae Bargen Twf Canolbarth Cymru ac unrhyw fentrau adfywio eraill yn eu cyflwyno.

Mae'r Adroddiad Tystiolaeth Demograffig yn rhagweld y gallai maint y gweithlu weld cynnydd o 153 o bobl y flwyddyn, sef 2,295 ar gyfer cyfnod 2022–2037, ar sail y strategaeth twf a ffefrir. Bydd darparu 40 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer diwydiannau Dosbarth B yn cefnogi rhywfaint o'r cynnydd hwn, er y bydd twf yn digwydd mewn sectorau eraill.

Dengys Tabl 8 sut y bydd y ddarpariaeth o 40 hectar o dir yn cael ei chyflawni ledled yr Ardaloedd Marchnad Masnachol.

**Tabl 8. Crynodeb o Ddarpariaeth Cyflogaeth y CDLI Newydd a'r Dosbarthiad Gofodol ledled yr Ardaloedd Marchnad Masnachol**

<b>Ardaloedd Marchnad Masnachol</b>	<b>Cyflenwad Neilltuedig (ha)</b>	<b>Dyraniadau Cyflogaeth Newydd (ha)</b>	<b>Cyfanswm y Ddarpariaeth Gyflogaeth</b>
<b>Meingefn Gogleddol yr A483</b>	1.84	13	<b>14.84</b>
<b>Ardaloedd Ffin</b>	0.23	6	<b>6.23</b>
<b>Canol Powys</b>	3.72	3	<b>6.72</b>
<b>Y Gorllewin Gwledig</b>	0.45	5	<b>5.45</b>
<b>I'r De o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</b>	1.28	5	<b>6.28</b>
<b>Arall</b>	0.64	0	<b>0.64</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>8.16</b>	<b>32</b>	<b>40.16</b>



Bydd polisiâu manwl, ardaloedd gwarchod cyflogaeth a dyraniadau safle yn dilyn yn y Cynllun Adnau. Bydd hyn yn cynnwys mesurau sy'n cydnabod natur ddeinamig cynigion cyflogaeth a thwf busnes, mewn Ardaloedd Marchnad Masnachol a, phan fo hynny'n angenrheidiol, i gefnogi'r economi wledig.

Er mwyn cefnogi'r economi wledig a chymunedau gwledig cynaliadwy, bydd cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach, gan gynnwys mentrau ffermio, tyfu a gwledig yng nghefn gwlad pan gyfiawnheir hynny, yn cael eu hwyluso.

## 9.7 Adwerthu a Chanol Trefi

### **Polisi Strategol SP8—Y Cynnydd Adwerthu**

Ni noda'r asesiad anghenion adwerthu meintiol ac ansoddol ar gyfer ardal y Cynllun unrhyw ofyniad i ddyrannu safleoedd newydd ar gyfer datblygiad manwerthu. Dylai unrhyw angen ychwanegol am gyfleustra ac arwynebedd llawr cymharu gael ei letya mewn eiddo gwag presennol. Os nad oes safle addas ar gael, yna mae'n rhaid i geisiadau am ddatblygiadau adwerthu newydd ddangos cydymffurfiaeth â'r profion dilyniannol ac effaith a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol.

Anogir cyfleoedd ailddatblygu yng nghanol trefi pan ellir darparu defnyddiau masnachol mewn ffordd na fydd yn gwneud drwg i ddefnyddiau canol trefi yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Adwerthu (2024) i lywio'r CDLI Newydd. Ystyriodd yr Asesiad y capasiti am ddatblygiad adwerthu yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod 2022–2037. Daw i'r casgliad, er y bo angen ychydig o arwynebedd llawr cymharu ychwanegol tua diwedd cyfnod y Cynllun, y byddai'n annhebygol o fod yn ddigonol i gynhyrchu gofyniad i safleoedd newydd gael eu dyrannu, gan gynnig yn lle hynny y posibilrwydd o ddod ag arwynebedd llawr gwag yn ôl i ddefnydd adwerthu.

### **Polisi Strategol SP9—Hierarchaeth Canol Trefi**

Yr Hierarchaeth Canol Trefi ar gyfer y CDLI Newydd yw:

- Canolfan Isranbarthol—Y Drenewydd
- Prif Drefi—Y Trallwng, Llanidloes, Llandrindod, Machynlleth a Llanfair-ym-Muallt
- Trefi Eilradd—Rhaeadr, Trefyclo, Ystradgynlais a Llanandras
- Trefi Lleol—Llanfyllin, Trefaldwyn, Llanfair Caereinion a Llanwrtyd

Dylai cynigion am ddatblygiadau adwerthu newydd neu well, neu ddefnyddiau eraill sy'n ategu canolfannau adwerthu a masnachol, megis y rhai sy'n ymwneud â hamdden, diwylliant ac adloniant, gael eu canolbwyntio yn y Canol Trefi diffiniedig.

Dylai datblygiadau fod yn gyson o ran graddfa a natur â maint a chymeriad Canol y Dref a'i rôl yn yr hierarchaeth. Ni chaniateir cynigion a fyddai'n tansilio'r hierarchaeth canol trefi.

Rhaid i gynigion gynnal neu wella egni, bywiogrwydd ac apêl Canol y Dref.

Mae'r strategaeth yn cefnogi Canol Trefi presennol ardal y Cynllun drwy ddiogelu ac annog darpariaeth adwerthu a defnyddiau ategol eraill megis y rhai sy'n ymwneud â hamdden, diwylliant

ac adloniant mewn lleoliadau priodol a chynaliadwy. Ceir yr holl Ganol Trefi mewn aneddiadau Haen 1 neu Haen 2 ac maent yn elwa ar amrywiaeth o gyfleoedd trafndiaeth cynaliadwy.

Er mwyn llywio'r CDLI Newydd, cynhaliwyd Adolygiad Adwerthu (2023) ar gyfer ardal y Cynllun. Adolygodd Hierarchaeth Adwerthu CDLI Powys (2011–2026), gan ystyried y polisi a'r canllawiau cynllunio diweddaraf a graddfa ac amrywiaeth y canolfannau adwerthu. Roedd hyn yn cynnwys cynnal 'prawf iechyd' cynhwysfawr a ystyriodd fath a nifer y cynigion adwerthu ar gyfer pob un o'r canolfannau. Er yr ystyriwyd bod hierarchaeth y CDLI Mabwysiedig (2011–2026) yn gadarn ar y cyfan, canfuwyd y byddai'n elwa ar ddiweddariad, yn enwedig er mwyn adlewyrchu dull rhanbarthol.

Canfu'r Adolygiad Adwerthu fod gan y Drenewydd nodweddion unigryw ac y byddai'n cael ei chategoreiddio'n fwy priodol fel Canolfan Isranbarthol yn gydnaws ag Aberystwyth yng Ngheredigion. Hefyd, nodi'r astudiaeth fod gan Bowys bum Prif Dref—Y Trallwng, Llanidloes, Llandrindod, Machynlleth a Llanfair-ym-Muallt—sy'n gwasanaethu ardaloedd gofodol mawr ac yn diwallu'r anghenion am siopau a gwasanaethau lleol nas diwellir mewn trefi llai eraill. Mae'r Trefi Eilradd a nodir yn cynnwys Rhaeadr, Trefyclo, Ystradgynlais a Llanandras. Nodwyd bod y Trefi Eilradd ar raddfa lai a bod dalgylchoedd lleol llai na'r Prif Drefi yn diwallu anghenion lleol yn nodweddiadol gyda rhywfaint o ddarpariaeth arbenigol. Argymhella'r Adolygiad hefyd y dylid ategu'r hierarchaeth â Threfi Lleol sy'n darparu eitemau hanfodol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd; nodir mai Llanfyllin, Trefaldwyn, Llanfair Caereinion a Llanwrtyd yw'r trefi hyn.

Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod yr angen er iechyd ac egni canol trefi i adlewyrchu eu natur amlswyddogaethol ac i fod yn ganolbwynt ar gyfer twf ac adfywiad. Bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys mapiau sy'n dangos ffiniau Canol y Dref.

Mae'r mathau o ddefnyddiau eraill yr ystyrir eu bod yn ategu adwerthu ac felly'n briodol mewn canolfannau adwerthu a masnachol yn cynnwys:

- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2).
- Bwyd a diod (A3).
- Swyddfeydd (B1).
- Gwestai (C1).
- Sefydliadau addysgol a sefydliadau amhreswyl eraill (D1).
- Hamdden (D2).
- Defnyddiau eraill megis golchdai a theatrau.

Gall canol trefi wynebu pwysau datblygu, boed o ddatblygiadau ymylol neu ddatblygiadau y tu allan i ganolfannau, neu newid defnydd a cholli gweithgarwch o'r stryd fawr. Mae gan ganolfannau o wahanol raddfa a swyddogaeth yn yr hierarchaeth raddfeydd gwahanol hefyd o ran cyfle gyda'r posibilrwydd o gefnogi eu hadfywiad, eu twf a'r dull 'rhoi canol trefi yn gyntaf'. Bydd yr ardaloedd pwysicaf yn y Canolfan Isranbarthol a'r Prif Drefi yn cael eu diogelu â pholisïau ardaloedd prif ffryntiadau siopa a ffryntiadau siopa eilaidd y manylir arnynt yn y Cynllun Adnau. Ceisir cyfleoedd i adfywio a gwella'r amgylchedd adwerthu ac i wella mynediad i Ganol Trefi ac mewn Canol Trefi gan ddefnyddio pob dull teithio, gan flaenoriaethu cerdded, beicio (teithio llesol) a thrafnidiaeth gyhoeddus.



## 9.8 Twristiaeth Gynaliadwy

### Polisi Strategol SP10—Twristiaeth Gynaliadwy

Mae'r CDLI Newydd yn cefnogi cynigion datblygu sy'n darparu a/neu'n gwella ffurfiau twristiaeth gynaliadwy pan:

- Maent wedi eu lleoli yn gynaliadwy ac yn briodol.
- Maent yn dangos egwyddorion dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel.
- Maent yn darparu seilwaith digonol ac yn cael eu gwasanaethu gan seilwaith digonol fel nad ydynt yn cael effaith andwyol annerbyniol ar gymunedau presennol.
- Maent yn cyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol.
- Nad ydynt yn cael effeithiau andwyol annerbyniol ar dirwedd Powys.
- Maent yn gwella'r economi ymwelwyr.
- Maent yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol neu'n cyfrannu at amrywiaeth wledig.

Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion twristiaeth presennol na'u lleoliadau.

Mae ansawdd uchel, harddwch ac amrywiaeth tirwedd Powys, ynghyd â'i hanes a'i diwylliant, yn creu ardal o apêl fawr sydd â photensial enfawr am dwristiaeth gwerth uchel. Mae'r CDLI Newydd yn ceisio cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gan sicrhau ei fod yn gwarchod (gan gynnwys gofalu, gwella ac adfer) adnoddau ac asedau pwysig sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, megis yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, llwybrau cenedlaethol, hawliau tramwy cyhoeddus, y rhwydwaith beicio cenedlaethol, awyr dywyll, tirweddau unigryw a mannau agored.

Bydd y Cynllun Adnau yn darparu fframwaith polisi manwl sy'n cefnogi datblygiad twristiaeth, hamdden ac adloniant priodol, gan geisio diogelu a gwella cyfleusterau presennol, er budd preswylwyr, ymwelwyr a'r economi leol.

Mae presenoldeb ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ym Mhowys yn tueddu i fod yn fwy cyffredin mewn nifer bach o gymunedau gwledig, yn hytrach na bod yn fater ledled y sir. Noda papur cefndir Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr fannau problemus posibl lle mae cyfran yr eiddo a ddefnyddir fel ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr yn fwy na throthwy o 10%. Bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys polisi sy'n cyfyngu ar y defnydd o anheddau newydd fel prif breswylfeydd drwy ddefnyddio amodau cynllunio.

## 10. Y Fframwaith Strategol Ehangach

Mae'r fframwaith strategol ehangach yn darparu'r polisiau strategol sy'n cefnogi ac yn galluogi'r Strategaeth a Ffefrir a'r CDLI Newydd i gael eu cyflawni yn eu cyfanrwydd. Mae'r Polisiau Strategol canlynol yn ymateb i'r Weledigaeth a'r Amcanion a byddant yn berthnasol ar gyfer penderfynu ar yr holl gynigion datblygu a wneir i'r ACLI hyd at 2037.

### 10.1 Seilwaith i Wasanaethu Datblygiad Newydd

#### **Polisi Strategol SP11—Seilwaith**

**Mae'n rhaid i gynigion datblygu gael eu hategu gan seilwaith presennol digonol neu seilwaith newydd.**

**Pan nad yw cynigion datblygu yn gallu dangos bod capasiti digonol yn y seilwaith presennol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad arfaethedig, bydd angen i gynigion ddangos bod trefniadau a chyllid addas ar waith i ddarparu'r capasiti seilwaith yr ystyrir sy'n angenrheidiol i hwyluso'r datblygiad mewn modd amserol.**

**Yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod effeithiau cynigion datblygu yn cael sylw llawn a gwneud cynigion datblygu yn dderbyniol, bydd cyfraniadau ar gyfer seilwaith yn cael eu sicrhau gan Amod Cynllunio neu Rwymedigaeth Gynllunio. Mewn achosion pan nad yw darpariaeth neu liniaru ar y safle yn briodol, gellir ceisio darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniad ariannol.**

Mae'n hanfodol darparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau priodol er mwyn sicrhau bod polisiau a chynigion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Mae seilwaith priodol yn allweddol i hwyluso datblygiad, ond mae hefyd yn angenrheidiol i gefnogi'r anghenion a'r gofynion cyfredol sy'n codi o'r datblygiad a'r cymunedau cynaliadwy.

Efallai y bydd angen amrywiaeth o seilwaith a bydd yn amrywio yn ôl natur, math, graddfa a lleoliad y datblygiad a chapasiti'r ddarpariaeth seilwaith presennol. Wrth ystyried anghenion y cynigion datblygu, efallai y bydd angen cyfraniadau tuag at y seilwaith, y gwasanaethau a'r chyfleusterau a ganlyn:

- Priffyrdd a chyfleusterau trafndiaeth eraill gan gynnwys trafndiaeth gynaliadwy, trafndiaeth gyhoeddus, Teithio Llesol a llwybrau cerdded a beicio eraill.
- Tai Fforddiadwy.
- Mannau Agored Cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a glas.
- Gwasanaethau cyfleustod, gan gynnwys uwchraddio a gwelliannau i Waith Trin Dŵr Gwastraff a seilwaith Cyflenwi Dŵr.
- Lliniaru'r Gymraeg.
- Ysgolion a chyfleusterau addysgol a hyfforddiant eraill.
- Bioamrywiaeth, a diogelu a gwella'r amgylchedd.
- Cyfleusterau cymunedol.
- Seilwaith Digidol.
- Cyfleusterau a gwasanaethau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

Mae'r CDLI Newydd wedi ei lywio gan Gynllun Seilwaith a fydd yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y seilwaith sydd ei angen i hwyluso'r gwaith o gyflawni safleoedd penodedig.

Bydd rhagor o fanylion am gyfraniadau cynllunio yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adnau, gan ystyried hyfywedd datblygu a chost mesurau sy'n angenrheidiol i gyflawni datblygiad yn ffisegol, er mwyn sicrhau ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Bydd y CDLI Newydd yn cael ei gefnogi gan arfarniad hyfywedd datblygu a danategir gan ragdybiaethau perthnasol a chadarn. Dylai hyn ddileu'r angen am ragor o asesiadau hyfywedd yn ystod y cam ceisiadau cynllunio, sy'n golygu mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd trafodaethau hyfywedd yn cael eu cynnal. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r arfarniad hyfywedd yn cynnwys cyllid wrth gefn priodol ar gyfer cyfraniadau seilwaith yn unol â'r polisi hwn.

## 10.2 Newid Hinsawdd

### **Polisi Strategol SP12—Newid Hinsawdd**

**Rhaid i bob cynnig datblygu ymateb yn gadarnhaol i heriau newid hinsawdd drwy ddangos ei fod yn lliniaru ei achosion ac yn addasu i'w effeithiau.**

**Bydd achosion newid hinsawdd yn cael eu lliniaru drwy sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn gwneud yr hyn a ganlyn:**

- A. Cyfrannu at ddatgarboneiddio â'u lleoliad, eu dyluniad, wrth gael eu hadeiladu, â chymysgedd o ddefnyddiau a, thrwy ddilyn egwyddorion creu lleoedd.**
- B. Dilyn yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy gan gynnwys, pan fo hynny'n briodol, darparu seilwaith gwefru Cerbydau Allyriadau Isel lawn.**
- C. Hybu egwyddorion economi cylchol drwy flaenoriaethu ailddefnyddio adeiladau presennol ac adeiladu adeiladau sy'n fwy addasadwy a pharhaol.**
- D. Manteisio gymaint â phosibl ar effeithlonrwydd adnoddau a thechnegau adeiladu cynaliadwy, gan gynnwys ailddefnyddio deunyddiau adeiladu a chael gafael ar ddeunyddiau yn lleol.**
- E. Cynnwys egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy, gan ymgorffori technegau adeiladu goddefol pan fo hynny'n bosibl.**
- F. Archwilio safonau adeiladu a dylunio sy'n uwch na'r rhai a bennir trwy reoliadau adeiladu fel bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei optimeiddio, ac y gellid lleihau costau rhedeg gweithredol.**
- G. Manteisio gymaint â phosibl ar y cyfleoedd atafaelu carbon sy'n deillio o seilwaith gwyrdd.**
- H. Hybu'r broses o optimeiddio dewisiadau cyflenwi a dosbarthu ynni, gan gynnwys ystyried rhwydweithiau lleol a darparu rhwydweithiau gwresogi ardal.**

**Bydd cynigion datblygu newydd yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy wneud yr hyn a ganlyn:**

- Bod yn gydnaws â'r dull ar sail risg o ymdrin â llifogydd, o osgoi, rheoli a lliniaru'r perygl o lifogydd o bob ffynhonnell (gan gynnwys dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin) ac ymgorffori mesurau fel y bo'n briodol (megis draenio cynaliadwy a dyluniadau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd) gan flaenoriaethu atebion ar sail natur.**
- Ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr a lleihau gymaint â phosibl effeithiau andwyol ar adnoddau ac ansawdd dŵr.**
- Cael eu cynllunio i ymateb i hinsawdd sy'n newid.**
- Cael eu dylunio i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd gan ddefnyddio atebion seilwaith gwyrdd (e.e. atebion sy'n gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth,**

**yn darparu manau gwyrdd a chysylltedd, yn hybu cysgodi ac oeri trefol, neu'n cyfrannu at reoli adnoddau dŵr yn well).**

**Bydd yn ofynnol i Ddatblygiadau Mawr ddod gydag Adroddiadau Ynni i ddangos eu bod yn cydymffurfio â maen prawf E. Pan gynigir dymchwel adeilad presennol yn hytrach na'i aildefnyddio, bydd angen Asesiadau Carbon Bywyd Cyfan i sicrhau cydymffurfiaeth â maen prawf C.**

Mae Polisi SP12 yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd yn ymateb i newid yn yr hinsawdd drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- Lliniaru: sicrhau bod y dyluniad a'r gwaith adeiladu yn lleihau allyriadau carbon gymaint â phosibl, gan gynnwys mesurau i leihau'r ynni a ddefnyddir; ac
- Addasu: sicrhau cydnherthedd i newidiadau patrymau tywydd a ragwelir, gan gynnwys digwyddiadau tywydd mwy eithafol megis llifogydd a gorboethi.

Mae effeithlonrwydd adnoddau ynni, gwres a dŵr yn elfen hanfodol o ddyluniad da (gweler Polisi SP16) a bydd lleihau'r galw am adnoddau yn helpu i gyflawni targedau mynd i'r afael â newid hinsawdd y DU, yn osgoi ôl-osod cartrefi newydd, yn lleihau pwysau ar adnoddau lleol megis cyflenwad dŵr ac yn lleihau costau rhedeg adeiladau yn yr hirdymor.

Bydd yn rhaid i ddatblygiad newydd ystyried a oes cyfleoedd i gyflawni safonau adeiladu cynaliadwy uwch, gan gynnwys di-garbon a pholisïau mwy manwl ar fesurau effeithlonrwydd, gan gynnwys gofynion Adroddiadau Ynni, a nodir yn y Cynllun Adnau.

Er mwyn sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, pryd bynnag y bo modd, dylai datblygiadau ddefnyddio agregau eilaidd ac wedi eu hailgylchu yn rhan o'r broses adeiladu. Pryd bynnag y bo modd, dylid gwneud hyn heb fynd â deunyddiau oddi ar y safle. Nodir polisi manwl ar gyfer Asesiadau Carbon Bywyd Cyfan yn y Cynllun Adnau ar gyfer amgylchiadau pan fo'n briodol disodli adeilad ar sail tystiolaeth ategol y gallai'r adeilad newydd allyrru llai o garbon na'r hyn a allyrrir trwy gadw ac addasu'r strwythur gwreiddiol.

Bydd atebion ar sail natur yn cael eu cefnogi ac mae mesurau megis toeau gwyrdd a lleiniau clustogi yn cynnig manteision lluosog, er enghraifft, drwy gefnogi mantais net i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd.

### 10.3 Trafnidiaeth Gynaliadwy

#### **Polisi Strategol SP13—Trafnidiaeth Gynaliadwy mewn Aneddiadau Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol a Chlwstwr Lleol**

**Rhaid i gynigion datblygu mewn anheddiad mewn Clwstwr Ardal Twf Rhanbarthol neu Glwstwr Lleol gael eu cynllunio a'u lleoli mewn ffordd sy'n sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli a'u dylunio mewn ffordd sy'n lleihau gymaint â phosibl yr angen i deithio, yn lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat ac sy'n galluogi mynediad cynaliadwy i gyflogaeth, gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol.**


**Mae'n rhaid i ddatblygiadau gael eu hategu gan seilwaith a mesurau trafndiaeth priodol, ac yn ddibynnol ar natur, graddfa a lleoliad y cynnig, bydd yn ofynnol iddynt:**

- Gydweddu â'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer cynllunio.
- Cael eu cynllunio i ddarparu mynediad diogel ac effeithlon i'r rhwydwaith trafndiaeth, sy'n cynnwys rhwydweithiau Teithio Llesol, trafndiaeth gyhoeddus a strydoedd.

- **Gwarchod, gwella ac ehangu'r rhwydweithiau Teithio Llesol a nodir ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Presennol ac Arfaethedig y Cyngor, gan gynnwys cysylltiadau â'r rhwydweithiau hynny fel modd o wella cysylltedd.**
- **Blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni unrhyw fesurau a chynlluniau trafndiaeth allweddol a nodir mewn cynlluniau a strategaethau rhanbarthol a lleol.**
- **Lleihau dibyniaeth ar ddefnyddio cerbydau preifat drwy fanteisio gymaint â phosibl ar y posibilrwydd o symud i/o'r datblygiad ar drafndiaeth gyhoeddus. Bydd datblygiad mewn aneddiadau Haen 1 a Haen 2 yn cael eu gwasanaethu gan lwybr cerdded sy'n arwain at rwydweithiau trafndiaeth cyhoeddus.**
- **Mabwysiadu dull o greu lleoedd wrth nodi, dylunio a chyflawni'r holl fesurau trafndiaeth er mwyn cynyddu gymaint â phosibl eu cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy.**
- **Darparu seilwaith trafndiaeth newydd a mesurau gwella er mwyn lliniaru effaith y datblygiad a dangos lefel a derbynoldeb yr effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd cyfagos.**
- **Helpu i leihau'r llygredd a drosglwyddir trwy'r awyr sy'n gysylltiedig â thrafndiaeth drwy alluogi dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a lleihau teithiau mewn cerbydau modur preifat.**
- **Sicrhau bod datblygiadau'n cael eu gwasanaethu gan ddarpariaeth parcio priodol, gan gynnwys seilwaith sy'n darparu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol megis manau gwefru cerbydau trydan, ardaloedd cylchredeg a ffyrdd o led ddigonol i ganiatáu mynediad i gerbydau gwasanaeth.**

**Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith negyddol ar weithrediad diogel ac effeithlon y rhwydwaith trafndiaeth.**

Mae PCC yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r Hierarchaeth Trafndiaeth Gynaliadwy (Ffigur 11) fod yn egwyddor allweddol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Mae'r hierarchaeth drafndiaeth yn blaenoriaethu cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus cyn defnyddio cerbydau modur preifat. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod bod gan Gerbydau Allyriadau Isel lawn rôl bwysig i'w chwarae o ran datgarboneiddio trafndiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus yn gyfyngedig.

**Ffigur 11—Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllunio**

Mae papur cefndir Cynllunio a Thrafnidiaeth Integredig sy'n cefnogi'r CDLI Newydd yn ystyried cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy ledled ardal y Cynllun. Hefyd, mae'r methodolegau Asesiad o Aneddiadau a Dadansoddiad Clwstwr wedi eu cynllunio i roi blaenoriaeth i hybu'r aneddiadau sydd â'r ystod uchaf o gyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy yn unol â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ac i leihau'r angen i deithio.

Mae'r CDLI Newydd yn canolbwyntio mwyafrif y twf i aneddiadau haenau uwch naill ai mewn Clystyrau Ardal Twf Rhanbarthol neu mewn Clystyrau Lleol. Mae'r strategaeth yn hybu'r cysyniad o 'Fyw'n Lleol', lle mae'r rhan fwyaf o'r datblygiad newydd o fewn pellter cerdded/beicio neu daith fer ar drafnidiaeth gyhoeddus i wasanaethau allweddol bob dydd, a fydd yn ei thro yn hybu gweithgarwch corfforol ac iechyd a llesiant y preswylwyr.

Term a ddefnyddir yng nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol i ddisgrifio cerdded, olwyno a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol bob dydd teithiau bob dydd, megis mynd i'r gweithle neu sefydliad addysg ac oddi yno, neu er mwyn defnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd, hamdden ac ati, yw Teithio Llesol.

Mae'r Rhwydwaith Teithio Llesol yn cynnwys Llwybrau Teithio Llesol presennol a'r dyfodol y dylid eu corffori i ddatblygiadau newydd pan fo hynny'n bosibl. Efallai y bydd angen i gynigion datblygu sy'n debygol o gynhyrchu lefelau symud sylweddol wneud darpariaeth am seilwaith Teithio Llesol a fydd yn cael ei sicrhau gan amod cynllunio neu Rwymedigaeth Gynllunio. Gallai hyn gynnwys elfennau o'r seilwaith sydd eu hangen i hwyluso Teithio Llesol o ddatblygiad drwy Lwybr Teithio Llesol yn y Dyfodol, fel y nodir ar y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.

**Polisi Strategol SP14—Trafnidiaeth Gynaliadwy mewn Aneddiadau nad ydynt yn rhan o Glwstwr/Gwledig a Chefn Gwlad Agored**

Rhaid i ddatblygiad mewn Anheddiad nad yw'n rhan o Glwstwr/Gwledig ac yng Nghefn Gwlad Agored lle mae'r gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, gael ei gefnogi gan fesurau a seilwaith trafnidiaeth priodol, a chan ddibynnu ar natur, graddfa a lleoliad y cynnig, bydd angen iddo gyd-fynd â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer cynllunio drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- Corffori atebion dylunio a mynediad mewn datblygiadau sy'n hybu hygyrchedd.
- Darparu llwybrau cerdded, olwyno a beicio sy'n cysylltu eiddo preswyl â gwasanaethau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus.
- Cefnogi'r nifer sy'n manteisio ar Gerbydau Allyriadau Isel lawn, gan gynnwys gosod pwyntiau gwefru cerbydau.
- Lleihau'r angen i deithio drwy wella cysylltedd digidol.
- Hybu mesurau sy'n lleihau'r defnydd o geir preifat, megis rhannu ceir.
- Hwyluso cyfleusterau parcio ger canolfannau trafndiaeth cyhoeddus a fydd yn galluogi rhannau o daith i gael eu gwneud ar drên neu fws.
- Darparu seilwaith trafndiaeth newydd neu well er mwyn lliniaru effaith y datblygiad a dangos lefel a derbynioldeb yr effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd cyfagos.
- Sicrhau bod datblygiadau yn cael eu gwasanaethu gan ddarpariaeth parcio priodol, gan gynnwys ardaloedd cylchredeg a lled ffyrdd digonol i ganiatáu i gerbydau gwasanaeth gael mynediad.

**Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith negyddol ar weithrediad diogel ac effeithlon y rhwydwaith trafndiaeth.**

O ystyried natur wledig ardal y Cynllun, cydnabyddir y gallai cymhwyso rhai elfennau o'r Hierarchaeth Trafndiaeth Gynaliadwy fod yn heriol i rai cynigion datblygu. Mae'r strategaeth yn cyfarwyddo'r rhan fwyaf o'r datblygiadau i aneddiadau sydd ag amrywiaeth o gyfleoedd trafndiaeth cynaliadwy. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleol, cyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy a chefnogi'r economi wledig, mae angen rhywfaint o ddatblygiadau mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wasanaeth yn gyfyngedig o ran teithio llesol a thrafndiaeth gyhoeddus.

Yn y meysydd hyn, bydd angen i gynigion datblygu ddefnyddio dull arall o fodloni'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy, yn unol â Pholisi Strategol SP14. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu cyfiawnhad clir mewn Datganiadau Dylunio a Mynediad i ddangos mesurau a gynhwysir i leihau teithio a dibyniaeth ar gerbydau modur preifat.

Bydd y Cynllun Adnau yn darparu fframwaith polisi manwl ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy a fydd yn cynnwys polisïau ar gyfer gwelliannau i drafndiaeth, safonau priffyrdd a theithio llesol.

## 10.4 Perygl o Lifogydd

### **Polisi Strategol SP15—Perygl o Lifogydd**

**Rhaid cyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle mae perygl o lifogydd a rhaid osgoi cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill. Bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried o'u cymharu â chanllawiau cenedlaethol, gan gynnwys yr angen i roi cyfrif am newidiadau yn yr hinsawdd. Wrth gyfiawnhau cynigion datblygu, efallai y bydd angen asesiad technegol manwl i sicrhau bod y datblygiad wedi ei gynllunio i ymdopi â'r bygythiad o lifogydd ac i liniaru canlyniadau llifogydd yn ystod ei oes. Dylid blaenoriaethu atebion ar sail natur i reoli'r perygl o lifogydd.**



Mae perygl o lifogydd yn fater i lawer o gymunedau Powys lle mae aneddiadau a llwybrau cyfathrebu mawr sydd wedi eu lleoli mewn cymoedd afonydd. Yn ogystal â risg llifogydd afonol, rhaid i gynigion datblygu ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb a llifogydd dŵr daear.

Yn unol â PCC a TAN 15, rhaid cyfeirio datblygiadau a datblygiadau sydd dan fgythiad mawr yn benodol oddi wrth ardaloedd perygl o lifogydd a nodir ar Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru <https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru/>

Rhaid i gynigion ddangos bod unrhyw effeithiau a chanlyniadau sy'n deillio o ddatblygiad yn dderbyniol ac na fyddant yn gwaethygu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill drwy leihau lle storio ar orlifdiroedd, yn cynyddu dŵr ffo nac yn rhwystro llifoedd llifogydd.

Pan fo angen, bydd angen i gynigion datblygu gorffori systemau draenio cynaliadwy priodol sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Mae'r rhain yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy y Cyngor.



## 10.5 Creu Lleoedd a Dylunio Da

### Polisi Strategol SP16—Dylunio Da

Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos cysondeb ag egwyddorion creu lleoedd drwy ddylunio a chyflawni datblygiad a manau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf, drwy:

- Leoli datblygiadau'n briodol lle mae cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn hygyrch ac wedi eu cysylltu'n dda.
- Sicrhau dyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r gwahanolrwydd a'r cymeriad lleol, a'r hunaniaeth diwylliannol lleol.
- Diogelu a, phan fo hynny'n briodol, gwella'r amgylcheddau naturiol, hanesyddol ac adeiledig gan ddangos dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn gweithio gyda'i gilydd i gyfrannu at ansawdd lleoedd.
- Cynyddu cysylltedd drwy lwybrau cerdded, beicio a thrafnidiaeth cyhoeddus byr sy'n groesawus ac yn gynhwysol er mwyn cyrraedd gwasanaethau bob dydd allweddol.
- Creu cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau a manau amlswyddogaethol gan gynnwys cynlluniau tai sy'n cynnig amrywiaeth o fathau tai a deiliadaeth.
- Datblygu dwysedd uchel pan fo hynny'n briodol, gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a chefnogi defnydd cymysg.
- Integreiddio seilwaith gwyrdd i ddatblygiad er budd bywyd gwyllt a phobl.

Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol heb gyfiawnhad, gan gynnwys manau agored a darpariaeth chwaraeon, adeiladau cymunedol, tafarndai, siopau lleol a ffrytiadau adwerthu allweddol mewn canolfannau mwy.

Mae dylunio a chreu lleoedd da yn ystyriaethau pwysig ar gyfer pob cynnig datblygu. Rhaid cynllunio cynigion i gyflawni'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy a ddiffinnir yn PCC er mwyn sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu lleoedd ffyniannus a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion trigolion ac ymwelwyr. Darperir canllawiau ychwanegol gan Gomisiwn Dylunio Cymru a darperir polisi ychwanegol yn y Cynllun Adnau ac fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn sgil mabwysiadu'r CDLI Newydd.

Dylai Datganiadau Dylunio a Mynediad a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio gorffori Datganiad Creu Lleoedd a ddylai fod yn gymesur â natur a graddfa y datblygiad, gan nodi sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r meini prawf a nodir mewn polisi.

### Polisi Strategol SP17—Creu Lleoedd Iach

Bydd pob datblygiad yn ceisio creu lleoedd iach a chynhwysol sy'n lleihau anghydraddoldeb iechyd ac yn gwella cydlyniant cymdeithasol. Cyflawnir hyn drwy:

- Sicrhau bod cynigion datblygu wedi eu cynllunio i hwyluso amgylcheddau iach sy'n hygyrch.
- Cynllunio datblygiadau gyda'r cysyniad o "fyw'n lleol".

- Sicrhau bod pob lle a datblygiad mor gynhwysol â phosibl, sy'n gallu addasu i ystod eang o anghenion newidiol a chyflawni ansawdd bywyd uchel, lle nad oes neb yn cael ei allgáu.
- Galluogi cyfleoedd i gael gafael ar ddewisiadau bwyd iach.
- Diogelu cyfleusterau cymunedol a gofal iechyd newydd a gwell, a chefnogi'r broses o'u darparu.

Bydd cynigion sy'n darparu neu'n gwella cyfleusterau cymunedol, hamdden ac adloniant yn cael eu cefnogi mewn egwyddor (yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl) oherwydd eu bod yn tanategu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol ac yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Cymhwysir dull dilyniannol Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf i gynigion o'r fath.

Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol, hamdden ac adloniant heb gyfiawnhad.

Bydd yn ofynnol cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer datblygiadau mawr, er mwyn ystyried eu goblygiadau iechyd yn llawn.

Gall y system gynllunio a'r datblygiad gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant mewn sawl ffordd. Er enghraifft, drwy ymgorffori cysyniad "Byw'n lleol", gellir gwneud lleoedd yn fwy cynhwysol a deniadol gyda chyfleoedd teithio llesol i amrywiaeth o wasanaethau, sy'n galluogi pobl i fwynhau ffyrdd llesol ac iach o fyw.

Bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda cheisiadau sy'n cynnig datblygiadau mawr (10 annedd neu fwy, ac ati) er mwyn dangos sut mae'r datblygiad wedi ystyried a mynd i'r afael â goblygiadau iechyd. Paratowyd canllawiau ar gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gan Uned Asesu Effaith Iechyd Cymru.

Cefnogir cynigion am gyfleusterau cymunedol, hamdden ac adloniant newydd mewn egwyddor a ffefrir lleoliadau canol tref ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr yn unol â pholisi Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf Cymru'r Dyfodol. Ni fydd colli cyfleusterau o'r fath yn dderbyniol oni bai bod cyfiawnhad, a bydd polisi manwl ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y CDLI Adnau.

## 10.6 Seilwaith Gwyrdd, Adfer Natur a'r Amgylchedd Naturiol

### Polisi Strategol SP18—Adfer Natur

Er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos sut maent yn diogelu, yn rheoli'n gadarnhaol ac yn gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys adfer ecosystemau a gwella cydnerthedd bioamrywiaeth drwy well cysylltedd y cynefinoedd sydd ar y safle a thu hwnt i'r safle.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i'r holl ddatblygiadau wneud yr hyn a ganlyn:

- Dangos y bu mantais net cyffredinol i fioamrywiaeth yn gymesur â natur a graddfa y datblygiad.
- Sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd y DU/Ewropeaidd a ddiogelir yn cael eu diogelu yn unol â gofynion statudol.
- Diogelu cyfanrwydd safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol.
- Cael eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd o werth ecolegol uchel gan gynnwys ardaloedd a nodir fel Llecynnau Cyfoethog o ran Bioamrywiaeth yn Cymru'r Dyfodol.

- **Ymgorffori seilwaith gwyrdd ar gamau cynnar y broses ddylunio, sy'n diogelu ac yn gwella nodweddion presennol y safle ac yn gwella cysylltedd y rhwydwaith ecolegol.**
- **Ymgorffori atebion ar sail natur mewn datblygiadau er mwyn cefnogi bioamrywiaeth a meithrin cydnerthedd ecosystemau ar y safle ac yn yr ardal ehangach.**

**Ni chaniateir datblygu ar safleoedd eraill (heb eu dynodi) na choridorau bywyd gwyllt sydd â gwerth bioamrywiaeth, na rhai sy'n cael effaith andwyol arnynt, oni bai y gellir dangos bod yr angen am y datblygiad yn fwy nag unrhyw niwed a achosir gan y datblygiad ac y gellir darparu mesurau manteision bioamrywiaeth net priodol.**

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch yn ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau—Dyletswydd Adran 6—i awdurdodau cyhoeddus. Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy sicrhau nad yw datblygiadau yn peri unrhyw golled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, ac mae'n rhaid iddynt ddarparu mantais net i fioamrywiaeth.

Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod Powys yn cynnwys llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth a choridorau ecolegol pwysig, gan gynnwys rhai ar raddfa tirwedd, a dylid cyfeirio datblygiadau oddi wrth yr ardaloedd hyn. Mae coridorau seilwaith gwyrdd (gweler Polisi SP20) yn darparu cyfleoedd i rywogaethau fudo a gwasgaru, gan alluogi cyfnewid genetig sy'n gwella cydnerthedd rhywogaethau yn yr amgylchedd ehangach, a dylid diogelu rhwydweithiau o'r fath rhag datblygiadau amhriodol.

Bydd yn ofynnol i bob cynnig datblygu ddangos y gellir cyflawni mantais net i fioamrywiaeth. Mae'r camau gweithredu sy'n darparu mantais net i fioamrywiaeth yn cynnwys creu cynefinoedd newydd, rheoli cynefinoedd diraddiedig presennol yn yr hirdymor, creu coridorau cysylltedd sy'n cysylltu cynefinoedd anghysbell, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at wella cydnerthedd ecosystemau ac yn cefnogi adferiad natur. Rhaid i fanteision fod yn hirdymor, yn fesuradwy, yn ddangosadwy, ac yn bennaf ar y safle.

Mae geoamrywiaeth yn cynnwys asedau megis wynebaw creigiau pwysig, chwareli a thirffurfiau geomorffolegol a phriddoedd pwysig gan gynnwys mawn. Rhaid i gynigion datblygu osgoi niweidio asedau o'r fath, a allai fod o arwyddocâd gwyddonol neu amgylcheddol, yn enwedig os ydynt wedi eu nodi yn rhai sydd o bwys rhanbarthol.

### **Polisi Strategol SP19—Yr Amgylchedd Naturiol**

**Rhaid i gynigion datblygu ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac ni chânt eu caniatáu pan fyddant yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr hyn a ganlyn:**

- **Tir a ddynodir ar lefel rhyngwladol, cenedlaethol a lleol er mwyn diogelu'r amgylchedd.**
- **Cymeriad ac ansawdd tirwedd Powys.**
- **Bioamrywiaeth a chynefinoedd ardal y cynllun.**
- **Ansawdd adnoddau naturiol yr ardal gan gynnwys dŵr, aer a phridd, gan gynnwys mawn.**
- **Cymeriad ac ansawdd cefn gwlad ac adnoddau gwledig yr ardal, gan gynnwys coed, coetiroedd a gwrychoedd.**

Mae gan Bowys fioamrywiaeth bras ac amrywiol gydag ystod eang o rywogaethau, cynefinoedd a thirweddau unigryw, bras gyda safleoedd o bwys rhyngwladol a chenedlaethol ac ardaloedd eraill o bwys rhanbarthol a lleol fel y nodir yn Nhabl 9.

**Tabl 9. Dynodiadau Amgylchedd Naturiol yn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Dynodiad	Math/Ffynhonnell	Y Nifer sydd yn Ardal y Cynllun neu sy'n Croestorri ag Ardal y Cynllun
<b>Ardal Cadwraeth Arbennig</b>	Statudol	13
<b>Ardal Gwarchodaeth Arbennig</b>	Statudol	3
<b>Safleoedd Ramsar</b>	Statudol	1
<b>Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig</b>	Statudol	225
<b>Gwarchodfa Natur Genedlaethol</b>	Statudol	9
<b>Gwarchodfa Biosffer UNESCO</b>	Anstatudol	1—Biosffer Dyfi
<b>Geoparciau UNESCO</b>	Anstatudol	0 (Mae Geoparc Fforest Fawr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)
<b>Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol</b>	Anstatudol	122 (2 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, 119 Safle Bywyd Gwyllt Lleol, 1 arall)
<b>Gwarchodfa Natur Leol</b>	Anstatudol	1
<b>Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol</b>	Anstatudol	105
<b>Ardaloedd Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Posibl (Cymru'r Dyfodol)</b>	Cynllun Datblygu	Mynyddoedd Cambria Y Mynyddoedd Duon Bannau Brycheiniog
<b>Rhwydweithiau ecolegol cadarn/ Mapiau Rhwydwaith Natur (Cyfoeth Naturiol Cymru)</b>	Datganiadau Ardal/Asesiadau Seilwaith Gwyrdd	Polisi sy'n dod i'r amlwg/gwaith cyfredol yn rhan o Gynllun Adnau/Ar y gweill

Yn ogystal â'r dynodiadau amgylchedd naturiol, mae tirwedd Powys yn cwmpasu ardaloedd mawr o dir fferm gyda ffiniau caeau traddodiadol, dyffrynnoedd afonydd, bryn a llwyfandiroedd ucheldirol agored, corysdd mawn ucheldirol, coetiroedd ac ardaloedd o ddŵr agored. Mae Powys wedi cyhoeddi Asesiad Cymeriad Tirwedd sy'n rhoi canllawiau ar sut y dylid ystyried cymeriad y dirwedd wrth ddylunio datblygiadau ac er mwyn llywio penderfyniadau cynllunio. Mae'r Asesiad Cymeriad Tirwedd yn ystyried yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi neu sy'n nodweddiadol ac felly mae'n darparu gwahanolrwydd mewn ardal cymeriad tirwedd penodol ac yn amlygu sensitifrwydd a rhinweddau y gallai datblygiad effeithio arnynt. Mae'r canllawiau'n ceisio sicrhau bod newid yn y dyfodol yn parchu cymeriad lleol. Cefnogir yr Asesiad Cymeriad Tirwedd gan 61 o broffiliau Ardal Cymeriad Tirwedd.

Lleolir 11 o'r 58 o Dirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym Mhowys. Efallai y bydd angen asesu effaith datblygiadau sy'n effeithio ar y tirweddau hyn o dan broses 'Asesu Effaith Datblygu ar Dirweddau Hanesyddol' (ASIDOHL2).

Bydd cynigion datblygu hefyd yn cael eu hystyried o'u cymharu â'r effeithiau y gallent eu cael ar rinweddau neu ddibenion arbennig Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd Tirwedd Cenedlaethol (AHNE) cyfagos. Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Adran 62 (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i warchod a gwella bywyd gwylt, harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol Parciau Cenedlaethol.

Dylid cynnal dyfroedd wyneb a dŵr daear er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni statws da yn gyffredinol erbyn 2027, yn unol â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) 2017. Dylid diogelu dŵr wyneb rhag gollyngiadau sy'n cael effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr, gan gynnwys solidau a maetholion crog.

Er bod ansawdd yr aer ledled Powys yn dda ar y cyfan, gall datblygiadau beri cynnydd mewn llygredd aer nwyol a gronynnol yn ystod gwaith adeiladu a chan ddefnyddwyr terfynol y datblygiad. Dylai datblygiad newydd geisio nodi'r modd o liniaru'r posibilrwydd o lygredd aer, gan gynnwys archwilio technolegau ynni adnewyddadwy ar gyfer gwresogi gofod.

Ceir tir Amaethyddiaeth Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ledled Powys; dylid cyfeirio datblygiadau oddi wrth y tir hwn i'w warchod ar gyfer cynhyrchu bwyd. Mae priddoedd sy'n fras o ran carbon, gan gynnwys mawn, yn ddalfeydd carbon pwysig ac maent yn cyfrannu at strategaethau lliniaru hinsawdd. Gall tarfu ar briddoedd o'r fath arwain at sychu, a rhyddhau carbon deuocsid. Dylai cynigion datblygu osgoi ardaloedd mawn a dylid ymchwilio i gyfleoedd sy'n cynyddu'r gorchudd mawn.

Mae coed, coetiroedd a gwrychoedd yn cynnig buddion lluosog, gan gynnwys amwynder gweledol, diffinio ymdeimlad o le, darparu lleoedd ar gyfer ymlacio ac adloniant, cynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt, coridorau ecolegol a chynorthwyo i liniaru effeithiau y newid yn yr hinsawdd. Bydd coed, coetiroedd a gwrychoedd o fwynder cyhoeddus sylweddol neu werth bioamrywiaeth, gan gynnwys coetiroedd hynafol diffiniedig, yn cael eu diogelu.

### **Polisi Strategol SP20—Seilwaith Gwyrdd**

**Rhaid i gynigion datblygu integreiddio, diogelu a chynnal asedau seilwaith gwyrdd presennol a rhai a warchodir, a chrosawu cyfleoedd i wella rhychwant, ansawdd, cysylltedd ac amlswyddogaethedd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd. Pan na ellir osgoi colli neu ddifrodi seilwaith gwyrdd presennol, bydd angen lliniaru a gwneud iawn am hyn yn briodol.**

**Rhaid i bob datblygiad fanteisio gymaint â phosibl ar:**

- **Swm y seilwaith gwyrdd sydd ar y safle.**

- Rhyng-gysylltedd yr asedau seilwaith gwyrdd sydd ar y safle ac o'i amgylch, ac i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach.
- Cyfleoedd i gyflawni atebion amlswyddogaethol ac ar sail natur drwy ddod â swyddogaethau seilwaith gwyrdd ynghyd, er mai gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth a ddylai fod yn ystyriaeth bennaf.

Dylai'r holl gynigion datblygu ddangos o'r dechrau sut mae seilwaith gwyrdd wedi ei ystyried a'i integreiddio drwy ddod gyda Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Dylai hyn fod yn gymesur â graddfa a natur y datblygiad a gynigir, gan ddisgrifio sut mae seilwaith gwyrdd wedi ei gorffori yn y cynigion. Dylid cysoni gwrthdaro posibl rhwng gwahanol elfennau o'r seilwaith gwyrdd yn rhan o'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Pan fo hynny'n berthnasol, rhaid i'r Datganiad nodi sut y bydd gosodiad a dyluniad y cynllun yn cyfrannu at unrhyw Strategaeth Seilwaith Gwyrdd lleol neu ranbarthol a gyhoeddwyd, neu'n gydnaws â hi.

Diffinia PCC seilwaith gwyrdd fel “y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, manau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sydd ar wasgar rhwng lleoedd ac yn eu cysylltu. Ar raddfa y dirwedd, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan (e.e. gwlyptiroedd, dyfrffyrdd, mawndiroedd a chadwyni mynyddoedd) neu fod yn rhwydweithiau cysylltiedig o gynefinoedd mosäig, gan gynnwys glaswelltiroedd. Ar y raddfa leol, gallai gynnwys parciau, caeau, coed a choedwigoedd, pyllau, manau gwyrdd naturiol, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi, neu nodweddion a reolir (e.e. cynlluniau draenio cynaliadwy) ac, ar y raddfa unigol, gallai fod yn goed stryd, ynysoedd cylchfan, gwrychoedd, ymylon a thoeau/waliau gwyrdd”.

Dylid cynnal Archwiliad ac Asesiad Seilwaith Gwyrdd i lywio cynigion datblygu. Bydd hyn yn nodi ardaloedd i'w diogelu a chyfleoedd ar gyfer gwelliant. Dylai'r Archwiliad a'r Asesiad ddefnyddio tystiolaeth ar sail map, gan gynnwys yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd sy'n llywio'r CDLI Newydd (gweler Atodiad 7). Rhaid i geisiadau cynllunio ddod gyda Datganiad Seilwaith Gwyrdd sy'n nodi ac yn cyfiawnhau'r dull a gynigir a sut mae cynigion yn cefnogi nodau Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys a Datganiad Ardal Canolbarth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynhwysir polisi ychwanegol yn y CDLI Adnau a bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar ôl mabwysiadu'r CDLI. Darperir rhagor o wybodaeth a chanllawiau gan safonau Building with Nature.

## 10.7 Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

### Polisi Strategol SP21—Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

Bydd datblygiad newydd yn parchu hunaniaeth leol, treftadaeth a gwahanolrwydd ardal y cynllun gan gynnwys ei hasedau diwylliannol, gosod tirwedd a threflun.

Rhaid i gynigion datblygu ddiogelu, cadw a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol a'u lleoliadau, gan gynnwys:

- Adeiladau Rhestredig a'u cwrtilau.
- Ardaloedd Cadwraeth.
- Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig.
- Gerddi a Pharciau Hanesyddol Cofrestredig.



- **Gweddillion Archeolegol o Bwys Cenedlaethol gan gynnwys Henebion Cofrestredig, a Gweddillion Archeolegol Eraill.**
- **Rhestriadau yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol.**

**Disgwylir i bob cynnig datblygu hybu dyluniad o ansawdd uchel sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac yn parchu ac yn gwella rhinweddau diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun.**

Mae'r polisi hwn yn diogelu amgylchedd hanesyddol Powys fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, PCC a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu ac yn un a rennir, ac mae'n rhan hollbwysig ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Powys. Gall dealltwriaeth o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol Powys ddarparu cyd-destun ar gyfer rheoli newid.

Ar hyn o bryd, mae 3,938 o Adeiladau Rhestredig yn ardal y Cynllun a ddynodir gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ceisio gwarchod cymeriad adeiladau hanesyddol a rheoli newid er mwyn sicrhau y caiff eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig ei gadw.

Mae 55 Ardal Gadwraeth yn ardal y Cynllun ar hyn o bryd. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ceisio diogelu neu wella cymeriad neu olwg Ardaloedd Cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fywiog ac yn ffyniannus.

Ar hyn o bryd, mae 10 Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig yn ardal y Cynllun, neu'n rhannol yn ardal y Cynllun. Mae polisi cenedlaethol yn ceisio diogelu ardaloedd sydd ar y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru.

Mae 37 o Barciau a Gerddi Cofrestredig yn ardal y Cynllun ar hyn o bryd. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ceisio cadw diddordeb arbennig y safleoedd hynny sydd ar y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol.

Ar hyn o bryd, mae 723 o Henebion Cofrestredig yn ardal y Cynllun ynghyd â gweddillion archeolegol eraill nad ydynt wedi eu dynodi. Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ceisio cadw gweddillion archeolegol, er eu mwyn eu hunain ac oherwydd y rôl y maent yn ei chwarae o ran addysg, hamdden a'r economi.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys yn rheoli ac yn diweddarau'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol statudol ar gyfer ardal y Cynllun ar ran Gweinidogion Cymru. Mae canllawiau statudol cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio'r cofnodion hyn fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol. Dylid gofyn i Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys am gyngor ar eu defnyddio at ddiben gwneud penderfyniadau.

Mae'n ofynnol bod ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth yn dod gyda Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, er mwyn asesu effaith gwaith ar arwyddocâd yr adeilad neu'r ardal.

Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr Amgylchedd Hanesyddol, Archaeoleg ac Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu paratoi ar ôl mabwysiadu'r CDLI Newydd. Hefyd, cyhoeddir canllawiau arferion gorau gan Cadw ar gyfer gwahanol fathau o asedau hanesyddol, gan gynnwys canllawiau ar ynni adnewyddadwy ac adeiladau hanesyddol.

## 10.8 Diogelu Adnoddau Strategol

### Polisi Strategol SP22—Diogelu Adnoddau Strategol

Er mwyn diogelu a gwarchod amrywiaeth eang o adnoddau defnydd tir strategol (nas cynhwysir fel arall yn SP19—Yr Amgylchedd Naturiol, SP20—Seilwaith Gwyrdd neu SP21—Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol), rhaid i gynigion datblygu beidio â chael effaith andwyol annerbyniol ar yr Adnodd Strategol a'i weithrediad.

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r adnoddau strategol canlynol a nodwyd ar gyfer Powys:

1. **Asedau Adloniant, gan gynnwys:**
  - i. Llwybrau Cenedlaethol.
  - ii. Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
  - iii. Llwybrau Adloniant.
  - iv. Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.
2. **Adnoddau neu dderbynyddion adloniant a thwristiaeth awyr agored arwyddocaol eraill sy'n bwysig oherwydd y buddion amlswyddogaethol y maent yn eu darparu (megis economaidd, amgylcheddol, hamdden ac amwynder a gwerth i iechyd a llesiant corfforol/meddyliol).**
3. **Tirweddau a chymeriad tirwedd, nodweddion daearegol, ac awyr dywyll ledled Powys ynghyd â thirweddau dynodedig yn ardal y Cynllun neu'n gyfagos iddi.**
4. **Pontsenni—Ardal Hyfforddiant y Weinyddiaeth Amddiffyn.**
5. **Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Gradd 1, 2 a 3a).**
6. **Ardaloedd Adnoddau Mwynol.**
7. **Seilwaith Strategol Arfaethedig gan gynnwys Llwybrau Cludo (os a phan gânt eu nodi) a Chyflogaeth neu Safleoedd eraill (os a phan gânt eu nodi) sy'n gysylltiedig â Bargaen Twf Canolbarth Cymru ac a gefnogir ganddi.**

Mae'r polisi hwn yn darparu diogelwch i amrywiaeth o adnoddau ac asedau strategol bwysig er mwyn sicrhau nad yw datblygiad amhriodol yn cael effaith andwyol annerbyniol arnynt, na'u gweithrediad, gan gynnwys eu defnydd a'r mwynhad ohonynt.

Dim ond cynigion datblygu na fydd yn cael effaith annerbyniol ar yr adnodd neu'r ased fydd yn cael eu caniatáu. Er enghraifft, efallai na fydd yn briodol caniatáu datblygiad yn agos at ardal hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn pan fo angen i awyrennau sy'n hedfan yn isel weithredu a bod arfau milwrol yn cael eu defnyddio, oherwydd y gall datblygiadau o'r fath greu pwysau i gyfyngu ar weithgareddau y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r defnydd o'i thir.

Dylid ystyried effeithiau cronnos posibl datblygiadau presennol ac arfaethedig yn ofalus oherwydd y gallai adnoddau ac asedau gynnig nifer o fuddion. Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, er enghraifft, yn cyfrannu asedau hanesyddol, adloniant, twristiaeth a gweledol/tirwedd, yn ogystal â'r ffaith bod Clawdd Offa ei hun a'i leoliad yn Heneb Gofrestredig o bwys cenedlaethol yn llawer o Bowys.

Yn ogystal â rhoi sylw i Barciau Cenedlaethol cyfagos a Thirweddau Cenedlaethol (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol), dylai datblygiadau roi sylw i ddynodiadau eraill megis Awyr Dywyll a'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Asesiad Cymeriad Tirwedd i nodi sut y gellir darparu ar gyfer datblygiad mewn ardal cymeriad tirwedd.



## 10.9 Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

### **Polisi Strategol SP23—Y Gymraeg a Diwylliant Cymru**

**Rhaid i gynigion datblygu warchod a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru ledled y Sir.**


**Yng nghadarnleoedd y Gymraeg a nodwyd, rhaid i ddarpariaeth datblygiadau preswyl a chyflogaeth, ynghyd â chyfleusterau eraill, fod yn gymesur ag anghenion cymunedau lleol.**

**Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n cael effaith niweidiol ar egni y Gymraeg a diwylliant Cymru, nac effaith andwyol ar gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol oni bai bod modd lliniaru'r effaith yn foddhaol.**

Nododd Cyfrifiad 2021 wahaniaeth sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ledled Powys, yn amrywio o 54% o drigolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn Ward Glantwymyn i 4% yn Ward yr Ystog. Mae'r Gymraeg yn rhan sylweddol o wead cymdeithasol cymunedau yng ngogledd-orllewin, gorllewin a de-orllewin Powys, ac mae'n darparu ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth.

Yng Nghadarnleoedd y Gymraeg lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd i'r gymuned, rhaid rheoli datblygiadau er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi i alluogi'r iaith i aros yn ganolog i'r cymunedau hynny. Rhaid i'r datblygiadau fod o raddfa, math a chymeriad priodol fel eu bod yn diwallu anghenion y cymunedau hyn a dylent ddigwydd ar gyfradd y gellir eu derbyn a'u cymhathu heb niweidio cymeriad y gymuned.

Ffigur 12—Cadarnleoedd y Gymraeg



Mewn mannau eraill, dylid ystyried datblygiadau fel grym cadarnhaol sy'n annog addysg a seilwaith cymdeithasol, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd cadarn i gael eu creu i alluogi'r iaith i ddatblygu fel rhan naturiol a ffyniannus o gymunedau cynaliadwy.

Bydd polisiâu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adnau er mwyn nodi'r amgylchiadau pan fo angen mesurau lliniaru yn unol â sensitifrwydd y Gymraeg yn yr ardal lle y lleolir y datblygiad arfaethedig; a phan fo rhaid i Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg lywio ceisiadau cynllunio.

## 10.10 Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol

### **Polisi Strategol SP24—Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol**

**Er mwyn cynnal a gwella ansawdd bywyd yr holl breswylwyr, bydd defnyddiau a/neu gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol yn cael eu cadw neu eu gwella.**

**Rhaid i bob cynnig datblygu ar gyfer cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol newydd, neu gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol a amnewidir, ddangos bod pob ymgais resymol wedi eu gwneud i ystyried cydleoli â chyfleuster cymdeithasol a chymunedol arall cyn yr ystyrir cyfleuster annibynnol.**

**Er budd cymunedau cynaliadwy a chydlyniant cymdeithasol, ni chefnogir colli cyfleuster cymdeithasol a chymunedol yn llwyr, na'i gau, oni bai bod cyfiawnhad llawn dros wneud hynny.**

Diffinnir cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol fel cyfleusterau a ddefnyddir gan gymunedau lleol at ddibenion hamdden, cymdeithasol, iechyd, addysg a diwylliannol, ac maent yn cynnwys neuaddau a siopau pentref, ysgolion, meddygfeydd, canolfannau iechyd, tafarndai, addoldai, mynwentydd, canolfannau hamdden, rhandiroedd, mannau agored, ardaloedd tyfu cymunedol a llyfrgelloedd. Mae'r cyfleusterau hyn yn darparu gwasanaethau gwerthfawr, yn cynhyrchu cyflogaeth ac yn denu pobl i fyw mewn ardal. Gallant fod yn eiddo i gyrff cyhoeddus, unigolion preifat neu grwpiau cymunedol.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu a gwella cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol sy'n cyfrannu at ddiwallu anghenion trigolion mewn trefi, pentrefi a chymunedau gwledig. Mae darparu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol sydd mor hygyrch i gynifer o bobl â phosibl yn hanfodol wrth ddatblygu cymunedau cynaliadwy, cryf a chynhwysol.

Dylai cyfleusterau newydd gael eu lleoli lle gall defnyddwyr gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwydd i gael gafael arnynt.

Mae cyfleusterau adloniant yn cynnwys chwaraeon ffurfiol, gweithgareddau adloniant a hamdden megis meysydd gemau tîm, cyfleusterau chwarae i blant, parciau cyhoeddus a mannau adloniant eraill lle gall gweithgareddau anffurfiol megis cerdded ddigwydd. Darperir rhagor o fanylion am fannau o'r fath drwy'r Asesiad Mannau Agored.

Bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys polisi ychwanegol ar golli cyfleusterau cymdeithasol neu gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys manylion am bryd y mae'n rhaid cynnal cyfnod o farchnata ac ymgynghori â'r gymuned, ynghyd ag ymchwilio i ddefnyddiau cymunedol eraill neu bryniant cymunedol i gynnal y cyfleuster, cyn y gellir cyfiawnhau defnydd arall.

## 10.11 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

### Polisi Strategol SP25—Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

Anogir cynigion datblygu adnewyddadwy a charbon isel, o bob technoleg ac ar bob graddfa, mewn lleoliadau priodol pan ei bod yn bosibl gwneud yr hyn a ganlyn:

- Dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol rhyngwladol neu genedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran cadwraeth natur (a'r nodweddion y'u dynodir ar eu cyfer), cynefinoedd a rhywogaethau a ddiogelir.
- Dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos (gan gynnwys tirweddau dynodedig), priddoedd a mawn sy'n fras o ran carbon, dŵr daear, yr amgylchedd hanesyddol gan gynnwys asedau treftadaeth a ddiogelir yn statudol, cymunedau lleol ac anheddau unigol (megis llygredd sŵn ac aer).
- Dangos na fydd unrhyw effeithiau unigol na chronnus annerbyniol eraill yn codi, gan gynnwys gyda chynlluniau ynni adnewyddadwy presennol a chynlluniau ynni adnewyddadwy y ceir cydsyniad ar eu cyfer.
- Disgrifio, drwy Ddatganiad Cynllunio, fanteision net y cynllun (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol) gan gynnwys y manteision i gymunedau lleol.
- Dangos bod effeithiau tirwedd a gweledol yn cael eu lleihau gymaint â phosibl. Dylai dyluniadau a microleoli fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o gyd-destun y safle, gan gynnwys agosrwydd a sensitifrwydd cartrefi cyfagos a derbynyddion adloniant/twristiaeth.
- Tystiolaeth, pan fo hynny'n berthnasol, y gall y cynnig hwyluso cysylltiad â'r rhwydwaith grid a sut mae unrhyw anghenion am seilwaith grid newydd neu wedi ei atgyfnerthu yn cael sylw.
- Dangos nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol o ran cysgodion symudol, sŵn, golau a adlewyrchir, ansawdd aer nac aflonyddwch electromagnetig.
- Dangos nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar weithrediadau ehangach cyfleusterau amddiffyn (gan gynnwys hedfan a radar) nac Ardal Hyfforddi Tactegol Hedfan yn Isel Canolbarth Cymru.
- Tystiolaeth bod darpariaethau derbyniol yn ymwneud â datgomisiynu'r datblygiad ar ddiwedd ei oes, gan gynnwys cael gwared â'r seilwaith ac adfer yn effeithiol.

Ni ddylai cynigion am ddatblygiadau eraill mewn Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt a nodir yn Cymru'r Dyfodol niweidio'r gallu i gyflwyno datblygiadau gwynt ar raddfa fawr (10MW neu fwy). Gwrthodir datblygiadau a allai niweidio datblygiadau gwynt ar raddfa fawr yn y dyfodol yn yr ardaloedd hyn.

Mae Polisiâu 17 a 18 o Cymru'r Dyfodol yn darparu'r polisiâu cynllunio cenedlaethol ar gyfer datblygu Ynni Adnewyddadwy. Mae Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig yn nodi Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiadau gwynt ar y tir ar raddfa fawr. Noda Polisi 18, y tu allan i'r ardaloedd hyn, na ddylai cynigion ynni adnewyddadwy sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gael effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos. Mae Polisi 17 hefyd yn cefnogi'r broses o atgyfnerthu'r seilwaith grid cysylltiedig sy'n ymwneud â throsglwyddo a dosbarthu ynni.

Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel yn cael ei baratoi ar gyfer y CDLI Newydd. Dengys y canlyniadau cychwynnol bosibilrwydd o gyflawni 232MW ychwanegol o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel â'r technolegau mwyaf cyffredin yn ystod cyfnod y Cynllun, gan gynnwys prosiectau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, fel y dangosir yn Nhabl 10.

**Tabl 10. Ynni adnewyddadwy a charbon isel ychwanegol y mae posibilrwydd o'i gynhyrchu yn 2022–2037**

Technoleg	Capasiti Gosodedig Presennol (MW)	Capasiti Gosodedig newydd posibl yn ystod Cyfnod y Cynllun (MW)
Gwynt ar y Tir	298.4	140
Solar ffotofoltäig ar y llawr	35.1	65
Ynni adnewyddadwy sydd wedi ei integreiddio i'r adeilad (ffotofoltäig ar y to, ac ati)	19.2	27
<b>Cyfanswm</b>	<b>352.7</b>	<b>232</b>

Hefyd, mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel yn cydnabod y gallai pypiau gwres a osodir mewn adeiladau domestig ac annomestig newydd gyfrannu capasiti gosodedig ychwanegol o 39.5MW o dechnoleg carbon isel. Bydd technolegau eraill megis Gwres a Phŵer Cyfunedig, hydrodrydanol, gwresogi ardal a threulio anaerobig yn chwarae rhan hefyd wrth gyfrannu at gynhyrchu ynni carbon isel, ond ystyrir y twf posibl yn fwy cyfyngedig.

Ar gyfer pob cynnig ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig, gwrthwynebir cynigion sy'n effeithio'n annerbyniol ar safleoedd dynodedig. Yn ogystal â hynny, gofelir wrth asesu effeithiau ar gynefinoedd nad ydynt wedi eu dynodi ond sy'n brin, asedau treftadaeth ac adloniant/twristiaeth gan gynnwys eu lleoliadau, ac ardaloedd lle mae ansawdd y dirwedd yn uchel. Ni chefnogir cynigion sy'n effeithio'n annerbyniol ar ddefnyddiau tir eraill sydd o bwys strategol, megis gweithrediad a swyddogaeth ardaloedd hyfforddi milwrol. Dylid osgoi ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd i atafaelu carbon, megis mawn a choetir hynafol.

Rhaid i bob cynnig ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig, megis llinellau dosbarthu neu gyfleusterau storio ynni, fynd i'r afael â materion effeithiau cronus a pharchu bodolaeth ac amwynder datblygiadau preswyl a sensitif cyfagos eraill, gan gynnwys datblygiadau sydd wedi eu cymeradwyo ond heb eu hadeiladu.

Datblygir canllawiau ychwanegol yn y Cynllun Adnau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi hwn.

## 10.12 Cynllunio Mwynau a Gwastraff

### **Polisi Strategol SP26—Rheoli Adnoddau Mwynau**

Er mwyn hwyluso'r gwaith o reoli adnoddau mwynau yn gynaliadwy a darparu cyflenwad parhaus ar gyfer anghenion lleol a rhanbarthol, gwneir darpariaeth ar gyfer:

- Gwarchod tywod a graean hysbys/posibl a enillir o'r tir ac adnoddau creigiau mathredig ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol (eu diogelu rhag datblygiad parhaol a fyddai'n eu sterileiddio yn ddiangen neu'n eu rhwystro rhag cael eu hechdynnu yn y dyfodol).
- Cynnal banc tir digonol o gronfeydd agreg a ganiateir drwy gydol cyfnod y Cynllun.
- Defnyddio parthau clustogi i leihau'r gwrthdaro rhwng datblygu mwynau a datblygiadau sensitif.
- Sicrhau adferiad priodol a all gyflawni manteision amgylcheddol a chymunedol penodol.
- Annog y defnydd effeithlon a phriodol o fwynau o ansawdd uchel a manteisio gymaint â phosibl ar y posibilrwydd o ddefnyddio agregau eilaidd ac agregau sydd wedi eu hailgylchu fel dewis arall yn lle adnoddau a enillir yn uniongyrchol o'r tir.

Mae gan Bowys amrywiaeth eang o adnoddau mwynau sy'n cael eu gwarchod i'w hatal rhag cael eu sterileiddio'n ddiangen yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Mae Ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru (2020) yn nodi'r cyfraniad y dylai pob awdurdod lleol cyfansoddol (Awdurdod Cynllunio Mwynau) ei wneud tuag at fodloni'r galw rhanbarthol am agregau (craig galed a thywod a graean).

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cadarnhau nad oes gofyniad i Bowys gyfrannu at y cyflenwad tywod a graean rhanbarthol a echdynnir o'r tir. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r monitro parhaus wedi cadarnhau bod cronfeydd wrth gefn helaeth o hyd yn y chwareli creigiau mathredig sydd wedi eu cydsynio ym Mhowys a bod ffigurau'r banc tir ar gyfer y cyflenwad creigiau mathredig yn fwy nag isafswm y gofynion yn Nodyn cyngor technegol mwynau (MTAN) 1: Agregau. O ganlyniad, nid oes angen dyrannu unrhyw safleoedd newydd ar gyfer datblygu mwynau.

Mae parthau clustogi yn helpu i leihau gwrthdaro rhwng datblygiad sensitif a gweithrediadau chwarela. Mae parthau clustogi yn amrywio o ran rychwant oherwydd agosrwydd derbynyddion sensitif presennol ac maent yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys maint, math a lleoliad y gwaith chwarela, topograffeg a'r lefelau sŵn a llwch presennol ac a rhagwelir, a dirgryniad o weithrediadau ffrwydro.

### **Polisi Strategol SP27—Rheoli Gwastraff**

Er mwyn hwyluso'r broses o reoli gwastraff yn gynaliadwy, gwneir darpariaeth ar gyfer:


- Sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio ag egwyddorion yr hierarchaeth wastraff sy'n cefnogi'r rhai sy'n symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth.
- Cefnogi rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff ar dir sy'n briodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.



- Cefnogi'r economi gylchol drwy annog y gwastraff a gynhyrchir i gael ei gadw cyn ised â phosibl, a'r defnydd o ddeunyddiau sydd wedi eu hailddefnyddio a'u hailgylchu yn ystod camau dylunio, adeiladu a dymchwel y datblygiad.
- Sicrhau y gwneir darpariaeth i reoli, didoli, storio a chasglu gwastraff yn gynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys sicrhau cyfleoedd i leihau'r gwastraff a gynhyrchir.

Mae'r system rheoli gwastraff a chynllunio gwastraff yn parhau i ddatblygu ac, yn unol â dogfen strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff a PCC, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu dull cynaliadwy o reoli gwastraff, gan gynnwys cymorth ar gyfer gweithrediadau gwastraff, sy'n symud y gwaith o reoli gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff. Bydd angen cyfleusterau newydd er mwyn cefnogi'r broses o leihau gwastraff ac ailgylchu, a chyflawni'r targedau a bennwyd ar gyfer y rhain.

Ffigur 13—Yr Hierarchaeth Wastraff



Mae'r dull rheoli gwastraff cynaliadwy yn cynnwys nodi tir sy'n briodol ar gyfer hwyluso rhwydwaith integredig o gyfleusterau gwastraff. Gyda datblygiadau technolegol a newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi ac arferion, mae gan gyfleusterau rheoli gwastraff sy'n rhan o'r adeilad ymddangosiad allanol a dulliau mewnol o reoli gwastraff nad ydynt yn wahanol i brosesau diwydiannol eraill. Felly, mae addasrwydd safleoedd diwydiannol Dosbarth B2 wedi dod yn dderbyniol mewn egwyddor.

Wrth baratoi'r holl gynigion datblygu, dylid ystyried y goblygiadau o ran gwastraff. Dylai lleoliad a graddfa y datblygiadau ystyried storio gwastraff, a chapasiti y cyfleusterau rheoli gwastraff sydd ar gael yn yr ardal. Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynhyrchu teithiau diangen i waredu gwastraff.



## 11. Adolygiad o Bolisiau Rheoli Datblygu

I ddechrau, mae'r adran hon yn darparu adolygiad o'r Polisiau Rheoli Datblygu yn CDLI Mabwysiedig Powys (2011–2026) ac yn argymhell sut y dylid dwyn y polisiau ymlaen i'r CDLI Newydd. Yn dilyn hyn, cynigiwyd meysydd polisi ychwanegol a newydd i'w cynnwys yn y CDLI Newydd Adnau.

<b>Parhau heb lawer o newidiadau i eiriad polisiau</b>
<b>Diweddariadau manylach i bolisiau sydd eu hangen cyn cael eu dwyn ymlaen</b>
<b>Mae angen adolygu polisiau</b>
<b>Polisiau nad ydynt yn cael eu dwyn ymlaen</b>

### 11.1 Polisiau Rheoli Datblygu

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
<b>DM1</b>	Rhwymedigaethau Cynllunio	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol.	Dwyn ymlaen gyda chyn lleied o newidiadau â phosibl.
<b>DM2</b>	Yr Amgylchedd Naturiol	Ailystyried y polisi er mwyn adlewyrchu'r newid o Safleoedd Ewropeaidd i'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, y newidiadau i'r amcanion deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol, ac yng nghydestun yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd.	Diweddaru'r polisi er mwyn adlewyrchu'r newid o Safleoedd Ewropeaidd i'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, y newidiadau i'r amcanion deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol, ac yng nghydestun newidiadau Polisi Cynllunio Cymru (Mantais Net i Fioamrywiaeth, dull Fesul Cam, Asesiad Seilwaith Gwyrdd, ac ati).
<b>DM3</b>	Mannau Agored Cyhoeddus	Ailystyried y polisi â chyfraniad Rheoli Datblygu er mwyn darparu eglurder, ynghyd â gofynion y Seilwaith Gwyrdd.	Mae angen diweddariad i ddarparu eglurder ynghylch nodi a gweithredu polisi, ynghyd â gofynion Seilwaith Gwyrdd.
<b>DM4</b>	Tirwedd	Adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu tystiolaeth yn yr Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol a pholisiau/canllawiau cynllunio cenedlaethol.	Diweddaru'r polisi i adlewyrchu tystiolaeth Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol ynghyd â'r

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
			polisi/canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf.
<b>DM5</b>	Datblygiad a Pherygl o Llifogydd	Ailystyried y polisi yng ngoleuni TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.	Diweddarau'r polisi er mwyn ystyried TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sydd ar ddod.
<b>DM6</b>	Mesurau Atal Llifogydd a Draenio Tir	Ailystyried y polisi yng ngoleuni TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, ynghyd â gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy.	Diweddarau'r polisi er mwyn ystyried TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sydd ar ddod, ynghyd â gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy.
<b>DM7</b>	Awyr Dywyll a Goleuadau Allanol	Defnyddir y polisi hwn yn bennaf i gefnogi amodau cynllunio sy'n ymwneud â chynlluniau goleuo allanol sydd â'r nod o osgoi effaith ar fywyd gwylt nosol, yn hytrach nag asesu'r effaith ar lygredd golau a gwelededd awyr y nos. Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol a thystiolaeth gysylltiedig.	Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol a thystiolaeth gysylltiedig.
<b>DM8</b>	Diogelu Mwynau	Mae'r polisi hwn yn cefnogi gofynion mewn polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson. Bydd rhagor o hyfforddiant a mapio cyfyngiadau swyddogion yn helpu, ynghyd â geiriad diwygiedig	Dwyn ymlaen gyda newidiadau bach ychwanegol i hyfforddiant swyddogion a chyfyngiadau ar fapio a ddarperir.
<b>DM9</b>	Gwaith Mwynau Presennol	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, dylid ychwanegu geiriad ychwanegol er mwyn adlewyrchu polisïau a chanllawiau cenedlaethol diweddaredig.	Diweddariad gyda diwygiadau i adlewyrchu newidiadau i bolisïau a chanllawiau cenedlaethol.
<b>DM10</b>	Tir Llygredig ac Ansefydlog	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol.	Adolygu geiriad y polisi i adlewyrchu ystyriaethau sy'n ymwneud â nodweddion ac adnoddau cloddio glo a darparu eglurder am y gwaith

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
			arolygu sy'n ofynnol yn ystod y cam cyflwyno cais.
<b>DM11</b>	Diogelu Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol Presennol	Ailystyried y polisi er mwyn egluro sut i'w gymhwyso, a'i berthynas â pholisïau cysylltiedig eraill (e.e. polisïau R3 ac C1) a'r gofynion marchnata.	Adolygu ac egluro cwmpas a geiriad y polisi, ac i ddarparu diffiniadau cliriach o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.
<b>DM12</b>	Datblygiadau mewn Cadarnleoedd y Gymraeg	Ailystyried y polisi yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf, ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg y dylid ei gynnal yn rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI.	Diweddarau'r polisi i adlewyrchu'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r dystiolaeth ddiweddaredig.
<b>DM13</b>	Dyluniad ac Adnoddau	Ailystyried y polisi a'r elfennau sydd ynddo yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol, yn enwedig o ran cynaliadwyedd ac egwyddorion creu lleoedd.	Adolygu'r polisi sydd ei angen, yn enwedig mewn cysylltiad ag egwyddorion cynaliadwyedd a chreu lleoedd.
<b>DM14</b>	Rheoli Ansawdd Aer	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, dylid ychwanegu geiriad ychwanegol.	Diweddarau'r polisi er mwyn ystyried y ddeddfwriaeth ddiweddaraf o ran egwyddorion dylunio cynaliadwy a chynghor ansawdd aer.
<b>DM15</b>	Gwastraff Mewn Datblygiadau	Ni chymhwysir y polisi hwn mor eang ag y bwriadwyd. Ymdrinnir â hyn drwy drafod â Rheoli Datblygu.	Mae angen diweddariad i ddarparu eglurder ynghylch gweithredu polisi.
<b>DM16</b>	Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Presennol	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisïau Cyflogaeth. Gweler Polisi E4 hefyd.	Adolygu geiriad y polisi er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â pholisïau Cyflogaeth, yn benodol, E4.

## 11.2 Polisiau yn Seiliedig ar Bwnc

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
E1	Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd a Ddyrannwyd ar gyfer Cyflogaeth	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen ei ailasesu yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth Twf a'r Strategaeth Ofodol. Caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisiau Cyflogaeth.	Ailasesu'r polisi yng ngoleuni diwygiadau i'r Strategaeth Twf a Gofodol ac adolygu'r geiriad er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â pholisiau Cyflogaeth.
E2	Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu ar gyfer Cyflogaeth	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen ei ailasesu yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth Twf a'r Strategaeth Ofodol. Caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisiau Cyflogaeth.	Ailasesu'r polisi yng ngoleuni diwygiadau i'r Strategaeth Twf a Gofodol ac adolygu'r geiriad er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â pholisiau Cyflogaeth.
E3	Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Cyflogaeth Defnydd Cymysg a Ddyrannwyd	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen ei ailasesu yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth Twf a'r Strategaeth Ofodol. Caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisiau Cyflogaeth.	Ailasesu'r polisi yng ngoleuni diwygiadau i'r Strategaeth Twf a Gofodol ac adolygu'r geiriad er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â pholisiau Cyflogaeth.
E4	Safleoedd Cyflogaeth a Ddiogelir	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd yn cael ei ddiweddarau er mwyn sicrhau bod y rhestr o safleoedd a ddiogelir yn gyfredol ac yn gywir a bod y polisi'n parhau i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol a thystiolaeth ddiweddaredig. Gweler Polisi DM16 hefyd.	Diweddarau'r polisi er mwyn sicrhau bod y rhestr o safleoedd a warchodir yn gyfredol ac yn gywir a bod y polisi'n parhau i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol. Gweler Polisi DM16 hefyd.
E5	Parc Iechyd Bronllys	Ailystyried y polisi sydd ei angen yng ngoleuni'r materion a nodwyd wrth ei ddefnyddio, yn ogystal â'r angen i adolygu ei berthnasedd wrth symud ymlaen.	Ailystyried a yw polisi'n briodol neu a oes angen dull gweithredu amgen.
E6	Arallgyfeirio ar y Fferm	Ailystyried y polisi er mwyn ystyried arallgyfeirio ym maes amaethyddiaeth ochr yn ochr	Ailystyried y polisi o'i gymharu â pholisiau cenedlaethol ac ystyried gwella eglurder

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
		ag arallgyfeirio oddi wrth amaethyddiaeth, ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau mewn polisïau cenedlaethol.	geiriad y polisi, yn enwedig o ran amrywio ym maes amaethyddiaeth ochr yn ochr ag arallgyfeirio oddi wrth amaethyddiaeth.
<b>E7</b>	Gweithio Gartref	Disgwylir i'r polisi barhau i fod yn gefnogol ac yn hyblyg o ran gweithio gartref. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen, gan gynnwys cyfeirio at y newid mewn arferion gweithio yn sgil COVID-19.	Dwyn ymlaen gyda mân newidiadau.
<b>T1</b>	Teithio, Traffig a Seilwaith Trafnidiaeth	Ailystyried y polisi yn dilyn pwyslais ar deithio cynaliadwy yn PCC a Cymru'r Dyfodol.	Ailystyried y polisi yn dilyn pwyslais ar deithio cynaliadwy yn PCC a Cymru'r Dyfodol.
<b>T2</b>	Gwarchod Seilwaith Cludiant Nas Defnyddir	Ni ddefnyddiwyd y polisi. Dylid gwneud gwaith ymchwil i nodi'r rheilffyrdd nas defnyddir a'r seidins rheilffordd a seilwaith trafndiaeth arall nas defnyddir neu segur, yn ardal y Cynllun, yn rhan o'r broses adolygu. Bydd yr ymchwil hon yn galluogi dealltwriaeth o'r dull polisi i'w ddatblygu a gallai arwain at nodi cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd.	Ailystyried a yw polisi'n briodol neu a oes angen dull gweithredu amgen. Mae angen ymchwil i nodi'r rheilffyrdd nas defnyddir a seidins rheilffyrdd a seilwaith trafndiaeth arall nas defnyddir neu segur i alluogi dealltwriaeth o'r dull polisi i'w gymryd wrth symud ymlaen a gallai arwain at nodi cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd.
<b>T3</b>	Ffordd Osgoi'r Drenewydd	Nid oes angen y polisi mwyach. Mae Ffordd Osgoi'r Drenewydd wedi ei hadeiladu ac yn weithredol.	Dylid dileu'r polisi.
<b>H1</b>	Cynigion Datblygu Tai	Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf.	Diweddarau'r polisi i adlewyrchu diwygiadau i'r Strategaeth Twf a Gofodol.
<b>H2</b>	Safleoedd Tai	Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf.	Diweddarau'r polisi i adlewyrchu diwygiadau i'r Strategaeth Twf a Gofodol.
<b>H3</b>	Cyflawni Tai	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol; fodd bynnag, caiff ei ailystyried er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dull o	Ailystyried y polisi er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dull o ddarparu tai a mynd i'r afael â'r angen am dai.

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
		gyflawni tai a mynd i'r afael â'r angen am dai.	
<b>H4</b>	Dwysedd Tai	Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol ac ymchwil ychwanegol i lywio'r dull o ymdrin â dwysedd tai ar draws haenau aneddiadau a mathau o ddatblygiad.	Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol ac ymgymryd ag ymchwil ychwanegol i lywio'r dull o ymdrin â dwysedd tai ar draws haenau aneddiadau a mathau o ddatblygiad.
<b>H5</b>	Cyfraniadau at Dai Fforddiadwy	Ailystyried y polisi, gan gynnwys targedau sy'n benodol i safleoedd, yng ngoleuni tystiolaeth ddiwedddedig o'r angen am dai a hyfywedd, ynghyd â pholisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol.	Ailystyried y polisi, gan gynnwys targedau sy'n benodol i safleoedd er mwyn adlewyrchu tystiolaeth Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel ynghyd â'r polisi/canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf.
<b>H6</b>	Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig a Alluogwyd	Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol. Bydd angen adlewyrchu diwygiadau i'r strategaeth, rhaglenni Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/Awdurdod Tai Strategol, a thystiolaeth o fforddiadwyedd ac angen lleol yn y dull o ymdrin â safleoedd eithriedig.	Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol. Bydd angen adlewyrchu diwygiadau i'r strategaeth, rhaglenni Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/Awdurdod Tai Strategol, a thystiolaeth o fforddiadwyedd ac angen lleol yn y dull o ymdrin â safleoedd eithriedig.
<b>H7</b>	Datblygiadau gan Ddeiliaid Tai	Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisi'n gweithio'n effeithiol, yn enwedig o ran datblygiadau atodol. Mae'n bosibl y bydd angen geiriad ychwanegol i adlewyrchu ystyriaethau ychwanegol.	Ystyried geiriad ychwanegol i ddarparu eglurder ar estyniadau ac anecsau, h.y. lwfansau ar raddfa gyffredinol.
<b>H8</b>	Adnewyddu Anheddau Gwag	Defnyddir y polisi hwn yn effeithiol ochr yn ochr â chanllawiau TAN 24 i sicrhau bod anheddau gwag yn cael eu hadnewyddu'n sympathetig a bod asesiadau archeolegol neu adeiladau yn cael eu cofnodi.	Dwyn ymlaen gyda mân newidiadau.



Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
H9	Anheddau Newydd	Nodwyd materion wrth ddehongli'r polisi hwn, yn enwedig o ran nodi ac asesu adeiladau o gymeriad cynhenid lleol. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o eglurhad ynghylch polisiâu i adlewyrchu gofynion asesu archeolegol.	Diweddaru'r polisi er mwyn darparu eglurder i adlewyrchu gofynion asesu archeolegol.
H10	Safleoedd a Charafanau Sipsiwn a Theithwyr	Disgwylir i'r polisi barhau i fod yn gefnogol ac yn hyblyg o ran darparu safleoedd pan fo hynny'n angenrheidiol. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol i'r gofynion polisi cyfredol a'r anghenion sy'n codi.	Dwyn ymlaen gyda mân newidiadau.
H11	Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	Bydd y polisi presennol yn dyddio wrth i anghenion gael eu diwallu. Bydd angen polisi newydd i adlewyrchu tystiolaeth ddiweddaredig.	Mae angen polisi newydd i adlewyrchu'r Asesiad diwygiedig o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.
R1	Datblygiad Adwerthu Newydd	Adolygu'r polisi yn unol â chanfyddiadau'r Astudiaeth Adwerthu diweddaredig.	Diweddaru'r polisi i adlewyrchu diwygiadau i'r Strategaeth Ofodol a'r Astudiaeth Adwerthu.
R2	Dyraniadau Adwerthu	Adolygu'r Polisi yn dilyn canfyddiadau o'r Adroddiadau Monitro Blyneddol.	Dylid dileu'r Polisi yn sgil argymhellion o'r dystiolaeth Adwerthu nad oes gofyniad am ddyraniadau adwerthu yn y CDLI Newydd.
R3	Datblygiadau Mewn Canol Trefi	Adolygu'r Polisi i egluro ei ddefnydd, a'i berthynas â pholisiâu cysylltiedig eraill, yng ngoleuni adferiad yn sgil COVID-19 hefyd a'r effaith ar y stryd fawr. Bydd yr hierarchaeth Adwerthu a'r ffryntiadau siopa yn cael eu hadolygu yn unol â'r strategaeth gofodol diwygiedig a'r dystiolaeth ddiweddaredig.	Adolygu'r polisi i ddarparu eglurder ar ei berthynas â pholisiâu cysylltiedig eraill, sef DM11 ac C1.
R4	Siopau a Gwasanaethau	Ailystyried y polisi fel ei fod yn parhau i fod yn gefnogol, yn gyfredol ac yn berthnasol i greu	Adolygu'r polisi i ddarparu eglurder ar ei berthynas â



Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
	Cymdogaeth a Phentref	Ileoedd cynaliadwy yn unol â'r broses o ailystyried y strategaeth twf a'r strategaeth ofodol. Dylid ymchwilio ymhellach i Gysylltiadau â Pholisïau C1 a DM11, er mwyn sicrhau dull cydlynol o gefnogi cymunedau cynaliadwy.	pholisïau cysylltiedig eraill, sef DM11 ac C1.
<b>TD1</b>	Datblygu Twristiaeth	Adolygu'r Polisi yn dilyn canfyddiadau o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae angen diwygio'r geiriad hefyd er mwyn darparu eglurder.	Adolygu geiriad y polisi er mwyn darparu eglurder. Ystyried polisïau newydd er mwyn rhoi eglurhad ar lety priodol i ymwelwyr.
<b>TD2</b>	Defnyddiau Eraill ar gyfer Datblygiadau Twristiaeth presennol	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, dylid ystyried a oes angen egluro ystyr ardal wledig.	Adolygu geiriad y polisi er mwyn darparu eglurder.
<b>TD3</b>	Camlas Trefaldwyn a Datblygiadau Cysylltiedig	Dylid ailystyried y polisi o ystyried rôl Camlas Trefaldwyn ar draws sawl maes pwnc CDLI ac yng nghyd-destun y dynodiad Ardal Cadwraeth Arbennig, Seilwaith Gwyrdd a chreu lleoedd.	Ailystyried y polisi ynghylch a ddylai fod yn rhan o'r fframwaith polisi ar gyfer twristiaeth neu a yw polisi ardal yn fwy priodol.
<b>W1</b>	Lleoliad Datblygiadau Gwastraff	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol.	Dwyn ymlaen gyda chyn lleied o newidiadau â phosibl.
<b>W2</b>	Cynigion Rheoli Gwastraff	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol.	Dwyn ymlaen gyda chyn lleied o newidiadau â phosibl.
<b>RE1</b>	Ynni Adnewyddadwy	Ailystyried y polisi yng ngoleuni cyhoeddiad Cymru'r Dyfodol a newidiadau i'r drefn gydsynio.	Ailystyried polisi yng ngoleuni cyflwyniad Cymru'r Dyfodol a thystiolaeth.
<b>M1</b>	Safleoedd Mwynau Presennol	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Dylid asesu a diweddarau'r geiriad fel y bo'n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth newydd.	Dwyn ymlaen gyda mân newidiadau.
<b>M2</b>	Safleoedd Mwynau Newydd	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Dylid asesu a diweddarau'r geiriad fel y bo'n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth newydd.	Dwyn ymlaen gyda mân newidiadau.

Cyfeirnod Polisi	Teitl	Trosolwg	Argymhelliad
<b>M3</b>	Gweithfeydd Mwynau Dros Dro	Ni chafwyd unrhyw geisiadau i brofi'r polisi hwn hyd yma. Mae'r polisi'n cyfeirio at bolisi cenedlaethol felly ni ddylai fod yn angenrheidiol ei ddiweddarau.	Dwyn ymlaen gyda chyn lleied o newidiadau â phosibl.
<b>M4</b>	Cynigion Mwynau	Defnyddir y polisi hwn yn effeithiol. Dylid asesu a diweddarau'r geiriad fel y bo'n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth neu newidiadau newydd mewn polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu newidiadau i bolisïau cysylltiedig eraill yn y CDLI (e.e., tirwedd a bioamrywiaeth).	Dwyn ymlaen gyda chyn lleied o newidiadau â phosibl.
<b>M5</b>	Gwaith Adfer ac Ôl-ofal	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Dylid asesu a diweddarau'r geiriad fel y bo'n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth neu newidiadau newydd mewn polisi cenedlaethol.	Dwyn ymlaen gyda mân newidiadau.
<b>C1</b>	Cyfleusterau Cymunedol a Chyfleusterau Adloniant Dan Do	Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen egluro ei berthynas â Pholisi DM11.	Adolygu ac egluro cwrmpas a geiriad y polisi, ac i ddarparu diffiniadau cliriach o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.
<b>MD1</b>	Cynigion datblygu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn	Ni ddefnyddiwyd y polisi. Ystyried a ddylid cynnwys y polisi yn y CDLI Newydd yn ei fformat presennol ac a oes angen unrhyw newidiadau.	Ailystyried a yw polisi'n briodol neu a oes angen dull gweithredu amgen.

### 11.3 Meysydd Polisi Newydd i'w Hystyried

Teitl	Argymhelliad
Unedau Da Byw Dwys	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Diogelu Mawn	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Diogelu'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Ambwrpas	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Tai Arbenigol	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Ail Gartrefi a Llety gwyliau tymor byr	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Llety Gwyliau	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Carafán Deithio, Gwersylla a Llety Gwersylla Arall nad yw'n Barhaol	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Safleoedd Carafanau Statig a Chabanau Gwyliau a Llety Gwersylla Parhaol Arall	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Anheddau Mentrau Gwledig Garddwriaethol	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Ailwampio Adeiladau Gwledig	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol	Dylid ystyried hyn ymhellach.
Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd	Dylid ystyried hyn ymhellach.

## Atodiadau

### Atodiad 1—Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol Posibl

Enw'r Canllawiau Cynllunio Atodol	A oes angen diweddariad?	Blaenoriaeth?
Tai Fforddiadwy	Oes	Blaenoriaeth
Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Oes	Blaenoriaeth
Seilwaith Gwyrdd	Newydd	Blaenoriaeth
Ynni Adnewyddadwy	Oes	
Tirwedd	Oes	
Rhwymedigaethau Cynllunio	Oes	Blaenoriaeth
Y Gymraeg	Newydd	
Ardaloedd Cadwraeth	Oes	
Dylunio Preswyl	Oes	
Archaeoleg	Oes	
Yr Amgylchedd Hanesyddol	Oes	
Cynllun Lleoedd y Drenewydd a Llanllwchaearn	Oes	
Anheddau Mentrau Gwledig Garddwriaethol ar Raddfa Fach	Newydd	
Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr	Newydd	

## Atodiad 2—Rhestr o Ddogfennau Ategol

<b>Papurau Cefndir</b>
<b>Gweledigaeth ac Amcanion</b>
Materion, Gweledigaeth ac Amcanion—Fersiwn Ymgynghori (Ionawr 2024)
<b>Angen a Chyflenwad Tai Powys</b>
1. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Mai 2024)
2. Y Cyflenwad Tir ar gyfer Tai (Ebrill 2024)
3. Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr (Ionawr 2024)
4. Y Gyfradd Tai Gwag (Ionawr 2024)
5. Tai Arbenigol (Mawrth 2024)
<b>Aneddiadau Cynaliadwy a Chymunedau Gwledig Powys</b>
1. Asesiad o Aneddiadau (Tachwedd 2023)
2. Asesiad o Aneddiadau Bach (Tachwedd 2023)
3. Dadansoddiad Clwstwr (Tachwedd 2023)
4. Dull Gwledig (Tachwedd 2023)
5. Strategaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth Integredig (Tachwedd 2023)
<b>Dewisiadau Twf a Gofodol Powys</b>
Dewisiadau Twf (2024)
Dewisiadau Gofodol (2024)
<b>Safleoedd Ymgeisiol</b>
Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol (Tachwedd 2022)
Canfyddiadau yr Asesiad Hidlo Safleoedd Ymgeisiol Cychwynnol (2024)
<b>Arall</b>
Cynllun Seilwaith
Datganiad o'r Sefyllfa o ran Ffosffad
Datganiad o'r Sefyllfa o ran Asesu Hyfywedd
Y Cyd-destun Rhanbarthol
Datganiad o'r Sefyllfa o ran Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
Papur Cefndir Mwynau
Papur Cefndir Gwastraff
Papur Cefndir yr Iaith Gymraeg
Hunanasesiad o'r Strategaeth a Ffefrir o'i Chymharu â Phroffion Cadernid
<b>Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth</b>
Asesiad o Anghenion Adwerthu Powys (Chwefror 2024)

Adolygiad Adwerthu Powys (2023)
Asesiad o Anghenion Cyflogaeth (2024)
Asesiad Cymeriad Tirwedd (Mawrth 2022)
Asesiad Ynni Adnewyddadwy
Asesiad Seilwaith Gwyrdd
Proffiliau Aneddiadau
Adroddiad Tystiolaeth Demograffig (2024)
Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
Asesiad Drafft o'r Farchnad Dai Leol (Mai 2024)
Asesiad Drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2021)
